# Agenda - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Medi 2020

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Sarah Beasley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddIechyd@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.**

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00 - 09.30)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda Chell Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru

(09.30-11.30) (Tudalennau 1 - 19)

Dr Rob Orford, Cyd-Gadeirydd y Gell Cyngor Technegol a Phrif Gynghorydd Gwyddonol (Iechyd)

Fliss Bennee, Cyd-Gadeirydd y Gell Cyngor Technegol

Dr Heather Payne, Uwch-swyddog Meddygol ar gyfer Iechyd Mamau a Phlant

Dr Marion Lyons, Uwch-swyddog Meddygol

Briff ymchwil

## 3 Papurau i'w nodi

(11.30)

3.1 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru, yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor ar ei ymchwiliad i Ofalwyr fis Tachwedd diwethaf

(Tudalennau 20 - 33)

3.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

(Tudalennau 34 - 36)

3.3 Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 16 Gorffennaf 2020

(Tudalennau 37 - 40)

3.4 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 16 Gorffennaf 2020

(Tudalennau 41 - 48)

3.5 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-05-966 Stopiwch yr Isafbris am Alcohol

(Tudalen 49)

3.6 Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw

(Tudalen 50)

3.7 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw

(Tudalennau 51 - 52)

3.8 Gwybodaeth ychwanegol gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd i helpu ag ymchwiliad y Pwyllgor i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

(Tudalennau 53 - 58)

3.9 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch darpariaeth gofal plant ar gyfer plant gweithwyr hanfodol sydd o oedran ysgol dros gyfnod yr haf

(Tudalennau 59 - 60)

3.10 Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch yr amserlen i gael canlyniadau profion

(Tudalennau 61 - 62)

3.11 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch yr amserlen i gael canlyniadau profion

(Tudalennau 63 - 66)

3.12 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y cyhoeddiad ar warchod

(Tudalennau 67 - 68)

3.13 Llythyr gan Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru yn dilyn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor gyda'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru.

(Tudalennau 69 - 70)

3.14 Llythyr gan Dr Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru mewn ymateb i'r llythyr gan Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru

(Tudalennau 71 - 73)

3.15 Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Adroddiad Holden

(Tudalen 74)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.30)

## 5 COVID-19: Trafod y dystiolaeth

(11.30-11.45)

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(11.45-12.10) (Tudalennau 75 - 90)

Papur 16 - Ystyriaeth o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol

## 7 COVID-19: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar ei ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

(12.10-12.30) (Tudalennau 91 - 128)

Papur 17 - Ymateb Llywodraeth Cymru

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Julie Morgan AS/MS**

**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

MA/JM/1744/20

Dr Dai Lloyd, AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

14 Gorffennaf 2020

Annwyl Dai

Rydw i'n ysgrifennu atoch chi ac aelodau'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad ar ymchwiliad y pwyllgor fis Tachwedd y llynedd.

Roedd fy ymateb cyntaf, a anfonwyd ym mis Ionawr eleni, yn mynd i'r afael â 31 argymhelliad yr ymchwiliad. Fodd bynnag, gofynnwyd am ddiweddariad ar nifer o'r argymhellion mewn chwe mis. Gallaf ddarparu'r rhain i chi nawr, yn ogystal â throsolwg o'r cynnydd a'r gweithgarwch i helpu a chefnogi gofalwyr yng Nghymru.

Oherwydd y pandemig Covid-19, rydw i'n ymwybodol bod llawer o'r problemau oedd gofalwyr yn eu hwynebu a'r pwysau oedd arnynt wedi gwaethygu. Felly, hoffwn ddiolch i'r holl ofalwyr o bob oed sydd wedi ymrwymo ac ymroi i ofalu am deulu, ffrindiau, cymdogion ac unrhyw un sydd wedi bod angen cymorth a chefnogaeth yn ystod y cyfnod eithriadol o heriol hwn. Mae'n rhaid i ni weithio mewn partneriaeth â gofalwyr ar draws y llywodraeth a phob sector, er mwyn sicrhau bod anghenion gofalwyr yn cael eu cydnabod a'n bod yn mynd i'r afael â nhw. Yn y llywodraeth, rydyn ni'n parhau i sicrhau hawliau ein gofalwyr o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Wrth i ni i gyd barhau i addasu i'r ffyrdd newydd o weithio mewn sefyllfa sy'n newid yn gyson, mae'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector wedi gorfod ymateb mewn gwahanol ffyrdd. Mae hyn wedi effeithio ar Lywodraeth Cymru hefyd, ac mae llawer o swyddogion wedi cael eu hadleoli er mwyn helpu i reoli'r argyfwng. Rydyn ni'n dal yn bell o fod mewn sefyllfa 'busnes fel arfer' ond rydyn ni wedi defnyddio adnoddau i ganolbwyntio ar y tymor byr a'r ymateb angenrheidiol i Covid-19 yng nghyswllt gofalwyr.

Mae'r argyfwng, yn anochel, wedi golygu bod angen i ni addasu a newid ffocws y rhaglen waith ar gyfer polisi gofalwyr oedd gennym ni ar waith cyn y pandemig. Wrth i'r argyfwng ysgafnu rhywfaint, rydyn ni'n bwriadu mynd i'r afael ag effaith yr amgylchiadau

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

newidiol ar lawer o ofalwyr. Dros yr haf, gyda mewnbwn rhanddeiliaid a'r gofalwyr eu hunain, byddwn yn pennu'r ffordd orau o gefnogi gofalwyr a diwallu eu hanghenion parhaus wrth i'r cyfyngiadau symud lacio.

Y sefyllfa bresennol

Mae mwy a mwy o bwysau wedi bod ar lawer o ofalwyr, nid o ran gofalu am eraill yn unig, ond hefyd o ran eu hiechyd meddwl a'u llesiant eu hunain, a'u hiechyd corfforol o bosibl. Mae gofalwyr wedi bod yn poeni am ddal yr haint, ond hefyd yn poeni am basio'r feirws i'r bobl maen nhw'n gofalu amdanynt, yn enwedig os oes gan yr unigolion hynny gyflyrau iechyd isorweddol, neu eu bod mewn categorïau agored i niwed neu'n gwarchod eu hunain. Hefyd, mae pobl wedi bod yn poeni bod llai o gymorth ar gael o ganlyniad i effaith y pandemig ar y gweithlu gofal cymdeithasol.

I rai gofalwyr, mae colli cyfleoedd i gael seibiant, fel canolfannau dydd, grwpiau cymunedol, neu fethu gallu cael mynediad at wasanaeth gofalu dros nos, wedi rhoi mwy o bwysau arnynt. Dydy pobl ddim wedi gallu galw ar rwydweithiau teulu ehangach i helpu, er bod nifer bach o achosion yn cael eu caniatáu er mwyn sicrhau gofal parhaus neu ddarparu seibiant.

Fe wnaeth rhai gofalwyr ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau gofalu eu hunain oherwydd eu bod yn poeni am weithwyr gofal cartref yn dod i mewn i gartrefi ac efallai'n lledaenu Covid-19. Mae eraill wedi bod yn poeni am y diffyg mynediad at asesiad o anghenion ac wedi cael trafferth cael gafael ar fwyd neu feddyginiaeth.

Ymateb y Trydydd Sector

Mae'r trydydd sector wedi gwneud ymdrech enfawr i gefnogi gofalwyr. Mae wedi symud yn gyflym i gynyddu darpariaeth ar-lein a llinellau cymorth, ac mae hyn wedi helpu llawer o ofalwyr i gael gafael ar wybodaeth a chyngor hollbwysig. Rydw i'n ymwybodol bod y galw am gymorth dros y ffôn a llinellau cymorth wedi cynyddu, felly roeddwn yn falch ein bod wedi gallu darparu £50k o gyllid i alluogi Gofalwyr Cymru i roi hwb i'w gwasanaethau cymorth emosiynol a llesiant.

Deddf Coronafeirws 2020

Mae'r addasiadau dros dro i Ddeddf 2014 yn rhan o'r amryw o fesurau rydyn ni, a'n chwaer-lywodraethau ledled y DU, wedi'u cymryd yn Neddf Coronafeirws 2020. Hoffwn gofnodi pa mor ddiolchgar wyf i'r sefydliadau sy'n cynrychioli gofalwyr ac eraill ledled y sector gofal cymdeithasol, a wnaeth ymateb i'n hymarfer ymgysylltu cyflym ar y drafft o'r canllawiau statudol ategol.

Mae ein dull ni wedi sicrhau ein bod wedi mynd i'r afael â phryderon rhanddeiliaid yn uniongyrchol ac wedi darparu fframwaith clir a phendant pe bai angen defnyddio'r darpariaethau hynny. Yn ein holl gyfathrebiadau, rydyn ni wedi nodi ein disgwyliadau'n glir, sef:

- dylai awdurdodau lleol gydymffurfio â gofynion Deddf 2014 a'r Codau Ymarfer cysylltiedig cyn hired a chyn belled ag y bo hynny'n bosibl;
- dim ond pan fo hynny'n hanfodol er mwyn cynnal gwasanaethau ar y lefel uchaf y dylai unrhyw addasiadau gael eu gwneud; ac
- dros dro yn unig y dylai unrhyw addasiadau fod, a rhaid gallu eu cyfiawnhau oherwydd amgylchiadau lleol nad oedd modd eu hosgoi, a'u dileu ar y cyfle cyntaf.

Rydyn ni wedi bod yn glir y bydd unrhyw ofal a / neu gymorth i unigolion sydd wedi cael eu haddasu yn dychwelyd i’w trefniadau gwreiddiol ar y cyfle cyntaf. Dylai awdurdodau lleol sefydlu trefniadau ac esbonio sut bydd hyn yn cael ei gyflawni i'r rheini mae hyn yn effeithio arnynt.

Roedd fy Natganiad Ysgrifenedig i Ofalwyr, a gyhoeddwyd ar 4 Mai, yn esbonio pa fesurau diogelu sydd ar waith ac mai llesiant unigolion yw’r brif ystyriaeth bob amser. https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-datganiad-ysgrifenedig-ar-ofalwyr. Rhaid canmol ymrwymiad gofalwyr a’r gweithlu gofal cymdeithasol am sicrhau bod yr effaith ar gymorth a gofal i unigolion wedi cael ei gynnal, ar y cyfan, oherwydd ymrwymiad parhaus unigolion i ddarparu gofal yn ein cymunedau.

Gweithio gyda rhanddeiliaid

Agwedd hanfodol ar ein gwaith fel llywodraeth yw sicrhau ein bod yn cyfathrebu ac yn cydweithio’n agos â chyrff fel Cynghrair Cynhalwyr Cymru, sydd â nifer o wahanol elusennau a mudiadau ymhlith ei haelodau, a chanddynt hwythau aelodau sy’n cynnwys llawer o ofalwyr.

Mae fy swyddogion wedi bod mewn cysylltiad â Gofalwyr Cymru, Ymddiriedolaeth Cymru a Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan bron bob dydd. Mae gweithgor cyfnod penodedig wedi cael ei greu, sy’n cwrdd bob pythefnos er mwyn helpu i sianelu’r wybodaeth gan y trydydd sector. Mae hyn wedi golygu bod modd rhoi adborth cyflym ar bryderon gofalwyr sy’n codi o argyfwng y Coronafeirws, ac wedi helpu i hwyluso ein hymateb.

Mae’r amrywiaeth o broblemau rydyn ni wedi mynd i’r afael â nhw gyda’r mudiadau gofalwyr cenedlaethol yn cynnwys: effeithiau sefyllfa Covid-19 ar grwpiau agored i niwed a’r rheini sydd wedi bod yn gwarchod ac yn parhau i wneud hynny; pryderon ynghylch gofalwyr di-dâl heb fynediad i gyflenwadau cyfarpar diogelu personol (PPE); gwahaniaethau ar draws ardaloedd awdurdodau lleol o ran cyngor dryslyd i ofalwyr; effaith ariannol yr argyfwng ar y rheini sy’n gofalu; a lleihad mewn cynlluniau gofal a chymorth.

Cyllid i ofalwyr cymorth, y trydydd sector a gofal cymdeithasol i oedolion

Yng nghyfarfod Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr ym mis Ebrill, fe wnes i ddiolch i’r trydydd sector am ei ddull arloesol a hyblyg o gefnogi gofalwyr yn ystod yr argyfwng hwn. Rydw i’n cydnabod y gwaith caled sy’n cael ei wneud yn y sector hwn ac rydyn ni’n awyddus i ddysgu o syniadau arloesol a dulliau newydd o weithio.

Rydw i hefyd yn cydnabod bod pwysau ariannol nad oedd modd eu rhagweld ar y trydydd sector. Mae ein Cronfa Ymateb i Covid-19 ar gyfer y Trydydd Sector, sydd werth £24 miliwn, yn cefnogi tri maes gweithgarwch penodol; helpu elusennau a mudiadau’r trydydd sector drwy’r argyfwng yn ariannol; helpu mwy o bobl i wirfoddoli drwy gefnogi mudiadau trydydd sector yn y gymuned sy’n cydlynu’r ymateb gwirfoddol; a drwy gryfhau seilwaith y trydydd sector.

Yn ogystal â hyn rydyn ni, i ddechrau, wedi neilltuo £40m o gyllid ychwanegol i awdurdodau lleol ar gyfer costau a ysgwyddwyd ym maes gwasanaethau oedolion yn sgil y pandemig Covid-19. Mae awdurdodau lleol yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd o ran beth sydd fwyaf pwysig a beth yw'r ffordd orau o wario’r arian hwn, ond maen nhw’n parhau i gydweithio’n agos â'r trydydd sector er mwyn gallu darparu gwasanaethau hanfodol i’r unigolion sy’n wynebu’r risg fwyaf, a bodloni gofynion

newydd. Bydd gofalwyr di-dâl yn cael budd o'r gwasanaethau mae’r cyllid hwn yn bwriadu eu cefnogi.

Ym mis Ebrill 2020, dechreuwyd tri phrosiect newydd penodol i ofalwyr ar ôl cael dyfarniad o £2.1m gan gynllun grant newydd Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy'r Trydydd Sector ar gyfer 2020-23. Bydd y prosiectau hyn yn galluogi Gofalwyr Cymru, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac Age Cymru i gynnig gwasanaethau i wella bywydau gofalwyr o bob oed. Rydyn ni wedi trafod â phob un o'r elusennau cenedlaethol hyn sut byddai modd addasu eu gweithgarwch, os yw hynny’n briodol, er mwyn rhoi gwell cymorth i ofalwyr sy’n ei chael yn anodd ar hyn o bryd. Rydyn ni hefyd wedi cytuno i ddarparu £50k ychwanegol i fudiad Gofalwyr Cymru, ochr yn ochr â’u prosiect sy’n cael ei ariannu gan grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy'r Trydydd Sector, ar gyfer gwasanaethau seicolegol ac emosiynol ychwanegol.

Yn olaf, ewch i Atodiad A i weld fy ymateb i’r argymhellion hynny y gofynnoch am ddiweddariad ar eu gweithgarwch / cynnydd. Mae’r ymatebion i Argymhellion 1 a 2 wedi cael eu cyfuno, yn ogystal ag argymhellion 21 a 23.

Yn gywir,



**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Atodiad A**

**Argymhellion ar gyfer Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – "Gofalu am ein dyfodol - Effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yng nghyswllt Gofalwyr"**

Llythyr gan y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi diweddariad ar ôl chwe mis i Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Gorffennaf 2020

**Argymhelliad 1**. *Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o flaenoriaeth, ddangos arweinyddiaeth genedlaethol gryfach wrth ddarparu hawliau a gwasanaethau i ofalwyr o dan y Ddeddf. Fel man cychwyn, rhaid iddi baratoi, o fewn chwe mis, gynllun gweithredu clir ar gyfer mynd i'r afael â'r methiannau gweithredu a amlygwyd yn y dystiolaeth a gawsom. Wrth wneud hyn, rhaid iddi ymgynghori â rhanddeiliaid a gofalwyr allweddol. Rhaid iddi hefyd nodi amserlen glir ar gyfer cyflawni'r camau a nodwyd yn ei chynllun.*

**Argymhelliad 2**. *Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati nawr i gynllunio ar gyfer y cynnydd a ragwelir yn nifer y gofalwyr di-dâl. Rhaid iddi ystyried y sefyllfa dymor hir a beth fydd anghenion gofalwyr yn y dyfodol a sut bydd yn diwallu'r anghenion hynny, ynghyd ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'r trydydd sector. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir sut bydd yn cyflawni hyn ac adrodd yn ôl i ni ar ei chynnydd mewn chwe mis.*

Fel y nodwyd yn fy ymateb ym mis Ionawr[1], rydyn ni'n cynllunio ar gyfer newidiadau sylweddol o ran y boblogaeth yn ein cymdeithas. Mae rhagolygon yn dangos bod poblogaeth Cymru yn heneiddio, ac mae hyn yn debygol o arwain at nifer mwy o ofalwyr yn y dyfodol. Bydd angen mwy cynllunio gan ddefnyddio dull partneriaeth rhagweithiol, nawr yn fwy nag erioed. Rydyn ni'n bwriadu defnyddio Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr, a fydd yn cynnwys aelodau o sectorau allweddol, er mwyn ein helpu ni i ddatblygu cynlluniau i ymateb i'r duedd hon.

Mae rhai gweithgareddau wedi cael eu gohirio dros dro oherwydd bod angen i ni fynd i'r afael â gofynion Covid-19, ac mae hyn wedi effeithio ar gynllunio gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr hefyd. Fodd bynnag, rydw i'n falch bod Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr wedi cynnal dau gyfarfod "rhithiol" ers mis Ionawr – un ddiwedd mis Ebrill a'r llall ddechrau mis Gorffennaf.

Ym mis Ebrill, dechreuodd yr aelodau drafod strategaeth ymadael ar ôl Covid-19 ac ailddechrau gwaith ar ddogfen ymgynghori gyhoeddus, er mwyn helpu i gasglu gwybodaeth i ddatblygu a drafftio ein cynllun cenedlaethol newydd ar gyfer gofalwyr. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn ystyried ystod o wybodaeth a thystiolaeth sy'n deillio o argyfwng Covid-19. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau gan Carers UK, fel eu hadroddiadau ymchwil "Caring behind closed doors" a "Carers Week 2020", yn ogystal â'r ddogfen "Briefing: Young Carers and Covid 19" a gyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ym mis Ebrill.

Goblygiadau ariannol. Oes, wedi'u cynnwys yn y cynlluniau a'r gyllideb sy'n bodoli'n barod.

[1] https://senedd.wales/laid%20documents/gen-ld12986/gen-ld12986%20-w.pdf

**Argymhelliad 3.** *Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod Grŵp Cynghori Gweinidogol yn cael cefnogaeth ac adnoddau i fod yn fforwm effeithiol. Rhaid iddo fod â statws digonol o fewn Llywodraeth Cymru i godi proffil gofalwyr ac anghenion gofalu ar draws meysydd polisi'r llywodraeth, gan gynnwys llywodraeth leol, iechyd, tai a thrafnidiaeth. O'r herwydd, dylai aelod o Lywodraeth Cymru ei gadeirio. Dylai fod yn dryloyw, a dylai gyhoeddi agendâu a chofnodion ei gyfarfodydd. Rhaid i'r Dirprwy Weinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn chwe mis ar y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion hyn.*

Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr wedi cael ei gynnal ac fe godwyd ei broffil drwy benodi Cadeirydd Annibynnol newydd ym mis Ionawr 2020 – sef Arwel Ellis Owen. Mae Arwel wedi ymgysylltu â'r aelodau yn rhagweithiol ac mae eisoes yn herio'r aelodau'n gadarn, yn ogystal â chynnig cyngor ymarferol yn sgil ei brofiad yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Rydyn ni hefyd yn bwriadu gwahodd cynrychiolwyr newydd i ymuno â'r grŵp, lle bydd hyn y cryfhau cysylltiadau ar draws portffolios y llywodraeth.

Pan ffurfiwyd Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn y lle cyntaf, ymrwymodd y Gweinidog i ddatblygu grŵp Ymgysylltu newydd, a fyddai'n estyn y cyfle i ofalwyr ag ystod ehangach o brofiadau, gan gynnwys gofalwyr ifanc, i gefnogi gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog. Cytunwyd ar gyllid cychwynnol o £12k yn 2019-20 i gefnogi'r broses o greu'r grŵp, ac rydyn ni newydd gytuno ar gyllid o ychydig dros £33k yn 2020-21 er mwyn i Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru barhau i hwyluso gwaith y grŵp a chefnogi'r aelodau.

Roedd cyfarfod cyntaf y grŵp ar 20 Ionawr 2020 a bydd y nesaf yn ei gynnal ar ffurf rhith-gyfarfod yn ystod yr haf. Cyn y cyfarfod, rydyn ni wedi gofyn i Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru siarad â'r aelodau a chasglu tystiolaeth o'u profiadau uniongyrchol o COVID-19 ac unrhyw effeithiau ehangach ar unigolion a gofalwyr.

Rydyn ni wedi cyhoeddi cofnodion cyfarfod Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr ar wefan Llywodraeth Cymru, yn ogystal â Chylch Gorchwyl y grŵp.
https://llyw.cymru/grwp-cynghorir-gweinidog-ar-gyfer-gofalwyr

Goblygiadau ariannol – Oes, wedi'u cynnwys yn y cynlluniau a'r gyllideb sy'n bodoli'n barod.

***Argymhelliad 4.*** *Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o flaenoriaeth, weithredu ei hymrwymiad i ymgymryd ag ymgyrch gyhoeddusrwydd fawr i godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a hawliau gofalwyr oddi tani. Dylai hyn godi proffil gofalu, gwella'r broses o nodi gofalwyr, hyrwyddo manteision asesiadau o anghenion o dan y Ddeddf, ac annog pobl i gymryd rhan. Dylai hefyd gyfeirio pobl at wybodaeth, cyngor a chymorth priodol ynghylch gofalu. Rhaid i'r Dirprwy Weinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y cynnydd o fewn chwe mis.*

Fe wnaethom lansio ein hymgyrch gofalwyr a phobl hŷn ar 21 Tachwedd y llynedd, gyda chymorth mudiadau gofalwyr cenedlaethol, i godi ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr yn Neddf 2014. Cwblhawyd elfen hysbysebu ategol yr ymgyrch cyn dechrau'r cyfyngiadau symud yn y DU. Roedd hyn yn cynnwys amserlen o gyfryngau papur newydd ledled Cymru, yn ogystal ag ymgyrch radio ddwyieithog. Roedd lefel uchel o bobl yn ymgysylltu â'r elfen cyfryngau cymdeithasol, ond daeth hynny i ben yn fuan. I ddilyn hyn, roedd ail gam i fod i fynd rhagddo, a fyddai wedi sicrhau bod llyfrynnau a phosteri ar gael ac yn cael eu dangos mewn lleoliadau ledled cymunedau Cymru.

O ganlyniad i'r sefyllfa o ran Covid-19, mae ymgyrchoedd cyfathrebu Llywodraeth Cymru wedi cael eu hatal dros dro er mwyn canolbwyntio ar roi'r wybodaeth a'r canllawiau diweddaraf i'r cyhoedd ynghylch y coronafeirws. Fodd bynnag, mae'r holl drefniadau ar gyfer yr ymgyrch hawliau gofalwyr wedi cael eu cwblhau a bydd y camau gweithredu hyn yn cael eu cyflawni pan fydd yn briodol gwneud hynny.

Goblygiadau ariannol – Oes, wedi'u cynnwys yn y cynlluniau a'r gyllideb sy'n bodoli'n barod.

***Argymhelliad 6.*** *Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y broses ffurfiol o asesu anghenion ar gyfer gofalwyr yn cael ei hegluro a'i safoni ar draws awdurdodau lleol. Rhaid iddi allu dangos sut y mae wedi cyflawni hyn a dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y cynnydd o fewn chwe mis.*

Fel yr eglurais yn fy ymateb ym mis Ionawr, fe wnaethom sicrhau bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014 yn rhoi dyletswyddau clir ar y rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan Ddeddf 2014, gan gychwyn gyda'r rhagdyb mai'r oedolyn sydd yn y sefyllfa orau i farnu ynghylch ei lesiant ei hun.

Caiff y broses ar gyfer asesu anghenion gofalwyr ei nodi'n glir yng Nghod Ymarfer penodedig Rhan 3 (asesu anghenion unigolion), a rhaid i bob awdurdod lleol roi'r broses hon ar waith wrth gynnal asesiad gydag unigolyn neu ofalwr. Mae'r cod hwn yn nodi proses ar gyfer asesu anghenion unigolyn am ofal a chymorth, neu gymorth yn achos gofalwr, ynghyd â'r broses asesu a fydd yn berthnasol i bawb – plant, oedolion a gofalwyr, yn ogystal â phroses adolygu ac ailasesu, a fydd yn berthnasol i asesiadau.

Mae pawb ledled ein cymunedau wedi wynebu heriau sylweddol yn sgil y coronafeirws. Drwy'r heriau hynny, rydyn ni wedi parhau i atgyfnerthu ein disgwyliadau, sef na ddylai'r egwyddorion sy'n sail Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014 gael eu lleihau. Roedd y canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Coronafeirws 2020 yn nodi'n glir bod yr egwyddorion hyn heb newid. Mae'r model asesu a ddisgrifiwyd yn fy ymateb ym mis Ionawr yn dal yn hanfodol bwysig – sef bod pawb yn sicrhau bod hawliau gofalwyr ac unigolion ag anghenion gofal a chymorth wrth wraidd ein system gofal cymdeithasol bob amser.

Goblygiadau ariannol – Oes, wedi'u cynnwys yn y cynlluniau a'r gyllideb sy'n bodoli'n barod.

***Argymhelliad 13.*** *Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau darpariaeth deg o wasanaethau i ofalwyr ledled Cymru, gan gynnwys gwasanaethau seibiant. Fel man cychwyn, rhaid iddi sicrhau bod ystod sylfaenol o wasanaethau cymorth i ofalwyr, yn seiliedig ar feini prawf cymhwysedd, yn cael eu darparu gan bob Awdurdod Lleol. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno mecanwaith i fonitro darpariaeth y gefnogaeth hon. Dylai adrodd yn ôl ar gynnydd o fewn chwe mis.*

Fel y nodais yn fy ymateb ym mis Ionawr, mae'r meini prawf cenedlaethol a bennir yn Neddf 2014 yn darparu ar gyfer dull cyson o gwrdd ag anghenion gofal a chymorth pob unigolyn yng Nghymru, gan gynnwys gofalwyr. Rhywbeth sy'n ganolog i'r dull hwn yw ysbryd cyd-gynhyrchu, gan weithio gyda'r unigolyn, y gofalwr a'r teulu i ddeall eu hanghenion, eu capasiti, a'r adnoddau a'r canlyniadau y maent yn dymuno neu angen eu cael. Nid trwy ddarparu gwasanaethau'n unig y gellir diwallu anghenion; mae modd eu diwallu hefyd trwy ddarparu cefnogaeth a chymorth gweithredol er mwyn galluogi pobl i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Esboniais hefyd ein bod yn trafod gyda chynrychiolwyr gwasanaethau cymdeithasol mewn awdurdodau lleol i weld sut y gellir sicrhau mwy o gysondeb a sut y gellir adrodd am y cysondeb hwn, gan gynnwys adeiladu ar ddulliau presennol fel adroddiadau a gyflwynir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a'u hadroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru. Nid yw wedi bod yn bosibl i ni fwrw ymlaen â'r ystyriaethau hyn oherwydd sefyllfa Covid-19, fodd bynnag, byddwn yn gwahodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i roi sylwadau yng nghyfarfodydd y gweithgor sy'n cael eu cynnal bob pythefnos rhwng mudiadau gofalwyr a fy swyddogion.
Mae gan ADSS gynrychiolwyr ar Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr hefyd, felly bydd y ddau fecanwaith yma'n cael eu defnyddio i ystyried yr ymrwymiad hwn a sut gallwn symud y trafodaethau yn eu blaenau.

Goblygiadau ariannol – Oes, wedi'u cynnwys yn y cynlluniau a'r gyllideb sy'n bodoli'n barod.

***Argymhelliad 17.*** *Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob gofalwr ifanc a phob gofalwr sy'n oedolyn ifanc yn gallu cael gafael ar y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Wrth wneud hynny, rhaid iddi fynd i'r afael â'r pryderon penodol a fynegwyd gan ofalwyr ifanc mewn tystiolaeth i'r pwyllgor hwn. Rhaid iddi sicrhau bod y gefnogaeth a'r gwasanaethau ar gyfer gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn briodol i'w hoedran ac yn hyblyg i ddiwallu eu hanghenion penodol. Rhaid bod cysylltiad cryf hefyd rhwng ysgolion a gwasanaethau gofalwyr. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir sut y bydd yn cyflawni hyn ac adrodd yn ôl i ni ar y cynnydd o fewn chwe mis.*

Hoffwn ganmol ymateb cyflym y gwasanaethau i ofalwyr ifanc sy'n cael eu hariannu gan awdurdodau lleol, am ddangos cadernid a pharhau i ddarparu cymorth a chefnogaeth drwy fecanweithiau ar-lein, ar gyfryngau cymdeithasol a dros y ffôn. Bydd yr angen am amrywiaeth o fecanweithiau cymorth a mudiadau i helpu pob person ifanc yn hanfodol wrth symud ymlaen, gan gynnwys helpu gofalwyr ifanc gyda'u hanghenion emosiynol a'u hiechyd meddwl. Rydw i'n disgwyl i bob awdurdod lleol barhau i gynnal gwasanaeth o safon i ofalwyr ifanc.

Hoffwn ei gwneud yn glir bod hawliau gofalwyr ifanc o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi cael eu cynnal drwy gydol yr argyfwng hwn, a bod y dyletswyddau ar gyrff statudol i sicrhau hyn heb newid. Nid yw'r Ddeddf Coronafeirws wedi gwneud unrhyw newidiadau i bobl ifanc, ond mae'n berthnasol yng nghyswllt oedolion ag anghenion gofal a chymorth, ac oedolion sy'n ofalwyr.

I sicrhau bod gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth am eu hawliau fel gofalwyr, yn ogystal â chymorth a chyngor mwy cyffredinol, fe wnaethom ddarparu manylion cyswllt a gwefannau'r holl awdurdodau lleol i weithredwr MEIC, y gwasanaeth cymorth cenedlaethol i bobl ifanc. https://www.meiccymru.org/. Rhoddwyd yr wybodaeth hon i Gomisiynydd Plant Cymru hefyd, sydd wedi creu hyb i roi cyngor i bobl ifanc ar y coronafeirws, gan gynnwys adran i ofalwyr ifanc. https://www.complantcymru.org.uk/coronafeirws/

Un o'r prif broblemau sy'n effeithio ar ofalwyr ifanc, ac sydd wedi gwaethygu yn sgil y pandemig, yw cael gafael ar feddyginiaeth a mynediad i archfarchnadoedd. Roeddwn yn falch iawn ein bod wedi llwyddo i weithio'n gyflym gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, Gofalwyr Cymru, Fferylliaeth Gymunedol Cymru a chyrff allweddol eraill yn y sector fferylliaeth, er mwyn helpu i ddatblygu llythyr adnabod newydd sy'n cael ei ddefnyddio gan ofalwyr o bob oed i'w helpu i gael gafael ar feddyginiaeth a chasglu presgripsiynau i bobl eraill.

Wrth i ysgolion gau, fe'i gwnaethom yn glir y dylai pob ysgol nodi eu holl ddysgwyr agored i niwed, gan gynnwys gofalwyr ifanc, a rhoi cymorth iddynt lle bynnag y bo hynny'n briodol. Ers ailagor ysgolion ar 29 Mehefin, rydyn ni'n ymwybodol bod angen i'r llywodraeth, awdurdodau lleol ac ysgolion gyfathrebu'n glir â theuluoedd a phobl ifanc, a rhoi canllawiau iddynt. Mae'r canllawiau hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/addysg-coronafeirws.

Mae cefnogi dysgwyr agored i niwed, gan gynnwys gofalwyr ifanc, yn bwysig bob amser. Mae ysgolion a cholegau'n parhau i chwarae rôl bwysig o ran helpu i adnabod gofalwyr ifanc. Gall awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, penaethiaid a gweithwyr mewn ysgolion a cholegau wneud mwy fyth i wella eu dealltwriaeth o anghenion gofalwyr ifanc. I'w helpu nhw, rydyn ni wedi rhoi arian i Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru gynhyrchu canllawiau a chynlluniau gwersi i staff addysgu a llywodraethwyr ysgolion, ac rydyn ni'n bwriadu lansio'r rhain fis Medi.

Y llynedd, cyhoeddodd Estyn ei Adolygiad Thematig o Ofalwyr Ifanc ac Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr mewn ysgolion, darpariaeth Addysg Bellach ac Unedau Cyfeirio Disgyblion[2]. Er bod argyfwng y pandemig wedi cael effaith aruthrol ar ysgolion ac astudiaethau i lawer o bobl, rydw i'n argymell yn gryf bod awdurdodau lleol, ysgolion, colegau AB a chyrff eraill yn taro golwg arall ar yr argymhellion yn adroddiad Estyn.

Byddwn yn parhau i edrych ar ystod o dystiolaeth yng nghyswllt profiadau gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc, sydd wedi deillio o'r pandemig fel rhan o drafodaethau Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr, er mwyn helpu i roi sail i ddatblygiad ein cynllun cenedlaethol newydd i ofalwyr.

Goblygiadau ariannol – Oes, wedi'u cynnwys yn y cynlluniau a'r gyllideb sy'n bodoli'n barod.

**Argymhelliad 20**. *Credwn y dylai'r cynllun cardiau adnabod gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc fod yn gynllun cenedlaethol, wedi'i ddarparu gan bob awdurdod lleol gyda chefnogaeth briodol gan Lywodraeth Cymru ac yn hygyrch i bob gofalwr ifanc a gofalwr sy'n oedolyn ifanc. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni fel mater o flaenoriaeth. Dylai adrodd yn ôl ar gynnydd o fewn chwe mis.*

Yn ôl ym mis Ionawr, fe wnes i ddatganiad ar gyfer diwrnod Hawliau Gofalwyr Ifanc yn datgan fy mod wedi ymrwymo i symud y prosiect hwn yn ei flaen yn ystod y 12-24 mis nesaf[3]. Cafodd gweithgarwch ei ohirio oherwydd y pwysau ar adnoddau yn sgil Covid-19 ac rydyn ni wedi cytuno ar gynllun gwaith diwygiedig ar gyfer 2020-21 gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru. Rydyn ni'n darparu cyllid blynyddol o ychydig dros £36k ar gyfer 2020-21, er mwyn galluogi'r Ymddiriedolaeth i barhau i ddatblygu adnoddau i gefnogi'r gwaith gyda chardiau adnabod ac i gefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt dreialu modelau a phrosesau newydd.

Mae arolwg byr wedi cael ei lansio gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i ofyn am fewnbwn gan awdurdodau lleol, a fydd yn rhoi darlun cliriach i ni o'u gallu i ddatblygu eu cyfraniad yn ystod y misoedd nesaf. Rydyn ni hefyd wedi cynnal ein hymrwymiad i

---

[2] https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/darpariaeth-ar-gyfer-gofalwyr-ifanc-mewn-ysgolion-uwchradd-colegau-addysg
https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/darpariaeth-ar-gyfer-gofalwyr-ifanc-mewn-ysgolion-uwchradd-colegau-addysg?_ga=2.49591072.785795501.1593535119-1878271694.1551452352
[3] https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cardiau-adnabod-i-ofalwyr-ifanc

sicrhau bod £200k ar gael i awdurdodau lleol ei ddefnyddio yn ystod cam presennol y gweithgarwch, yn 2020-21.

Goblygiadau ariannol – Oes, wedi'u cynnwys yn y cynlluniau a'r gyllideb sy'n bodoli'n barod.

***Argymhelliad 21.*** *Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr yn cael eu safoni ar draws bob awdurdod lleol a bwrdd iechyd lleol. Rhaid i hyn gynnwys darpariaeth ddwyieithog o'r gwasanaethau hyn. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru gynnull cynrychiolwyr o lywodraeth leol, byrddau iechyd a'r trydydd sector gyda'r nod o ddatblygu dull a fydd yn sicrhau'r gwelliannau hyn i'r defnyddiwr gwasanaeth. Gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog adrodd yn ôl i ni ar y cynnydd o fewn chwe mis.*

**Argymhelliad 23.** *Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan staff sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy, fel rhan o bwynt cyngor a gwybodaeth canolog pob awdurdod lleol, wybodaeth gyfoes am hawliau a gwasanaethau i ofalwyr o dan y Ddeddf, ac y darperir hyfforddiant gloywi lle bo angen. Nodwn y gwaith sy'n cael ei wneud gan Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddatblygu fframwaith cymhwysedd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithwyr gwybodaeth, cyngor a chymorth. Gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog ein diweddaru ar y cynnydd gyda'r prosiect hwn.*

Roeddwn yn falch o weld bod yr holl awdurdodau lleol wedi gweithio'n gyflym i sicrhau bod eu cymunedau lleol ac unigolion yn gallu cael gafael ar wasanaethau drwy gymorth ar-lein a dros y ffôn, gan gynnwys gwybodaeth berthnasol, cyngor a chymorth i ofalwyr. Rydw i'n gwybod bod ein holl bartneriaid ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol eisiau edrych ar y sianeli cyfathrebu sydd wedi bod yn effeithiol o ran eu cyrhaeddiad uniongyrchol a'u hygyrchedd parhaus i bobl yn eu hardaloedd.

Bydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr yn ystyried nifer o gamau gweithredu yng nghyswllt Covid-19 wrth symud ymlaen, gan gynnwys sut gellid rhoi cymorth priodol i ofalwyr a'u helpu i gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth addas, boed hynny gan wasanaethau statudol neu'n deillio o'r cyngor a'r cymorth rhagorol mae'r trydydd sector wedi'u rhoi ar waith yn ystod yr argyfwng presennol.

Fel y nodais ym mis Ionawr, nid yw pob awdurdod lleol yn gwneud defnydd o fodel un pwynt mynediad y gall pobl ei ddefnyddio i gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth, fel y dangosir yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, Y Drws Blaen i Ofal Cymdeithasol i Oedolion. Mae canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad hwnnw'n dal yn ddilys ac rydw i'n dal yn disgwyl i'r holl awdurdodau lleol ariannu a sicrhau bod strategaeth gweithwyr a hyfforddiant cyfredol a phriodol ar gael i'w staff, lle bynnag y bônt yn gweithio.

Aethom ati i gomisiynu Gofal Cymdeithasol Cymru i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu fframwaith cymwyseddau newydd ar gyfer y rheini sy'n darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, ac i ddiweddaru'r adnoddau 'Gwell Sgyrsiau' ar gyfer staff gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae'r ddau o'r rhain yn ystod y camau olaf o gael eu cynhyrchu ac mae sgyrsiau am eu cyhoeddi yn mynd rhagddynt. Mae'r ychwanegiadau diweddaraf hyn yn rhan o'r gyfres o adnoddau i helpu pob ymarferydd i ddarparu gwaith cymdeithasol, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn defnyddio dull cyson a phrofiad, i'r rheini sy'n ymwneud â gwasanaethau ar draws y maes gofal cymdeithasol.

Un o’r rhain yw'r dyfarniad newydd ar gyfer ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, sy’n cael ei ddatblygu er mwyn bod yn barod i gael ei lansio ym mis Medi 2020. Mae’r holl gynnwys wedi cael ei ddatblygu, gan gynnwys methodoleg asesu, ac mae'r fethodoleg addysgu / darparu wrthi’n cael ei thrafod gyda’r sector gofal cymdeithasol er mwyn cytuno arni. Mae’r dyfarniad hwn yn cael ei ddarparu gan y Brifysgol Agored ar hyn o bryd (ac mae gyfwerth â gradd gwaith cymdeithasol blwyddyn gyntaf y Brifysgol Agored, ond hefyd yn ddyfarniad Lefel 4 ar wahân). Cafodd hwn ei gyflwyno i fodloni’r gofynion yn Neddf 2014 ynglŷn â’r gallu i sicrhau asesiadau cymesur o ofynion gofal a chymorth posibl unigolyn, neu anghenion posibl gofalwyr o ran cymorth cymwys.

Ochr yn ochr â hyn, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystyried pa elfennau o'r dyfarniad i ymarferwyr Gofal Cymdeithasol y byddai modd eu defnyddio i gefnogi gweithwyr gwybodaeth, cyngor a chymorth ar y rheng flaen, h.y. pwynt gwybodaeth gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae’r gwaith hwn yn dal i fynd yn ei flaen, ond dylai gael ei gwblhau ar yr un pryd â’r dyfarniad newydd i ymarferwyr Gofal Cymdeithasol.

Goblygiadau ariannol – Oes, wedi’u cynnwys yn y cynlluniau a’r gyllideb sy’n bodoli’n barod.

**Argymhelliad 25.** *Mae’r sector statudol yn ddibynnol iawn ar y trydydd sector ar gyfer darparu gwasanaethau hanfodol i ofalwyr. Mae angen adlewyrchu’r ddibyniaeth honno wrth ddarparu cyllid digonol ar gyfer y trydydd sector, a chynnwys y sector mewn modd ystyrlon wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau ynghylch y cyllid hwnnw. Credwn y dylai’r Grŵp Cynghori Gweinidogol ystyried y mater hwn. Gofynnwn i’r Dirprwy Weinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y gwaith hwn o fewn chwe mis.*

Rydyn ni wedi ailgychwyn cyfarfodydd Grŵp Cynghori’r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr fel rhan o’r broses o nodi meysydd gweithgarwch allweddol ac adolygu o fewn y blaengynllun gwaith, a bydd hyn yn cynnwys ystyried cyllid ar gyfer y trydydd sector.

Roeddem yn ymwybodol iawn o'r galwadau gan CGGC ac ar draws y sector am yr angen am gymorth a chefnogaeth ariannol mewn cyfnod lle maen nhw eu hunain yn wynebu cynnydd sylweddol yn y galw am eu gwasanaethau. O ganlyniad i hyn, fe wnaethom gyhoeddi ein bod yn rhoi £24m o gyllid i’r sector er mwyn darparu cymorth yn ystod yr argyfwng presennol.

Gan edrych ar ein gallu i gynllunio ar gyfer y tymor hwy, fe wnaeth Llywodraeth y DU gyhoeddi yn y Gyllideb fis Mawrth bod ganddi gynlluniau ar gyfer Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant aml-flwyddyn a fyddai’n cael ei gynnal yr haf hwn. Ar yr adeg y caiff y ddogfen hon ei hysgrifennu, mae’r cynlluniau hynny wedi cael eu gohirio oherwydd argyfwng y coronafeirws.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU wedi cyflawni Rownd Wariant ar gyfer blwyddyn yn unig. Rydyn ni’n cydnabod bod ein partneriaid yn y sector cyhoeddus (a llawer o’r rheini yn y trydydd sector sy’n darparu gwasanaethau wedi’u comisiynu) yn galw am gyllidebu dros gyfnodau hwy er mwyn cefnogi cynllunio ariannol ymlaen llaw, ac rydyn ni’n cydymdeimlo â hynny. Ein huchelgais ni bob amser yw darparu eglurder tymor hir yng nghyswllt cyllidebau lle bynnag y bo hynny’n bosibl, fodd bynnag, rhaid cydbwyso hyn â thybiaethau cynllunio realistig a synhwyrol. Mae agenda cyni Llywodraeth y DU, ynghyd ag effaith barhaus yr argyfwng COVID-19 ar gyllid cyhoeddus a’r ansicrwydd parhaus yng nghyswllt y DU yn gadael yr UE, yn cyfyngu ar ein gallu ni i wneud hyn.

Goblygiadau ariannol – Oes, wedi'u cynnwys yn y cynlluniau a'r gyllideb sy'n bodoli'n barod.

***Argymhelliad 27.*** *Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhestr gynhwysfawr a hygyrch o'r ffynonellau cyllid sydd ar gael i ddarparu cymorth i ofalwyr gan y trydydd sector. Dylid gwneud hyn cyn gynted ag sy'n ymarferol.*

Yn 2018 cynhaliwyd ymarfer mapio gan swyddogion ac fe gafodd manylion y ffynonellau cyllid sydd ar gael o dan ôl troed pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a ble y daethant yn rhan o'r system, eu cyhoeddi ym mis Medi 2018. Nid oedd yr ymarfer hwn yn cynnwys yr holl gyllid ar gyfer cyrff y trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau'n ymwneud â gofalwyr, naill ai'n genedlaethol neu'n lleol.

Dywedais y dylem ystyried ymestyn yr ymarfer hwn er mwyn darparu rhagor o wybodaeth am ffrydiau cyllido, ac ystyried sut y gallwn wella hygyrchedd grantiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth, yn enwedig ymysg y trydydd sector. Yn anffodus, oherwydd effaith Covid-19 ar adnoddau mewnol Llywodraeth Cymru, mae'r gwaith arfaethedig hwn i wella proffil yr wybodaeth am grantiau wedi cael ei ohirio, ond byddwn yn bwrw ymlaen ag ef cyn gynted â phosibl.

Goblygiadau ariannol – Oes, wedi'u cynnwys yn y cynlluniau a'r gyllideb sy'n bodoli'n barod.

**Argymhelliad 29.** *Rhaid i Lywodraeth Cymru arwain yn gryfach ar ddull cenedlaethol o gasglu data ar ofalwyr, er mwyn sicrhau bod data priodol ac ystyrlon yn cael eu casglu ar draws pob sector mewn ffordd gydgysylltiedig a chyson. Credwn y dylai hyn fod yn swyddogaeth y Grŵp Cynghori Gweinidogol, a ddylai ddatblygu canllawiau cenedlaethol i bennu pa ddata y mae angen eu casglu, sut y dylid eu casglu a sut y byddant yn cael eu defnyddio ar ôl eu casglu. Dylai'r data gael eu cyhoeddi, a dylid eu defnyddio i lywio gwaith cynllunio gwasanaeth a chyllid yn y dyfodol. Credwn fod y Fframwaith Perfformiad a Gwella yn rhan bwysig o'r gwaith hwn, a gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y cynnydd.*

Gallaf sicrhau aelodau'r pwyllgor y bydd datblygiad ein cynllun cenedlaethol newydd i ofalwyr yn cael ei arwain gyda chyngor a mewnbwn gan aelodau Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr a'r grŵp Ymgysylltu, a fydd yn ystyried amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gynnwys tystiolaeth data ac ymchwil. Fe wnaethom dreulio llawer o amser ar ddatblygiad ac ymgynghori â rhanddeiliaid i ddatblygu ein Fframwaith Perfformiad a Gwella. Ein bwriad ni yw y bydd y cynllun cenedlaethol newydd i ofalwyr yn defnyddio'r Fframwaith i roi sail i'w drafodaethau.

Daeth y Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer awdurdodau lleol i rym ym mis Ebrill 2020 yn ôl y disgwyl. Fodd bynnag, oherwydd Covid-19, mae casgliadau data gofal cymdeithasol wedi cael eu gohirio er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol ailddyrannu adnoddau yn briodol. Mae amser wedi cael ei dreulio yn sicrhau ein bod yn cael data gofal cymdeithasol perthnasol yng nghyswllt Covid-19 er mwyn neilltuo dealltwriaeth a chymorth i'r pandemig.

Mae swyddogion mewn trafodaethau ynglŷn â phryd fydd data gofal cymdeithasol rheolaidd yn ailddechrau, fodd bynnag, mae mecanweithiau ar waith nawr er mwyn caniatáu i ddata mwy manwl gael ei gasglu gan awdurdodau lleol pan ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny. Fel yr amlinellwyd yn fy ymateb blaenorol, bydd hyn yn cynnwys mwy o ddata cadarn am ofalwyr a'u cymorth a'u cefnogaeth. Mae fy swyddogion hefyd yn gweithio gyda'r sector gofal cymdeithasol i ddatblygu strategaeth gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn caniatáu i randdeiliaid a defnyddwyr gofal

cymdeithasol gytuno ar weledigaeth a rennir ar gyfer data gofal cymdeithasol, gan gynnwys sut gellid ei ddefnyddio i helpu gwasanaethau i gyflawni canlyniadau gwell sy'n atebol, yn effeithiol ac yn cael eu harwain gan dystiolaeth. Yn gynharach eleni, dechreuodd gwaith ar gam darganfod y prosiect, mewn cydweithrediad â KPMG, ac mae wedi ailgychwyn yn ddiweddar.

Mae gwerthusiad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dal i fynd rhagddo. Mae llawer o waith wedi cael ei wneud hyd yn hyn i asesu sut mae Deddf 2014 wedi cael ei rhoi ar waith ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys sut mae'r egwyddorion "llais a rheolaeth" wedi cael eu defnyddio. Roedd y gwaith o gofnodi'r cam hwn o'r gwerthusiad i fod i gael ei gynnal ym mis Mehefin 2020, fodd bynnag, o ganlyniad i Covid-19, mae'r gwaith maes ar gyfer y gwerthusiad wedi gorfod cael ei ohirio, a fydd yn golygu y bydd oedi cyn cofnodi hefyd. Y disgwyliad nawr yw y byddwn yn adrodd ar hyn tuag at ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r adroddiad terfynol yn asesu effaith Deddf 2014 ar y rheini sy'n cael gofal a chymorth, a gofalwyr sy'n cael cymorth, i fod i gael ei gyhoeddi fis Hydref 2021. Bydd yn rhoi syniad o sut mae egwyddorion y ddeddf, fel 'llais a rheolaeth' wedi cael eu defnyddio a'r effaith mae Deddf 2014 a'r egwyddorion wedi'i chael ar ofalwyr a'u llesiant. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad yn cael eu defnyddio i gefnogi polisi o ran deall sut gallwn wella bywydau unigolion a'u gofalwyr.

Hoffwn hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am y prosiect "Mesur y Mynydd" a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi'i ddylunio i'n helpu ni i ddeall profiadau gofalwyr a'r rheini sy'n derbyn gofal yn well. Cafodd yr adroddiad ar gyfer cam cyntaf y gwaith ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2019; mae hwn yn pennu'r canfyddiadau yn ogystal â nifer o argymhellion i fwrw ymlaen â nhw, ac mae llawer ohonynt yn ymwneud â sut gellid gwella cymorth i ofalwyr.

Fe wnaethom ni ddarparu ymateb ffurfiol i'r argymhellion hynny [4]ac rydyn ni'n gweithio'n galed i sicrhau bod canfyddiadau'r prosiect yn cael eu cydnabod ar draws y sector gofal cymdeithasol, yn fwy hysbys, ac yn cael eu defnyddio'n ehangach. Mae'r prosiect yn ei ail gam erbyn hyn ac mae'n mynd ati i ddeall yn well y tueddiadau sydd wedi dod i'r amlwg o gam un. Bydd adroddiad nesaf y prosiect yn cael ei lunio ym mis Rhagfyr a bydd yn rhoi mwy o ddealltwriaeth o brofiadau gofalwyr, a sut mae modd gwella'r gydnabyddiaeth mae gofalwyr yn ei chael, yn ogystal â'u hanghenion o ran cymorth a chefnogaeth. Mae cysylltiad clir rhwng y prosiect hwn a'r gwaith arfaethedig i ddeall profiadau gofalwyr o dan nawdd Deddf 2014.

Goblygiadau ariannol – Oes, wedi'u cynnwys yn y cynlluniau a'r gyllideb sy'n bodoli'n barod.

***Argymhelliad 31.*** *Rhaid i Lywodraeth Cymru roi diweddariad ar y cynnydd o ran gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru o fewn chwe mis.*

Mae 15 o sefydliadau wedi dechrau cymryd rhan yn System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) ac mae 19 o gontractau wedi'u llofnodi. Mae mwy na 11,500 o ddefnyddwyr yn defnyddio WCCIS ar draws Cymru, ac mae'r nifer hwn wedi cynyddu'n ddiweddar oherwydd y cynnydd yn nifer y sefydliadau sy'n cymryd rhan a'r cynnydd yn y defnydd oherwydd COVID-19 (mae'r rhaglen yn coladu'r niferoedd

[4] https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ymateb-ffurfiol-ir-argymhellion-wnaed-gan-y-prosiect-mesur-y-mynydd

diweddaraf ar hyn o bryd). Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn un o'r sefydliadau diweddaraf i ymuno â'r rhaglen, gan i Nyrsio Cymunedol a thimau Gofal Cymdeithasol integredig o fewn ardal awdurdod Ceredigion ymuno ym mis Rhagfyr. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wrthi ar hyn o bryd yn cwblhau achos busnes llawn ar gyfer gweithredu WCCIS.

Ym mis Medi 2019 ymrwymodd Llywodraeth Cymru arian ychwanegol i gefnogi'r broses o gyflymu'r rhaglen genedlaethol, defnydd rhanbarthol gan Lywodraeth Leol, a rhoi swyddogaethau WCCIS ar waith yn y GIG. Mae'r arian hwn yn cael ei ddarparu o'r Gronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol a'r Gronfa Gofal Integredig.

Mae Archwilio Cymru wrthi'n adolygu WCCIS a disgwylir ei adroddiad ym mis Medi 2020. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adolygiad ac mae'n gweithio gydag Archwilio Cymru i nodi meysydd o fewn rhaglen WCCIS y gellir eu cefnogi i gyflymu a sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno ymhellach.

Goblygiadau ariannol – oes, wedi'u cynnwys yn y cynlluniau a'r gyllideb sy'n bodoli'n barod. Mae cyllid WCCIS i gefnogi'r rhaglen Genedlaethol a'r gwaith a wneir gan fyrddau iechyd yn parhau i gael ei gefnogi gan y Gronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol (DPIF) ar gyfer 2020-21; mae'r cyllid y cytunwyd arno eleni yn gyfanswm o £ 4.401m. Mae'r Gronfa Gofal Integredig hefyd yn parhau i ddarparu cyllid drwy'r partneriaethau rhanbarthol; caiff hyn ei gydlynu gan y rhaglen Genedlaethol ar ffurf ceisiadau y cytunwyd arnynt.

Senedd Cymru
Pwyllgor Cyllid
—
Welsh Parliament
Finance Committee

Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cadeirydd, Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cadeirydd, Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

---

22 Gorffennaf 2020

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22:**

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

Ymhellach at ddadl y Pwyllgor Cyllid ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 ar 15 Gorffennaf 2020, rwy'n ysgrifennu at holl Gadeiryddion y pwyllgorau pwnc i rannu ein syniadau ac i annog eich pwyllgorau i drafod sut y gallwch gyfrannu at gyflawni'r gwaith craffu mwyaf cydlynol ac effeithiol ar gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru.

**Y prif feysydd craffu ar y gyllideb**

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cytuno i barhau â'r dull a ddefnyddiwyd yn y gorffennol, sy'n ymwneud â'r pedair egwyddor ar gyfer craffu ariannol, sef: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phroses. Yr egwyddorion yw:

- **Fforddiadwyedd** - edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol;
- **Blaenoriaethu** - a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd gydlynol y gellir ei chyfiawnhau;
- **Gwerth am arian** - Yn y bôn, a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda - darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (h.y. canlyniadau); a
- **Phrosesau'r gyllideb** - a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau, a rheoli perfformiad a rheoli ariannol.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Ysgrifennais atoch ar 1 Mehefin 2020, i roi gwybod i chi, o ystyried y cyfyngiadau cymdeithasol ar hyn o bryd, na fyddem yn cynnal ein digwyddiad blynyddol i randdeiliaid. Yn lle hynny, cynhaliodd y Pwyllgor waith ymgysylltu ar-lein gan ddefnyddio arolygon barn a chwestiynau ar Twitter yn gofyn i'r cyhoedd awgrymu meysydd y dylid eu blaenoriaethu. Mae crynodeb o'r ymatebion ar gael. Er bod yr ymarferiad ymgysylltu yn gyfyngedig o ran cwmpas eleni, gan fod y sampl yn hunan-ddewis ac nid yn seiliedig ar sampl gynrychioliadol o'r boblogaeth, rhoddodd gipolwg diddorol ar safbwyntiau ac amlygwyd y rhain yn ystod y ddadl ar flaenoriaethau gwariant ar 15 Gorffennaf 2020. Rwy'n falch iawn o gadarnhau bod y Pwyllgor Busnes a’r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi cytuno y dylid cynnal dadl o'r math hwn bob blwyddyn ac rwy’n ddiolchgar i’r Aelodau a gyfrannodd at y ddadl.

Yn sicr, bydd yr adferiad o ganlyniad i bandemig Covid-19, a diwedd cyfnod pontio Brexit yn effeithio ar Gyllideb Ddrafft 2021-22. Yn ogystal â hynny, yn dilyn ein gwaith ymgysylltu a’r cyfraniadau a wnaed yn ystod y ddadl ar flaenoriaethau, rydym wedi nodi nifer o feysydd yr hoffem weld y gwaith craffu yn canolbwyntio arnynt, sef:

- *Sut y dylid targedu adnoddau i gefnogi adferiad economaidd a pha sectorau yn benodol y mae angen eu blaenoriaethu.*
- *I ba raddau y dylid blaenoriaethu lliniaru newid yn yr hinsawdd wrth gefnogi adferiad economaidd.*
- *Polisïau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ac anghydraddoldeb rhwng y rhywiau.*
- *Y dull gweithredu o ran gwariant ataliol, a sut y cynrychiolir hyn wrth ddyrannu adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar);*
- *Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a gweddnewid gwasanaethau;*
- *Sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu’r gyllideb;*
- *Sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthyca.*
- *Cefnogaeth i fusnesau. twf economaidd ac amaethyddiaeth ar ôl i’r cyfnod pontio Ewropeaidd ddod i ben.*
- *Beth yw'r cyfleoedd allweddol i fuddsoddiad y Llywodraeth gefnogi 'ailgodi’n gryfach' (h.y. cefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyflawni'n well yn erbyn y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).*

Rydym yn eich annog i ganolbwyntio ar rai o'r meysydd hyn yn eich gwaith craffu ar y gyllideb.

**Amserlen**

Mae Llywodraeth Cymru fel arfer yn cyhoeddi ei chyllideb ddrafft ym mis Hydref. Fodd bynnag, caiff ei hoedi eleni gan nad oes gan Lywodraeth Cymru arwydd o gyfanswm y cyllid sydd ar gael nes bod Llywodraeth y DU yn cyhoeddi Cyllideb neu Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Mae’r Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes ac er mwyn cydymffurfio â Rheol Sefydlog 20, nododd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi’r cyllidebau drafft amlinellol a manwl gyda’i gilydd ar 8 Rhagfyr 2020, a’r Gyllideb derfynol ar 2 Mawrth 2021. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog y bydd yn darparu amserlen bendant cyn gynted ag y bo modd ar ôl i Lywodraeth y DU wneud cyhoeddiad ynghylch ei Chyllideb.

**Ymgynghoriad ar y gyllideb ddrafft**

Yn seiliedig ar yr amserlen a gynigiwyd gan y Gweinidog, mae'r Pwyllgor Cyllid yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ychydig yn hwyrach eleni ym mis Medi/Hydref. Yn ôl yr arfer, byddwn yn cynnal

ymgynghoriad ar ran yr holl bwyllgorau a bydd yr ymatebion yn cael eu rhannu â chi yn yr hydref er mwyn eich helpu i graffu ar y gyllideb ddrafft. Fel bob amser, byddem yn gwerthfawrogi eich cymorth i hyrwyddo ein hymgynghoriad drwy eich dulliau cyfathrebu eich hun er mwyn annog ac ymgysylltu â chynulleidfa ehangach.

Fel y gwyddoch, newidiodd y darpariaethau o ran adrodd gan bwyllgorau polisi yn 2017, ac rydych bellach yn gallu adrodd yn eich rhinwedd eich hunan (os dymunwch), a gall eich adroddiadau gael eu defnyddio fel dogfen ategol i'r ddadl ar y gyllideb ddrafft.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y gyllideb ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu Glerc y Pwyllgor Cyllid, Bethan Davies, ar 0300 200 6372, neu seneddcyllid@senedd.cymru,

Yn gywir



Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

—

Welsh Parliament
**Health, Social Care and Sport Committee**

# Eitem 3.3

**Vaughan Gething AS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

23 Gorffennaf 2020

Annwyl Weinidog


Diolch am eich tystiolaeth ddiweddar i'r Pwyllgor, ochr yn ochr â'r Dirprwy Weinidog, Dr Andrew Goodall a Mr Albert Heaney.

Mae'r Pwyllgor wedi cael cyfle i fyfyrio ar y trafodaethau ac mae wedi gofyn i mi ysgrifennu atoch yn nodi ei bryderon mewn nifer o feysydd. Mae'r rhain wedi'u nodi yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried y pwyntiau hyn, ac rwy'n siŵr y byddwn am eu trafod eto â chi mewn sesiwn graffu arall ddechrau tymor yr hydref. Bydd y clerc yn cysylltu â'ch swyddfa ar wahân ynglŷn â hyn.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Dr Andrew Goodall, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a Dr Frank Atherton.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AS
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
0300 200 6565

**Atodiad**

1. Clinigau cof a phobl hŷn â dementia

Gwnaethom drafod y ffaith nad yw clinigau cof yn cael eu cynnal oherwydd y pandemig, a'r rhestrau aros hir sydd wedi datblygu o ganlyniad i hynny. Ymrwymodd Dr Goodall i ymchwilio i'r mater hwn ac ymateb.

Gwnaethom hefyd drafod y niwed a achoswyd, yn anochel, i'r bobl hŷn sy'n byw gyda dementia o ganlyniad i'r ffaith nad ydynt yn gallu gweld anwyliaid yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud. Cydnabu Dr Goodall y mater hwn a cheisiodd ein sicrhau ynghylch y ffocws ar ddementia ar draws y system. Teimlwn ei bod yn arbennig o bwysig datrys y mater hwn cyn unrhyw gynnydd posibl mewn achosion yn y dyfodol, a byddem yn ddiolchgar pe gallai Dr Goodall roi rhagor o wybodaeth i ni am gynnydd neu ddatblygiadau yn y maes hwn.

2. Gwasanaethau canser

Gwnaethom drafod y cymorth ariannol sydd ar gael i'r gwasanaethau hanfodol a ddarperir gan sefydliadau'r trydydd sector. Yn ei gyflwyniad i'n hymchwiliad, nododd Hospice UK a Hospice Cymru fod Trysorlys EM wedi neilltuo £12 miliwn o gyllid canlyniadol Barnett i gefnogi hosbisau. Gwnaethoch gadarnhau bod tua £ 6 miliwn bellach ar gael i gefnogi'r rhain. A allwch gadarnhau bod y swm sy'n weddill yn dal i fod heb ei ddyrannu ac, os felly, a allwch roi rhyw syniad pryd rydych yn disgwyl gallu ei ddyrannu?

3. Gofal cymdeithasol

Gwnaethom holi'r Dirprwy Weinidog am y penderfyniad i addasu dyletswyddau gofal a chymorth awdurdodau lleol i oedolion fel rhan o'r ymateb i'r argyfwng. Dywedodd wrthym nad yw'r cyfyngiad ar y gwasanaethau wedi bod cymaint ag yr oedd unrhyw un yn ei ofni a bod pethau wedi parhau fel roeddent o'r blaen ar y cyfan. Aeth ymlaen i ddweud eu bod wedi cael trafferth yn dod o hyd i enghreifftiau go iawn o bobl sydd wedi dioddef oherwydd bod pecynnau gofal wedi eu tynnu yn ôl. Fodd bynnag, rydym wedi clywed, drwy ein gwaith casglu tystiolaeth ein hunain, fod y trefniadau hyn wedi cael effaith enfawr ar bobl sydd angen gofal a chymorth gartref.

Gwnaethom ofyn i'r Dirprwy Weinidog pryd roedd yn bwriadu gwrthdroi'r addasiad, a dywedodd wrthym y bydd hyn yn cael ei adolygu, a'i fod yn cael ei adolygu'n barhaus. Byddem yn ddiolchgar nawr pe gallai'r Dirprwy Weinidog roi rhagor o wybodaeth, gan gynnwys amserlen, ynghylch pryd y bydd yn adolygu'n ffurfiol yr angen am yr addasiadau ac yn ceisio eu dileu.

4. Trefniadau gwarchod

Cyhoeddodd y Prif Swyddog Meddygol yn ddiweddar na fydd angen i'r bobl y rhoddir gwybod iddynt ar hyn o bryd y dylent warchod eu hunain wneud hynny ar ôl 16 Awst. A allwch nodi pa gyswllt y gall yr unigolion hyn ei ddisgwyl gan y Prif Swyddog Meddygol ynglŷn â hyn ac, yn benodol, pa wybodaeth a chymorth a ddarperir i'r bobl hynny, a'u teuluoedd, cyn i'r trefniadau hyn ddod i ben, gan gynnwys mewn perthynas â chael blaenoriaeth ar gyfer gwasanaeth siopa bwyd ar-lein a danfon meddyginiaethau.

5. Gofalwyr ifanc

Gwnaethom holi'r Dirprwy Weinidog am effaith yr argyfwng ar ofalwyr ifanc, a'r hyn oedd yn cael ei wneud yn Llywodraeth Cymru i fonitro hyn. Ymhlith pethau eraill, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y bydd Grŵp Cynghori’r Gweinidog ar Ofalwyr yn trafod beth arall y gellir ei wneud yn y maes hwn. Byddem yn croesawu newyddion am unrhyw gynnydd neu benderfyniadau yn hyn o beth.

Cyfeiriodd hefyd at y cyhoeddiad y bydd Gofalwyr Cymru yn cael £50,000 i wella cymorth seicolegol i ofalwyr di-dâl. Er ein bod yn croesawu unrhyw gyllid, swm cymharol fach yw hwn ar gyfer y cymorth y bydd ei angen yn gyffredinol, a hoffem ailbwysleisio’r angen am fwy o ffocws yn y maes hwn.

6. Agenda trawsnewid

Gwnaethom drafod y newidiadau trawsnewidiol y bu modd eu cyflawni yn y gwasanaeth iechyd dros y misoedd diwethaf. Pan glywsom gan Fyrddau Iechyd yn ddiweddar, roeddent yn gadarnhaol iawn am y newidiadau hyn o ran cynrychioli newid tuag at drefniadau llywodraethu a rheoli llai manwl, ynghyd â’r ffaith y bydd staff a sefydliadau rheng flaen yn cael eu grymuso ac yr ymddiriedir ynddynt yn fwy o ganlyniad i'r ymateb i’r argyfwng.

Roedd cytundeb cyffredinol ynghylch yr angen i gadw ac ymgorffori'r nodweddion cadarnhaol hyn yn y tymor hwy, a chydnabod yr angen i wneud gwaith yn y maes hwn i gyflawni hyn, gan wneud newidiadau lle y bo angen. Teimlwn yn gryf y gellid sicrhau manteision sylweddol i wasanaethau a diwylliant sefydliadol gyda'r ffocws cywir, a byddai gennym ddiddordeb mewn clywed am unrhyw gynnydd tuag at hyn a datblygiadau sy'n cyflawni ac yn cydgrynhoi newid yn y meysydd hyn.

7. Iechyd meddwl

Gwnaethom geisio sicrwydd ar ddau bwynt – yn gyntaf, na fydd yr arian sydd wedi'i neilltuo ar gyfer iechyd meddwl yn cael ei ddargyfeirio i wasanaethau eraill sy'n wynebu heriau; ac yn ail, y bydd cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn adlewyrchu'r angen cynyddol am wasanaethau iechyd meddwl.

Gwnaethoch gadarnhau nad yw arian wedi'i dynnu o wasanaethau iechyd meddwl ac nad oeddech yn ceisio lleihau'r swm sy’n cael ei wario ar y gwasanaethau hyn. Gwnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor y bydd angen i chi edrych ar y darlun cyffredinol ac ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael, ac a fydd angen gwariant mwy sylweddol ar gyfer ymyriadau mwy sylweddol yn seiliedig ar lefel uwch o ran anghenion. Gwnaethoch hefyd gadarnhau bod adferiad iechyd meddwl yn ffactor blaenllaw yn eich cynlluniau ehangach ar gyfer yr adferiad.

O ran pennawd 6 uchod, gwnaethom drafod y £7 miliwn sydd wedi dod allan o'r cyllid trawsnewid iechyd meddwl, a gwnaethoch gydnabod bod arian yn cael ei symud ym mhob rhan o'r gwasanaeth i ymdopi â’r sefyllfa bresennol. Gwnaethoch ddweud eich bod yn edrych ar beth mae

hynny'n ei olygu o ran gallu parhau â'r prosiectau trawsnewid hynny, ond nad oeddech yn newid eich safbwynt bod angen trawsnewid.

Mae hwn yn faes hynod bwysig, ac yn rhywbeth y mae'r Pwyllgor wedi adrodd arno o'r blaen. Rydym yn dal i bryderu y bydd effaith yr argyfwng yn golygu y bydd arian a neilltuwyd yn flaenorol ar gyfer gwariant iechyd meddwl yn cael ei symud i feysydd eraill lle y mae galw. O'r herwydd, rydym yn ceisio rhagor o sicrwydd gennych y bydd unrhyw wariant ar iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn ychwanegol at yr arian a neilltuwyd eisoes ar gyfer trawsnewid gwasanaethau.

8. Gorchuddion wyneb

Gwnaethom drafod y cyngor a'r argymhellion ynghylch gorchuddion wyneb. Gwnaethoch gyfeirio at y dystiolaeth a roddwyd gan y Prif Swyddog Meddygol i'r llywodraeth ynghylch gwisgo masgiau wyneb, gan gynnwys eu gwisgo a'u tynnu mewn modd diogel. Nodwn fod y Prif Swyddog Meddygol wedi cyhoeddi diweddariad polisi Gweinidogol ar fasgiau meddygol a gorchuddion wyneb (14 Mehefin), sy'n dweud y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi hawl y cyhoedd i ddewis gwisgo gorchuddion wyneb yn y rhan fwyaf o leoliadau.

Fodd bynnag, mae'r sefyllfa o ran gorchuddion wyneb bellach yn wahanol mewn rhannau gwahanol o'r DU ac, er nad ydym yn awgrymu bod hyn yn broblem mewn egwyddor, rydym yn teimlo y byddai'n fuddiol i'r Prif Swyddog Meddygol drefnu bod mwy o wybodaeth ar goedd am sut y mae wedi pwyso a mesur y dystiolaeth a'r trafodaethau cenedlaethol a rhyngwladol presennol a newydd sy'n sail i'r cyngor a roddodd i Llywodraeth Cymru.

Rydym yn ymwybodol o'r dystiolaeth, ac yn cytuno â hi, fod gorchuddion wyneb yn un o blith nifer o fesurau iechyd cyhoeddus i atal pobl rhag trosglwyddo'r feirws, yn hytrach na rhywbeth sy'n cymryd lle'r mesurau eraill hyn. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi y bydd gwisgo gorchuddion wyneb yn gwneud pobl yn fwy tebygol o ymddwyn mewn modd mwy peryglus.

9. Capasiti labordai

Cawsom drafodaeth eang am gapasiti labordai a'r trefniadau sydd ar waith i ateb y galw am brosesu profion COVID-19. Yn gysylltiedig â hyn, pa ddata sydd gennych am yr effaith y mae'r galw am brofion COVID-19 yn ei chael ar waith labordy arall nad yw'n gysylltiedig â CVOID-19, ac yn benodol, a yw gwaith arall yn cael ei ohirio o ganlyniad i brosesu profion COVID-19?

Eitem 3.4

**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: VG/0283/20

Dr Dai Lloyd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

24 Awst 2020

Annwyl Dai,

Diolch am y cyfle i ddod i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar 16 Gorffennaf ar gyfer y sesiwn dystiolaeth ar ymateb y Llywodraeth i bandemig COVID-19.

Yn dilyn y sesiwn, gofynasoch am ragor o wybodaeth am sawl maes allweddol a oedd yn achosi pryder. Rwyf wedi rhoi sylw i bob un o'r meysydd hyn yn unigol isod.

**1. Clinigau cof a phobl hŷn â Dementia**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector i barhau i ddarparu cymorth i'r rheini sy'n cael gwasanaethau dementia, gan sicrhau bod cyllid ar gael o hyd i alluogi gwasanaethau i addasu i'r sefyllfa bresennol. Mae hyn yn cynnwys rhyddhau'r arian Cyllid Gofal Integredig a ddyrannwyd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gefnogi rhoi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia ar waith. Mae ceisiadau am gyllid ar gyfer prosiectau sy'n rhedeg ar draws ardaloedd daearyddol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cael eu hadfer ac mae'r swyddogion yn ystyried nifer o geisiadau i ddarparu rhagor o gefnogaeth i bobl sy'n byw gyda dementia wrth inni ddechrau ar y cyfnod adfer.

Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw rhai gwasanaethau fel clinigau asesu cof wedi gallu parhau i weithredu fel arfer yn ystod y cyfnod clo, yn rhannol oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Rydym yn parhau i fonitro gwasanaethau cymunedol iechyd meddwl pobl hŷn fel rhan o'r wybodaeth reolaidd a geir gan fyrddau iechyd drwy'r adnodd monitro iechyd meddwl, sy'n cynnwys sicrwydd bod asesiadau dementia brys yn cael eu cynnal. Mae ymatebion i'r adnodd monitro yn rhoi sicrwydd bod y gwasanaethau hyn yn dal yn weithredol. Wrth i'r cyfyngiadau symud leihau, mae'n amlwg y bydd angen i glinigau asesu cof gynyddu eu gweithgarwch, nid yn unig i ddal i fyny â'r lefelau angen arferol ond hefyd i ddiwallu angen ychwanegol sydd wedi'i nodi yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r byrddau iechyd lleol wedi cael mwy o hyblygrwydd yn eu cyllidebau craidd er mwyn mynd i'r afael ag anghenion sy'n deillio o COVID-19, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn glir ein bod yn disgwyl i wasanaethau allu defnyddio rhywfaint o'r hyblygrwydd hwn i sicrhau bod clinigau asesu cof yn gallu diwallu'r lefel uwch o alw. Gofynnir i'r byrddau iechyd yn awr ddarparu diweddariadau chwarterol ar eu fframwaith gweithredol, sy'n cynnwys diweddariadau ar sut bydd gwasanaethau'n gweithredu yng nghyd-destun Covid ac, fel rhan o'r asesiad hwn, byddwn yn edrych yn benodol ar wasanaethau asesu cof. Os canfyddir problemau gyda chapasiti clinigau asesu cof drwy'r broses hon, byddem yn disgwyl y byddid yn mynd i'r afael â hyn drwy ddefnyddio'r hyblygrwydd cyllido presennol sydd wedi'i ddarparu er mwyn ymateb i'r pandemig. Er enghraifft, arian y Gronfa Gofal Integredig, sy'n cefnogi rhoi'r cynllun gweithredu ar gyfer dementia ar waith.

Mae'r swyddogion wedi anfon holiadur at y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia a fydd yn canolbwyntio ar newidiadau i wasanaethau a sut bydd y gwaith o ddychwelyd i lefelau arferol yn cael ei reoli. Bydd hyn yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae'r Byrddau Cynllunio Rhanbarthol yn eu cymryd i sicrhau y bydd gwasanaethau asesu cof yn gallu ateb y galw. Disgwylir ymatebion i'r holiadur hwn ym mis Medi.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr effaith y mae'r cyfyngiadau symud wedi'i chael ar bobl sy'n byw â dementia. Mae'r swyddogion wedi datblygu canllawiau i gefnogi camau gweithredu lleol a helpu i adnabod anghenion adsefydlu pobl y mae'r pandemig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys pobl y mae effaith y cyfyngiadau symud yn effeithio arnynt. Mae Fframwaith Gweithredu'r GIG Chwarter 2 yn tynnu sylw at yr angen i gynllunio a datblygu gwasanaethau adsefydlu.

**2. Gwasanaethau canser (arian heb ei ddyrannu i ddarparwyr trydydd sector)**

Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, nid yw cyllid canlyniadol wedi'i glustnodi ac mae'n cael ei ddyrannu i gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru i'w ddefnyddio yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru sy'n adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau Cymru. Yn yr amgylchiadau presennol, ychwanegir symiau canlyniadol at y gronfa ymladd yr ydym wedi'i sefydlu i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus a'r economi drwy'r argyfwng hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu hyd at £6.3 miliwn ychwanegol i fynd i'r afael â'r golled mewn incwm elusennol y mae hosbisau ledled Cymru wedi'i hwynebu o ganlyniad i'r cyfyngiadau cloi. Mae'r swm yn seiliedig yn bennaf ar ffigurau a ddarparwyd gan Hosbis UK a bydd yn cael ei adolygu'n gyson. Rydym yn parhau i weithio gyda hosbisau ledled Cymru i ddeall eu gofynion cyllido yn y dyfodol. Bydd angen edrych ar benderfyniadau cyllido yn y dyfodol yng nghyd-destun yr £800 miliwn a ddyrannwyd i'r portffolio iechyd yn ddiweddar.

**3. Gofal Cymdeithasol**

Yn ddi-os, mae'r Coronafeirws wedi effeithio ar fynediad pobl at ofal a chymorth.  Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) 2020 wedi arwain at newidiadau yn y ffordd yr ydym wedi gallu byw ein bywydau ac, o ganlyniad, yn argaeledd gwasanaethau gofal cymunedol.  Mae hyn wedi arwain at yr angen i roi'r gorau i rai gweithgareddau; cau adeiladau'n gyfan gwbl neu'n rhannol; gosod cyfyngiadau ar bobl yn dod at ei gilydd dan do ac yn yr awyr agored; cyfyngu ar ryngweithio wyneb yn wyneb agos a chynnal hylendid.

Fel y gwyddoch, mae'r cyfyngiadau hyn wedi bod yn cael eu hadolygu bob 21 diwrnod. Mae pob un o'r mesurau hyn wedi golygu nad yw unigolion a'u teuluoedd wedi gallu manteisio ar ddarpariaeth gymunedol fel gofal dydd, gofal seibiant a seibiannau dros nos, hamdden, addysg a gweithgareddau cysylltiedig nac ymweld â'u hanwyliaid mewn cartrefi gofal.  Er gwaethaf hyn, gwyddom hefyd fod awdurdodau lleol a darparwyr gofal wedi

canfod ffyrdd gwahanol o gynnal gofal a chymorth neu alluogi cyfleoedd eraill, yn enwedig drwy atebion digidol

Mae'r rheoliadau hynny a'u heffaith ar fynediad pobl at ofal a chymorth yn wahanol iawn i'r darpariaethau o dan Ran 1 ac Atodlen 12 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 sy'n ymwneud yn benodol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014. Cadarnhaodd y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd CLlLC, yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor ynghylch defnyddio pwerau Deddf 2020 ar 21 Mai, nad oedd y cynlluniau a seiliwyd ar y sefyllfa waethaf bosibl wedi cael eu rhoi ar waith, er bod y gwaith cynllunio wedi'i wneud.

Mewn tystiolaeth debyg i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 21 Gorffennaf, unwaith eto ar ran CLlLC, cadarnhaodd y Cynghorydd Morgan nad oedd yn ymwybodol o unrhyw awdurdod lleol yr oedd gwir angen iddo ddefnyddio'r pwerau hynny. Rwyf yn ymwybodol y bydd Aelodau'r Senedd yn unigol ac ar y cyd fel aelodau o Bwyllgorau Craffu wedi clywed pryderon gwirioneddol pobl am effaith y pandemig ar eu bywydau nhw a bywydau eu teuluoedd.

Rwyf yn cydnabod y pryderon hynny. Dyna pam yr ydym wedi sicrhau, o'r cychwyn cyntaf, bod yna gyfleoedd clir, hygyrch a rheolaidd i unigolion a sefydliadau godi'r pryderon hynny, yn wythnosol fan bellaf, gyda swyddogion a'r Dirprwy Weinidog, fel rhan o broses barhaus o graffu, adolygu a chydweithredu â phartneriaid ar draws y sector gofal cymdeithasol.

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi cyhoeddi ei adroddiad ar effaith y pandemig ar 10 Awst ac argymhellodd y dylid "diffodd" y mesurau yn Neddf y Coronafeirws 2020 sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl ar unwaith. Hoffwn eich sicrhau fy mod yn cydnabod y pryderon a godwyd ac yn bwriadu ystyried yr argymhellion hyn gyda'i gilydd, ac y byddaf yn ymateb i'r ddau Bwyllgor yr un pryd.

**4. Trefniadau gwarchod**

Cyn i'r cyngor ar warchod gael ei oedi ar 16eg Awst, anfonwyd llythyr arall at bawb ar y Rhestr Cleifion a Warchodir. Roedd y llythyr hwn yn egluro pam fod y cyngor i'r grŵp hwn wedi newid, a beth mae hyn yn ei olygu i'r grŵp o ran sut y gallant gadw eu hunain yn ddiogel wrth symud ymlaen. Roedd hefyd yn tynnu sylw at y posibilrwydd y gallai fod angen inni ofyn i bobl warchod eu hunain eto yn y dyfodol pe bai nifer yr achosion yn cynyddu.

Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer yr oedi o ran gwarchod, rydym wedi cynyddu ein hymgysylltiad ar draws grwpiau rhanddeiliaid, gan gydnabod bod llawer o bobl sydd â chyflwr penodol yn fwy tebygol o fynd at sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r cyflyrau penodol hynny am gyngor. Nid yn unig yr ydym wedi ymgysylltu â'r sefydliadau hyn i ddarparu gwybodaeth, rydym hefyd wedi gofyn iddynt adolygu llythyr y Prif Swyddog Meddygol a'n canllawiau ni cyn eu cyhoeddi. Mae hyn wedi sicrhau bod yr wybodaeth a ddarparwn yn diwallu anghenion y grŵp hwn ac yn rhoi sylw i rai o'r cwestiynau y maent wedi bod yn eu gofyn i'r sefydliadau hyn. Rydym hefyd wedi bod yn cynnal ymgyrch gyfathrebu yn ystod yr wythnos cyn yr oedi i ymateb i gwestiynau gan y cyhoedd mewn cyfres 'Gofyn i Dr Frank'. Mae modd gweld y fideos hyn ar Twitter neu Facebook ac mae ffeithlun a ddarparwyd fel rhan o'r ymgyrch hon hefyd wedi cael ei rannu â fforymau cydnerthedd lleol, Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol i sicrhau bod y neges y mae'n ei chynnwys yn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl.

Gan fod bocsys bwyd wedi dod i ben ar 16eg Awst, cafodd taflenni gwybodaeth eu cynnwys yn y bocsys i sicrhau bod y rhai a oedd yn eu derbyn yn gwybod eu bod yn dod i ben ac yn cael gwybod am opsiynau eraill i gael bwyd, os nad oeddent yn teimlo'n barod i adael y tŷ i siopa eto. Mae hyn yn cynnwys parhau â'r mynediad blaenoriaethol at slotiau siopa ar-lein

i'r rheini sydd ar restr y cleifion a warchodir. Cafodd fideo ar hyn ei bostio ar gyfryngau cymdeithasol ynghyd â dolen at wybodaeth ar wefan am sut i gael gafael ar fwyd.

Bydd y cynllun danfon meddyginiaeth gan wirfoddolwyr yn dal ar gael tan ddiwedd mis Medi. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei chynnwys yn llythyrau'r Prif Swyddog Meddygol a'n canllawiau ar-lein.

**5. Gofalwyr ifanc**

Mae swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio yn parhau i gwrdd yn rheolaidd â phrif weithredwyr y tri sefydliad cenedlaethol i ofalwyr, i drafod yr ystod o faterion sydd wedi bod yn effeithio, ac sy'n parhau i effeithio, ar ofalwyr o bob oed yn ystod y pandemig presennol. Mae mudiadau trydydd sector, fel Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru sy'n arwain ar gynrychioli gofalwyr ifanc yng Nghymru, wedi darparu cefnogaeth amhrisiadwy i ofalwyr ac rydym yn falch o fod yn gweithio'n agos gyda nhw i'n helpu ni i ddeall y problemau yn well, ond hefyd i ganfod atebion.

Mae anghenion gofalwyr ifanc yn rhan allweddol o drafodaethau Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr, a gyfarfu'n fwyaf diweddar ddiwedd mis Gorffennaf. Mae gwybodaeth o bob rhan o'r aelodaeth yn cael ei rhannu â ni, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar ddatblygu'r cynllun cenedlaethol newydd ar gyfer gofalwyr. Rydym yn bwriadu cyhoeddi dogfen ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ddechrau'r hydref.

Mae sicrhau bod gofalwyr ifanc yn gallu cael cymorth a chefnogaeth emosiynol wedi bod yn fater hollbwysig. Gall gofalwyr ifanc fanteisio ar amrywiaeth o ddeunyddiau cefnogi a llinellau cymorth, fel gwasanaeth MEIC, manteisio ar gymorth cwnsela mewn ysgolion, gwasanaethau ieuenctid a'r adnoddau ar-lein sydd ar gael drwy Hwb, fel y Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl i Bobl Ifanc. Mae awdurdodau lleol hefyd wedi parhau i gynnig gwasanaeth i ofalwyr ifanc drwy gydol y cyfyngiadau symud er eu bod ar-lein, dros y ffôn neu ar gyfryngau cymdeithasol, yn hytrach nag wyneb yn wyneb.

Ar hyn o bryd mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda Chymunedau Digidol Cymru i gaffael gliniaduron er mwyn darparu cymorth ychwanegol i'r gofalwyr ifanc hynny, rhwng 16 a 18 oed, sy'n wynebu pwysau ychwanegol sylweddol yn eu rolau gofalu oherwydd COVID-19. Byddwn yn gweithio'n agos gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a phob un o'r 22 awdurdod lleol i sicrhau bod y gliniaduron yn cyrraedd y gofalwyr ifanc hynny sydd fwyaf tebygol o elwa. Bydd pecyn data 12 mis yn dod gyda'r dyfeisiau, gan sicrhau y bydd y cynllun hwn yn helpu'r gofalwyr ifanc hynny sy'n profi tlodi digidol i fynd ar-lein a chael cysylltiad.

Bydd y gofalwyr ifanc sy'n cael gliniadur yn gallu defnyddio'r rhain i gynnal cysylltiad â'u teulu, eu ffrindiau a'u rhwydweithiau cefnogi eraill, sy'n bwysig iawn i'w lles meddyliol. Ar lefel ymarferol, bydd y dyfeisiau'n rhoi cymorth pwysig iddynt yn eu rolau gofalu, yn enwedig lle mai gwefannau, gwasanaethau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol yw'r pwynt cyswllt cyntaf yn aml erbyn hyn er mwyn cael gafael ar gymorth. Bydd y dyfeisiau felly'n cefnogi'r gofalwr ifanc a'r person y mae'n gofalu amdano.

**6. Agenda gweddnewid**

Mae'r GIG wedi symud allan o gyfnod cynllunio ac ymateb hollbwysig COVID-19 ac i gyfnod hwy lle mae'n rhaid i'n system iechyd a gofal barhau i fod yn barod ar gyfer unrhyw gyfnodau prysurach yn y dyfodol. Rhaid hefyd iddo geisio darparu gwasanaethau hanfodol a gofal a thriniaeth arall o ansawdd uchel i bobl Cymru. Mae ein cynlluniau'n dal i ganolbwyntio ar atal:-

- Niwed o COVID-19 ei hun

- Niwed am fod y GIG a'r system gofal cymdeithasol wedi'u gorlethu
- Niwed oherwydd lleihad mewn gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â COVID-19
- Niwed yn sgil camau / cyfyngiadau cymdeithasol ehangach

O ystyried yr heriau a'r ansicrwydd parhaus, yn enwedig wrth inni symud i fisoedd y gaeaf, mae'r cylch cynllunio chwarterol a fabwysiadwyd wedi'i seilio ar ddull gweithredu "rhagofalus", gan weithio ar y cyd mewn ffordd hyblyg ac ystwyth i sicrhau hyder y cyhoedd a'r staff.

Fodd bynnag, mae'r sefyllfa ddigynsail o ran cynllunio a darparu pob agwedd ar wasanaethau iechyd a gofal yn ystod pandemig COVID-19 wedi bod yn gatalydd er profi dulliau arloesol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae hyn wedi rhoi ffocws newydd ar sut rydym yn darparu gwasanaethau diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn yr amgylchiadau eithriadol hyn, ac wedi rhoi cyfle i ddysgu a moderneiddio, gyda'r bwriad o ddiogelu ein gwasanaethau i'r dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol i lunio adroddiad ar ganfyddiadau'r astudiaethau niferus sydd ar waith i ganfod arloesedd a ffyrdd newydd o weithio yn ystod yr ymateb i Covid-19.  Caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod y cyd-destun a'r cyfeiriad a ddarparwyd ddwy flynedd yn ôl gan "Cymru Iachach".  Byddaf yn adrodd ar y cynnydd a wnaethpwyd o ran yr agenda a nodais yn 'Cymru Iachach' cyn toriad hanner tymor yr hydref hwn. Yn ogystal â phwyso a mesur peth o'r cynnydd a wnaed yn erbyn nodau Cymru Iachach yn ystod yr ymateb i Covid-19, byddaf yn pwysleisio'r meysydd yn y strategaeth a fydd yn help i symud i'r cyfnod adfer.

Hoffwn gydnabod yr arweiniad, yr ymgysylltu a'r gefnogaeth glinigol sylweddol sydd wedi bod yn sail i ofal a thriniaeth cleifion er mwyn cyrraedd y safonau uchaf posibl drwy gydol y pandemig.  Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Phrif Weithredwyr GIG Cymru, eu timau gweithredol a'r rhai mewn gofal cymdeithasol wrth i'r agenda hon symud ymlaen.

**7. Iechyd Meddwl**

I gadarnhau, cafodd y gronfa Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl gwerth £7m ei hail-bennu fel rhan o'n hymateb cynnar i bandemig Covid-19. Cafodd gwasanaethau iechyd meddwl eu pennu'n fuan gennym yn 'wasanaethau hanfodol' ac, i gefnogi hyn, rhoesom £3.5m o'r cyllid gwella gwasanaethau iechyd meddwl ar unwaith i'r byrddau iechyd lleol i'w galluogi i ymateb i'r pwysau sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa bresennol ym maes iechyd meddwl. Roedd hyn yn cynnwys mynediad at ddarpariaeth argyfwng / y tu allan i oriau a mwy o fynediad at ymyriadau seicolegol.

Rydym wedi ysgrifennu at y byrddau iechyd yn ddiweddar i ofyn am gynigion ar gyfer y £3.5m o gyllid gwella gwasanaethau sy'n weddill ar gyfer 2020/21, ac yn amodol ar gyfer y £7m o 2021/22 ymlaen. Bydd y cyllid yn cefnogi'r meysydd blaenoriaeth yn ein Cynllun Cyflawni newydd, Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, gan gynnwys CAMHS / cymorth i blant a phobl ifanc a chynyddu mynediad at therapïau seicolegol. Disgwyliwn dderbyn cynigion erbyn 7 Medi.

Ar ben hynny, rydym hefyd wedi darparu £2m, hyd yma, i gaffael capasiti ychwanegol ar gyfer cleifion mewnol iechyd meddwl gan y sector annibynnol a/neu'r trydydd sector yng Nghymru.

**8. Gorchuddion wyneb (sail y polisi a benderfynwyd yng Nghymru)**

Mae diogelu unigolion a lleihau trosglwyddiad y feirws yn dal yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn y cyngor diweddaraf gan Sefydliad Iechyd y Byd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar 9fed Mehefin ei bod yn argymell bod pobl yng Nghymru yn gwisgo gorchudd tair haen mewn sefyllfaoedd lle nad oes modd cadw pellter cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo safbwynt Sefydliad Iechyd y Byd yn gryf mewn amgylchiadau o'r fath.

Mae effaith bosibl canllawiau diwygiedig Sefydliad Iechyd y Byd wedi cael ei modelu, ac mae'n cael ei mireinio eto yn awr i ystyried yr eglurhad yn y Datganiad Ysgrifenedig ar Ddefnyddio Masgiau Meddygol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (13 Mehefin 2020).

Ar 13 Gorffennaf cyhoeddodd y Prif Weinidog newidiadau i'r ddyletswydd i gadw pellter corfforol o 2m. Mae hyn yn cydnabod nad yw bob amser yn bosibl cynnal pellter o 2 fetr ac yn nodi'r mesurau ychwanegol y mae angen i fusnesau eu rhoi ar waith i leihau'r risg o ledaenu'r coronafeirws. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal safonau hylendid a chyfyngu ar ryngweithio wyneb yn wyneb agos, lle bynnag y bo hynny'n rhesymol.

Er mwyn helpu i leihau'r risg o drosglwyddo'r feirws ar drafnidiaeth gyhoeddus, lle nad yw bob amser yn bosibl cynnal pellter ffisegol o 2m, o 27 Gorffennaf ymlaen bydd yn orfodol i bobl wisgo gorchudd tair haen wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys mewn tacsis.
Nid yw gwisgo gorchudd wyneb yn y gymuned yn orfodol ar hyn o bryd, ond rydym yn annog pobl i wneud hynny er eu budd eu hunain ac er budd eraill. Nid ydym yn argymell defnyddio gorchuddion wyneb yn yr awyr agored.

Nid yw gwisgo gorchudd wyneb yn disodli'r angen i gadw pellter cymdeithasol neu olchi eich dwylo'n rheolaidd. Y rhain ynghyd â'r gwasanaeth Profi Olrhain a Diogelu yw'r ffordd orau o atal lledaeniad y feirws.

Mae angen tystiolaeth wyddonol bellach ar fanteision gwisgo gorchudd wyneb i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae canfyddiadau arsylwi'n awgrymu y gallai gorchudd wyneb tair-haen a wneir gartref neu a brynir leihau'r trosglwyddo o un person i'r llall os caiff ei wneud, ei wisgo, ei drin a'i waredu'n briodol.

Dim ond i bobl nad ydynt yn dangos symptomau coronafeirws y mae'r cyngor hwn yn berthnasol. Rhaid i unrhyw un sydd â thymheredd uchel neu beswch parhaus, newydd, neu sy'n colli'i synnwyr arogl neu flas/yn gweld newid yn ei synnwyr arogl neu flas, hunanysu am o leiaf saith diwrnod a chael prawf cyn gynted â phosibl. Oni bai fod eich prawf yn dangos canlyniad negatif, ni chewch fynd allan yn ystod y cyfnod hwn, hyd yn oed gyda gorchudd wyneb.

Yn dilyn trafodaeth yn y Grŵp Cynghori Technegol, cyhoeddwyd datganiad cyngor wedi'i ddiweddaru ar 14eg Awst. Dadleuwyd o blaid ac yn erbyn gwneud gwisgo gorchudd wyneb yn orfodol; awgrymwyd y dylid argymell gwisgo gorchuddion wyneb dan do, ynghyd ag ymddygiadau lliniaru risg eraill fel cadw pellter cymdeithasol. Roedd y datganiad hefyd yn argymell y dylid ei gwneud yn orfodol gwisgo gorchuddion wyneb mewn ardaloedd neu mewn amgylchiadau lle mae tystiolaeth o drosglwyddo parhaus neu gynyddol ar y feirws.

Bydd y Grŵp Cynghori Technegol yn parhau i adolygu tystiolaeth newydd wrth iddi ddod i'r amlwg ac yn diweddaru ei gyngor yn unol â hynny. Ar ben hynny, bydd yr is-grŵp Risg ac Ymddygiad yn parhau i ystyried y dystiolaeth ymddygiadol am orchuddion wyneb ac yn rhoi cyngor priodol i Lywodraeth Cymru ar gyfathrebu ynglŷn â risg.

## 9. Capasiti labordai (profion COVID-19 a’r effaith ar waith nad yw’n gysylltiedig â COVID)

Bydd defnyddio mwy o gapasiti profi’r DU yn creu mwy o hyblygrwydd yn system brofi Cymru a bydd yn ein galluogi i ganolbwyntio ein capasiti profi ein hunain ar y meysydd lle mae’r angen mwyaf - o fynd i’r afael ag achosion lleol yn y dyfodol er mwyn cyfyngu ar y lledaeniad, i brofi mwy o unigolion asymptomatig i’n helpu i ddeall sut mae’r feirws yn lledaenu mewn rhai cymunedau.

Mae maint y capasiti profi sydd ei angen yng Nghymru i gefnogi’r dull hwn o weithredu ar lefel nas gwelwyd o’r blaen. Rydym wedi ehangu ein capasiti profi yn sylweddol ac ers Gorffennaf 13 mae capasiti labordai ar gael ar hyn o bryd i brosesu dros 15,157 o brofion y dydd.

Mae rhwydwaith helaeth o gyfleusterau profi ar gael ledled Cymru, gan gynnwys:

- Canolfannau Profi Torfol – 8 ar draws Cymru yng Nghasnewydd, Glynebwy, Caerdydd, Abercynon, Abertawe, Caerfyrddin, Llandudno a Glannau Dyfrdwy.
- Unedau Profi Cymunedol – 19 ar draws Cymru mewn amrywiaeth o leoliadau.
- Unedau Profi Symudol – 18 uned ar draws Cymru gyda 12 ar draws y Byrddau Iechyd Lleol a 6 ar gyfer ymateb cyflym.
- Pecynnau Profi Cartref – gan gynnwys pyrth y DU er mwyn i aelodau’r cyhoedd a gweithwyr allweddol archebu’r profion hyn, a phorth penodol ar gyfer cartrefi gofal.

Sefydlwyd proses ymateb cyflym i reoli achosion lleol a phrofion ar lefel gymunedol. Bydd profion ar gael yn gyflym gan ddefnyddio safleoedd profi lloeren dros dro, llwybrau gollwng a chasglu, neu ddefnyddio’r Unedau Profi Symudol presennol a weithredir gan y fyddin ac a ddefnyddir drwy’r byrddau iechyd lleol. Mae Undebau Profi Symudol ychwanegol hefyd yn cael eu darparu i reoli achosion a chlystyrau mewn cymunedau. Mae gan Gymru hefyd fynediad at oddeutu 30 o Undebau Profi Symudol Strategol Wrth Gefn, sydd ar wasgar yn rhanbarthol ond sy’n cael eu trefnu a’u gweithredu’n ganolog gan yr Adran Iechyd a Diogelwch. Gellir eu defnyddio i helpu gydag achosion lleol pan ofynnir iddynt ddarparu capasiti ymchwydd.

Byddwn yn parhau i gynyddu’r capasiti hwn dros yr wythnosau a’r misoedd nesaf, gan ein galluogi i brofi mwy o bobl sy’n aros mewn ysbytai a lleoliadau gofal a’r rheini sy’n gweithio yn y sectorau hyn ac mewn gwasanaethau hanfodol eraill.

Bydd nifer y profion y bydd eu hangen arnom yng Nghymru yn dibynnu ar ledaeniad y clefyd, pa mor gyffredin yw’r symptomau a’r dystiolaeth sy’n dod i’r amlwg ynghylch y ffordd orau o ddefnyddio profion i atal haint. Byddwn yn cadw golwg fanwl ar hyn yn barhaus.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn monitro amseroedd cwblhau gwaith labordy nad yw’n gysylltiedig â COVID yn rheolaidd. Ar sail y data diweddaraf, mae’n amlwg nad yw COVID wedi cael effaith sylweddol ar amseroedd cwblhau labordai ac nad oes tystiolaeth i awgrymu bod gwaith arall yn cael ei ohirio. Yn benodol, cafwyd gostyngiad o 20% yn nifer y samplau i’w prosesu nad ydynt yn COVID ym mis Mehefin 20 o’i gymharu â Mehefin 19, ond mae’r niferoedd yn cynyddu wrth i wasanaethau’r GIG ailddechrau. Mae’r tablau isod yn darparu’r data perthnasol i gadarnhau’r canfyddiadau hyn.

Tabl 1 – Amseroedd cwblhau profion microbioleg (%) Mehefin 19 o'i gymharu â Mehefin 20

| Adran labordy | Amseroedd cwblhau profion microbioleg (%) | |
|---|---|---|
| | **Meh-19** | **Meh-20** |
| Bacterioleg | 93.9 | 93.5 |
| Unedau Cyfeirio ac Arbenigol | 98.1 | 98.4 |
| Bwyd, Dŵr a'r Amgylchedd | 96.8 | 98.5 |
| Feiroleg | 94.2 | 91.6 |

***Sylwer:*** *mae'r amseroedd prosesu yn amrywio. Cytunir arnynt ar sail glinigol gyda'r byrddau iechyd ac fe'u cofnodir o fewn cytundebau lefel gwasanaeth.*

Tabl 2 – Cyfanswm y samplau i'w prosesu Mehefin 19 o'i gymharu â Mehefin 20

| Cyfanswm y sbesimenau ym mis Mehefin | | |
|---|---|---|
| **Math o Sbesimen** | **Blwyddyn** | |
| | **2019** | **2020** |
| BC | 6,091 | 5,007 |
| Clwyf Arwynebol | 5,231 | 3,764 |
| Sgrin MRSA | 7,755 | 4,250 |
| PCR Enterig | 5,107 | 3,632 |
| Sbwtwm | 3,890 | 1,980 |
| Llygad/Clust/Clwyf dwfn/Crawn/Gwddf/Ceg | 3,828 | 2,426 |
| Cenhedlol | 7,488 | 5,019 |
| Wrin | 21,034 | 22,830 |
| Mycoleg | 2,828 | 538 |
| **CYFANSWM** | 63,252 | 49,446 |

Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deisebau**
—
Welsh Parliament
**Petitions Committee**

Eitem 3.5

Dai Lloyd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

24 Gorffennaf 2020

---

Annwyl Dai

**Deiseb P-05-966 STOPIWCH yr isafbris am alcohol**

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi cael y ddeiseb uchod, a ystyriwyd gan y Pwyllgor am y tro cyntaf yn ein cyfarfod ar 7 Gorffennaf, ochr yn ochr â sylwadau gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn y cyfarfod hwnnw, cytunodd y Pwyllgor i nodi mai dim ond yn ddiweddar y cyflwynwyd Isafbris Uned am alcohol a bod astudiaethau i'w ganlyniadau a'i effeithiolrwydd yn cael eu cynnal. Cytunwyd hefyd i ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i rannu'r ddeiseb i'w thrafod os byddwch yn gwneud unrhyw waith craffu ar ôl deddfu. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i gau'r ddeiseb.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig, ar gael ar ein gwefan yn:https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=28611.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod, neu ffonio 0300 200 6454.

Yn gywir

Janet

Janet Finch-Saunders AS/MS
Cadeirydd/Chair

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDeisebau@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPetitions@senedd.wales
0300 200 6565

# Eitem 3.6

**Vaughan Gething AS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

27 Gorffennaf 2020

Annwyl Weinidog,

Ysgrifennaf i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllunio Gofal Ymlaen Llaw ac yn benodol am y cynnydd y gwaith i ddatblygu cofnod electronig ar gyfer cynlluniau gofal ymlaen llaw yng Nghymru.

Deallaf fod hyn wedi bod ar agenda Bwrdd Diwedd Oes Cymru ers sawl blwyddyn, ac mai'r ateb a ffafrir gan y Bwrdd yw system o'r enw "Co-ordinate My Care", sy'n cael ei rhedeg gan Ysbyty Brenhinol Marsden ac sy'n cael ei defnyddio ledled Llundain. Rwy'n credu ei bod hefyd yn gallu delio â phenderfyniadau Adfywio Cardio-pwlmonaidd (CPR)/Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol (DNACPR) yn ogystal â chynlluniau gofal ymlaen llaw.

Mae sefyllfa bresennol COVID-19 wedi amlygu'r angen i flaenoriaethu'r mater hwn. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod cynnydd wedi dod i stop. Gan hynny, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymchwilio i beth sy'n atal y prosiect pwysig hwn rhag symud ymlaen a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AS
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/05261/20

Dai Lloyd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

27 Awst 2020

Annwyl Dai,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Gorffennaf yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am gynllunio gofal ymlaen llaw (ACP) ac yn benodol am gynnydd y gwaith i ddatblygu cofnod electronig ar gyfer cleifion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau y gall pobl dreulio diwedd eu hoes yn eu dewis leoliadau – boed hynny yn eu cartref eu hunain, mewn ysbyty neu mewn hosbis. Mae cynnydd da wedi'i wneud ar ACP mewn sawl maes, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Sefydlu Grŵp Strategol Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw ar gyfer y Dyfodol (AFCP) i ddarparu arweinyddiaeth glir a chyfeiriad strategol ar gyfer pob agwedd ar ACP ledled Cymru;
- Cyflwyno un ffurflen na cheisier dadebru cardio-anadlol (DNACPR) ar gyfer Cymru gyfan;
- Sefydlu rhaglen hyfforddi trafod salwch difrifol;
- Cefnogi gwefan sy'n crynhoi prosiectau AFCP ledled Cymru, er mwyn tynnu sylw at arferion da ac annog cydweithio a llai o ailadrodd (http://www.wales.nhs.uk/researchandresources/publications/nhswalesadvancefuturecareplans);
- Cefnogi hwyluswyr cynllunio gofal ymlaen llaw ym myrddau iechyd Cymru;
- Datblygu Cynllun Gofal Pediatrig Ymlaen Llaw ar gyfer Cymru Gyfan;
- Cefnogi gwefan Talk CPR (adfywio cardio-pwlmonaidd) (http://TalkCPR.wales) i annog sgwrs ynglŷn â CPR i bobl y mae salwch sy'n byrhau oes a salwch lliniarol yn effeithio arnynt;

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Cefnogi'r defnydd o Gynllun Uwchgyfeirio Triniaeth COVID-19 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ledled Cymru ar gyfer defnydd unigol (h.y. cyfnod triniaeth penodol mewn ysbyty er enghraifft);
- Cyhoeddi datganiad ynglŷn â statws presennol y cleifion hynny yn ystod COVID-19 sydd heb benderfyniad DNACPR a/neu AFCP a'r prosesau penderfynu mewn sefyllfaoedd acíwt http://www.wales.nhs.uk/researchandresources/publications/sharingandinvolvingaclinicalpolicyfordonotattemptcardiopulmonaryresuscitationdnacprforadultsinwales;
- Trefnu cynhadledd AFCP genedlaethol lle daeth rhanddeiliaid o Gymru gyfan ynghyd i osod cyfeiriad strategol ar gyfer AFCP.

Roedd yr adborth o'r gynhadledd AFCP yn cynnwys galw am gysylltiad da rhwng y gwahanol systemau electronig, gan gynnwys gofal sylfaenol a gofal eilaidd, fel y bydd Cynlluniau Gofal Ymlaen Llaw ac ar gyfer y Dyfodol ar gael yn eang ac fel y byddant yn weladwy. Mae angen i system sy'n golygu bod dymuniadau cleifion ar gael i weithwyr proffesiynol fod yn rhan allweddol o unrhyw gofnod iechyd a gofal electronig.

Wedyn, lluniodd y grŵp AFCP fanyleb ar gyfer cofnod electronig a chael cyflwyniadau gan dri darparwr 'oddi ar y silff' a gafodd eu dewis yn benodol ar ôl trafodaeth ag Ymddiriedolaethau GIG Lloegr a chynrychiolwyr GIG Digidol. Er mai'r farn oedd mai cynnyrch Coordinate my Care oedd yn cydweddu orau â'r fanyleb ar gyfer cofnod electronig, cydnabuwyd y byddai angen caffael unrhyw system mewn modd tryloyw ac agored.

Atgyfeiriwyd hyn at y Bwrdd Gofal Diwedd Oes ym mis Rhagfyr a'r bwriad oedd trafod y mater yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth. Yn anffodus, oherwydd COVID-19, canslwyd y cyfarfod hwnnw ac ni thrafodwyd y mater tan y cyfarfod ym mis Mehefin.

Roedd y Bwrdd yn ddiolchgar i'r grŵp AFCP am y gwaith sylweddol sydd wedi'i wneud i gyrraedd y pwynt hwn, serch hynny, roedd pryderon o hyd y dylai unrhyw ddatrysiad fod wedi'i integreiddio'n llawn â'r gwaith sy'n cael ei wneud yn ganolog gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i ddatblygu adnodd data cenedlaethol (NDR). Bydd yr NDR yn cynnig dull mwy cydgysylltiedig ar gyfer data iechyd a gofal, gan ddefnyddio iaith gyffredin a safonau technegol. Bydd yn gwella'r ffordd o gasglu, rhannu a defnyddio data ar draws sefydliadau iechyd a gofal yng Nghymru ac yn ysgogi systemau iechyd a gofal i fod yn rhyngweithredol.

O ystyried y gorgyffwrdd posibl rhwng yr hyn y bydd yr NDR a system fel Co-ordinate my Care yn ei ddarparu, mae cadeirydd y Bwrdd Gofal Diwedd Oes wedi gofyn am achos busnes bras er mwyn dangos gwerth am arian caffael system o'r fath. Bydd gwaith ar yr achos busnes yn dechrau cyn bo hir.

Hoffwn eich sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymrwymo i wella AFCP yng Nghymru ac y bydd yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd Gofal Diwedd Oes ar y mater hwn.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

ROYAL COLLEGE OF SPEECH & LANGUAGE THERAPISTS
COLEG BRENHINOL THERAPYDDION IAITH A LLEFERYDD

Dr Dai Lloyd AM
Chair, Health, Social Care and Sport Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff,
CF99 1NA

28 July 2020

Dear Dr. Lloyd MS,

**Re: Health, Social Care and Sport Committee inquiry into the impact of COVID-19 on health and social care in Wales**

Thank you for meeting with ourselves, the Chartered Society of Physiotherapy and the Royal College of Occupational Therapists last month. We were very pleased to hear that rehabilitation will be a key strand under consideration as part of the committee's wide ranging inquiry into the impact of COVID-19. Following our meeting and your specific questions around rehabilitation demand both for COVID patients and other key groups, we have compiled some additional information below. This is supplementary to the broader evidence we provided to the committee last month. We hope this will be helpful in informing the committee's deliberations and would be happy to discuss further or provide more information if required.

**COVID 19 and rehabilitation needs**

Early modelling from Welsh Government suggests that 11% of those who have had COVID-19 may need rehabilitation at home, 6% may need rehabilitation in a bedded facility, such as a care home or community hospital and 1% may need inpatient rehabilitation[1].

[1] Welsh Government (2020). Rehabilitation needs of people affected by the impact of COVID-19. Available here https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-06/rehabilitation-needs-of-people-affected-by-the-impact-of-covid-19_1.pdf Accessed 16.7.20

While the communication, swallowing and respiratory rehabilitation needs of people recovering from COVID-19 are emerging, early data suggests that for some there will be a prolonged impact on their quality of life.  In particular, people affected more severely by the COVID-19 virus and those who required intensive care treatment may suffer from a whole range of associated problems lasting for months and even years.  The consequences of life saving interventions such as sedatives, mechanical ventilation, oxygen therapies and tracheostomy may lead to a myriad of problems:

- voice disorders;
- swallowing muscle weakness with a need for restricted diets or artificial feeding via a tube;
- chronic respiratory compromise impacting on the coordination of swallowing and breathing which carries an increased risk of chest infection and further lung complications;
- cognitive communication disorders potentially limiting return to work and daily life;
- psychological trauma and post traumatic stress disorder; and
- chronic upper airway narrowing or stenosis requiring complex multidisciplinary team management

- neurologic symptoms manifest in a notable proportion of patients with COVID-19. Emerging clinical data suggest approximately 25-30% of COVID-19 survivors are presenting with new neurological impairments.[2]

People may face any of the above issues to differing degrees.

Speech and language therapists will have an important role to play in supporting post-COVID patients.  The rehabilitation of their communication and/or swallowing disorders needs will require careful planning and speech and language therapy input into the multidisciplinary approach will be essential.  Speech and language therapy delivered in the community will be vital in order to prevent any negative health consequences and to optimise long-term outcomes.

While it is currently difficult to estimate demand in detail, speech and language therapy services across the UK are currently collecting clinical data with the support of the RCSLT dataset, to inform further modelling and understanding of rehabilitation needs.  This data will link into a larger professional dataset under development by the Intensive Care Society (ICS).

SLT Services in Wales report increased referrals across all acute services with the impact of COVID-19 exacerbating pre- existing conditions and more acuity seen on wards due to rapid discharge from intensive care units to free bed capacity.  Swallowing difficulties appear particularly prevalent with one service estimating that up to 91% of post intensive care patients require support in this area.  Services also report increased occurrence of associated mental health difficulties due to COVID-19 with patients presenting with increased anxiety and depression.

**Rehabilitation for non-COVID patients**

---

[2] Royal College of Speech and Language Therapists (2020).  COVID-19 Speech and Language Therapy Pathway https://www.rcslt.org/-/media/docs/Covid/RCSLT-COVID-19-SLT-rehab-pathway_15-July-2020_FINAL.pdf?la=en&hash=29A7914A98103BDDF61ECAA072A70C80FBF50551

While ensuring the rehabilitation and recovery of COVID-19 patients, it is also essential that people who do not have COVID-19 related issues, but acquire communication and/or swallowing needs receive the specialist professional support they require.  As a profession, we are aware of the high level of unmet need for speech and language therapy services.  This need is being driven by a range of factors including an ageing population; the increasing incidence of chronic disease; earlier identification of conditions across all age groups; and improved survival of infants who are premature, chronically ill or have a disability and of adults who experience a stroke, progressive neurological disorders, head injury, or life-threatening illness, such as cancer.

The statistics below present a snapshot of likely swallowing and communication needs of patients from key client groups within the community.

***Needs***

- At least **40% of stroke survivors will initially experience some difficulty swallowing**. If left untreated, swallowing difficulties can result in pneumonia, increased hospital admission and lengthier stays in hospital.[3]
- Around a third of people will have some level of communication difficulties (called aphasia or dysphasia) following a stroke.[4]
- Changes to swallowing affect eating and drinking for up to **80% of people with Parkinson's** and become a major issue as the condition progresses.[5]
- Speech problems (dysarthria) occur in **more than 80% of people** living with **Motor neurone disease.**[6]
- Research has found that dysphagia (swallowing difficulties) affects **50-60%** of head and neck cancer survivors.[7]

***Pre-COVID rehabilitation provision in Wales***

Our members tell us that despite the impact of high quality rehabilitation on quality of life and long-term NHS and social care costs, community rehabilitation is often piecemeal and varies significantly depending where you live in Wales.  Data from one health board suggests that only 53% of stroke patients are seen within recommended timeframes and only 25% of progressive neurological disorder patients are previously know to SLT, suggesting that patients are only being referred to SLT for crisis management and there are missed opportunities to engage in advanced care planning and active treatment.

---

[3] Stroke Association (2012). Speech and Language Therapy after Stroke. Stroke Association: London.
[4] Ibid.
[5] Miller N, Allcock L, Jones D, et al. Prevalence and pattern of perceived intelligibility changes in Parkinson's disease. J Neurol Neurosurg Psychiatry 2007;78:1188–90
[6] Tomik, B. and R.J. Guiloff, Dysarthria in amyotrophic lateral sclerosis: A review. Amyotrophic Lateral Sclerosis, 2010. 11(1-2): p. 4-15.
[7] Wilson, J.A., Carding, P. N., & Patterson, J. M. (2011). Dysphagia after Nonsurgical Head and Neck Cancer Treatment: Patients' Perspectives. Otolaryngol Head Neck Surg, 145(5), 767-771

Members have commented that often, community care packages (including their availability) do not provide the communication support needed (in terms of numbers of hours needed for intervention, education and support by speech and language therapists) as the capacity for independent living dwindles. These packages frequently do not recognise the need for older people to have adequate communication abilities and the need for adequate nutrition if swallowing is compromised. This also increases the demand on family members who also need support and education as how to best assist the older person to maintain the best functional ability at home. This situation is exacerbated by the impact of shielding and social isolation as a result of the pandemic.

These concerns about the provision of community rehabilitation provision are echoed in two recent reports by Senedd cross party groups. A 2020 report from the Stroke Association, based on evidence collated as part of the Stroke Cross Party Group inquiry, revealed that 21% of stroke survivors in Wales reported that they did not receive enough support after a stroke[8] with only a minority of stroke survivors receiving therapies at guideline levels[9]. The report recommends that 'Health boards must take immediate steps to improve their therapy provision and bring delivery of therapies closer to RCP guidelines.'[10]

The Wales Neurological Alliance has also recently undertaken an inquiry into the impact of the Welsh Government's neurological delivery plan. The report recognises that there has been investment in neurological rehabilitation but highlighted that there remain low levels of availability of community services stating;

'Many poor experiences were described by contributors, in particular in relation to a lack of availability of community based services such as physiotherapy, speech and language therapy, occupational therapy, continence advice and support, services that help people to be physically active, mental health services and emotional support. '[11]

The reports and feedback from our members suggest that sustained focus and continued investment is required to improve community rehabilitation services.

**Next steps**

Without doubt, the impact of COVID-19 and the resultant clinical presentations will present significant challenges for already stretched community teams. The pandemic has enabled the transformation of SLT services to incorporate telehealth and telephone options. Moving forward, telephone screening, telehealth, accessible digital therapy resources and digital platforms should all be considered.

---

[8] Stroke Association (2018), Lived Experience of Stroke - Chapter 4 Rebuilding lives after stroke, 2018. Available: https://www.stroke.org.uk/sites/default/files/leos_one_pager_wales_chapter_4.pdf

[10] Stroke Cross Party Group (2020). The Future of Stroke Care in Wales: report of the inquiry into the implementation of the Welsh Government's Stroke Delivery Plan.

[11] Cross Party Group on Neurological Conditions (2020). *Building the foundations for change: The impact of the Welsh Government's Neurological Delivery Plan*

It is vitally important, however, that sufficient resources are provided to ensure that these services are able to respond in as timely and appropriate way as possible. This may also include the need for additional speech and language therapy resource and training for colleagues to provide the support COVID-19 patients with long-term rehabilitation and recovery needs require. If these potential extra resources are not made available and rehabilitation not prioritised, there may be negative consequences for the physical and mental health of people with communication and/or swallowing needs and their families which in turn may result in greater costs to the public purse. We have included a number of good practice examples at **Annex A** highlighting how services are being redesigned to better meet patient need.

We hope this paper will be helpful in supporting the committee discussions around the importance of rehabilitation. We would be happy to provide further information if this would be helpful.

Yours sincerely,

**Dr. Caroline Walters**

**Policy Adviser, Wales**

**caroline.walters@rcslt.org**

**ANNEX A**

**Good practice examples**

*SLTs at front of door in A and E*

In Swansea Bay University Health Board, an SLT has been funded to work alongside other allied health professional colleagues in reducing unnecessary admissions for swallowing difficulties therefore reducing, unnecessary NG tubes, risk of pneumonia, malnutrition, dehydration and improving patients' wellbeing. The service is relatively new but a trial; of similar 7 day service in another Welsh local health board indicated projected annual cost-savings of **£998,748.**

*Communication partner training*

Based on evidence on the effectiveness of communication partner training and current barriers to accessing face to face intervention due to COVID 19, ABUHB is currently implementing and enhancing group communication coaching groups to focus on communication partner training virtually. Initial outcomes suggest skilled communication partners can facilitate and support the communication activities and participation of people with aphasia and improvement in carer wellbeing scores on the Therapy Outcome Measure scale. Making best use of resource, ABUHB is engaging and co-producing maintenance programmes with the Stroke Association..

*Voice therapy*

With the global outbreak of COVID-19, video conferencing applications have seen an approximate five fold increase in usage. Services are predicting to see high demand for voice therapy from the working aged population due to consistent use of video conferencing which contributes to a persistent increase in vocal volume. A number of services are working closely with ENT colleagues and revisiting traditional pathways. Work undertaken includes changes to triage systems with ENT prioritisation based on referral information only and those suitable for vocal hygiene groups being seen by SLT without ENT review. This has a two fold effect in reducing the ENT waiting list and speeding up access to SLT for intervention. SLT can then monitor responsiveness to interventions and if clients are not responding as they clinically should, SLT can review with ENT colleagues to prioritise those that require endoscopy for visual assessment.

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dr Dai Lloyd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddIechyd@senedd.cymru

30 Gorffennaf 2020

Annwyl Dai,

Diolch am eich llythyr at Brif Weinidog Cymru, dyddiedig 3 Gorffennaf, ynghylch ymchwiliad y pwyllgor i effaith pandemig Covid-19, a'r effaith yn benodol ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y portffolio hwn, gofynnwyd i mi ymateb.

Mae ymateb i'r pandemig wedi golygu bod rhaid i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru newid eu ffordd o weithio yn sylweddol. Mae'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi wynebu'r heriau ac ymateb iddynt dro ar ôl tro.

Rydych yn gofyn yn benodol ynghylch darpariaeth gofal dros yr haf i blant oedran ysgol gweithwyr hanfodol.

Yn ystod cyfnod yr ymateb cychwynnol i'r feirws, roeddem wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau y gallai gweithwyr hanfodol gael gafael ar ofal plant. Fel y nodwch, ar gyfer plant oedran ysgol gweithwyr hanfodol a phlant bregus, mewn ysgolion y darparwyd hyn i raddau helaeth, ac roedd yn cael ei redeg gan aelodau o'r gweithlu addysg. Ynghyd â hyn, roeddem wedi rhoi Cynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws ar waith i blant cyn oedran ysgol.

Roedd y mesurau hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y gallai gweithwyr hanfodol fynd i'r gwaith, ac er mwyn cadw nifer y plant a oedd mewn lleoliadau yn isel ar yr adeg benodol honno; ni allem gyfeirio rhieni i ofal plant cofrestredig gan nad oedd lle ar gael yn y lleoliadau i ddarparu ar gyfer niferoedd y plant yn ddiogel ac yn unol â'r gofynion ymbellhau cymdeithasol.

Wrth i'n dealltwriaeth o'r feirws ddatblygu, ac yn enwedig ein dealltwriaeth o'r effeithiau ar blant, rydym wedi gallu gwneud newidiadau i'r rheoliadau a'r canllawiau sydd wedi galluogi pob disgybl i ailgydio a dal i fyny yn yr ysgol cyn y gwyliau haf, a lleoliadau gofal plant i ehangu eu gwasanaethau yn ddiogel.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ers 22 Mehefin, mae darparwyr gofal plant ledled Cymru wedi gallu ehangu eu gweithgarwch, gan agor gwasanaethau i fwy o blant.  Mae dros 3,500 o leoliadau gofal plant ledled Cymru sydd â'r gallu i ddarparu bron i 79,000 o leoedd gofal plant. Caeodd nifer o'r lleoliadau hyn ar ddechrau’r pandemig, ond mae'r mwyafrif bellach yn agored ac yn derbyn plant.

Yn ystod yr haf, gwelir y cynlluniau chwarae a gweithgarwch penodol, sy'n rhoi hwb pellach i’r capasiti. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi galluogi teuluoedd i ddod at ei gilydd i ffurfio aelwydydd estynedig, gan ei gwneud yn bosibl trefnu mwy o ofal plant anffurfiol.

Er bod y sector gofal plant yn cynyddu ei weithgarwch, mae'r adferiad wedi bod yn amrywiol ac mae yna wahaniaethau o ran capasiti ac argaeledd. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol a'r sector gofal plant i sicrhau bod y gwasanaethau hynny sy'n gallu gweithredu yn gwneud hynny, ac yn ddiweddar diwygiwyd ein rheoliadau i alluogi lleoliadau gofal plant i weithredu o ganolfannau cymunedol ac addoldai.

Rydym wedi cyhoeddi bod £2.6m ar gael i ddarparu gofal plant a chyfleoedd chwarae i'n plant mwy bregus dros yr haf. Mae nifer o awdurdodau lleol wedi gallu cyfuno'r ddarpariaeth honno â chynlluniau ehangach yn ystod yr haf sy'n cefnogi gweithwyr hanfodol, ac rydym yn edrych ar beth arall y gallwn ei wneud i gefnogi'r gwaith hwn.

Mae ein gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol wedi chwarae rhan sylweddol yn yr ymateb i’r feirws hyd yn hyn, ac rydym yn ddiolchgar iddynt am bopeth y maent wedi ei wneud ac yn parhau i’w wneud. Rwy’n edrych ymlaen at gael gweld canfyddiadau’r pwyllgor.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Brif Weinidog Cymru a chadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir,



**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

Eitem 3.10

—

Welsh Parliament
**Health, Social Care and Sport Committee**

**Vaughan Gething AS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

31 Gorffennaf 2020

Annwyl Weinidog,

Fel y gwyddoch, gwnaeth adroddiad diweddar y Pwyllgor ynghylch effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru dynnu sylw at bwysigrwydd amseroedd prosesu cyflym ar gyfer canlyniadau profion, ac argymellwyd y dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrhau bod canlyniadau pob prawf yn cael eu dychwelyd o fewn 24 awr. Felly, rydym yn bryderus iawn ynglŷn â'r data diweddaraf ar amseroedd prosesu ar gyfer canlyniadau, yn enwedig o ran Unedau Profi Coronafeirws, lle y rhoddir blaenoriaeth i brofion ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal ond lle nad yw'r amseroedd prosesu lawer yn well na'r rhai ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol.

Er bod y ffigurau diweddaraf gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos gwelliant bach yn y newid canrannol ar gyfer prosesu o fewn 1 diwrnod (36.6 y cant o'i gymharu â 32 y cant yn yr wythnos flaenorol) ar gyfer Unedau Profi Coronafeirws, mae hyn mewn gwirionedd yn ostyngiad sylweddol o’i gymharu â’r ffigyrau ar gyfer yr wythnos sy’n dechrau ar 22 Mehefin, pan gafodd 46.4 y cant o brofion eu dychwelyd o fewn 1 diwrnod, a chynhaliwyd llawer mwy o brofion (10,878 o’u cymharu â 7,958). Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â phrofion a gynhaliwyd mewn ysbytai, lle mae’r amseroedd ar gyfer prosesu wedi parhau i wella ac ar hyn o bryd maent yn cael eu cofnodi ar gyfradd o 87.9 y cant a’u dychwelwyd o fewn 1 diwrnod.

Mae'r ffigurau ar gyfer canolfannau profi rhanbarthol yn peri mwy o bryder, gydag amseroedd prosesu sy’n gwaethygu yn hytrach na gwella, a dim ond 26.8 y cant yn cael eu dychwelyd o fewn 1 diwrnod, o’u cymharu â 40.9 y cant yr wythnos flaenorol (ac unwaith eto, cynhaliwyd llai o brofion – 5,252 o’u cymharu â 6,451).

Cydnabyddir yn helaeth bod sicrhau amseroedd prosesu cyflym yn allweddol ar gyfer olrhain cysylltiadau yn effeithiol, ac yn wir, mae Cell Cynghori Technegol Llywodraeth Cymru ei hun yn dweud bod y cynlluniau olrhain mwyaf llwyddiannus yn golygu sicrhau

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
0300 200 6565

canlyniadau profion o fewn 24 awr. Bydd hyn yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i ni agosáu at fisoedd y gaeaf, gyda'r pwysau ychwanegol a ddaw yn sgil hyn.

Oherwydd hyn, byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael ymateb ar frys gennych mewn perthynas â'r canlynol:

- pa waith a wnaed i ymchwilio i achosion yr oedi mewn amseroedd prosesu, a beth yw canfyddiadau'r gwaith hwn?
- yn gysylltiedig â hyn, a oes problemau mewn rhanbarthau penodol, ac os felly pa ardaloedd neu ranbarthau yr effeithir arnynt yn benodol a beth yw achosion y problemau?
- a allwch chi ddarparu gwybodaeth am y mesurau sydd wedi'u rhoi ar waith i ymdrin â'r oedi?
- pa amserlenni neu gerrig milltir ar gyfer gwella rydych chi'n gweithio tuag atynt?
- os nad yw'r cerrig milltir hyn yn cael eu cyflawni, pa gamau eraill y byddwch yn eu cymryd?

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AS
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/00289/20

Dr Dai Lloyd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

28 Awst 2020

Annwyl Dr Lloyd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Gorffennaf.

Fel y nodais yn fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar yr *'Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru'*, rydym yn gwybod bod amseroedd dychwelyd canlyniadau profion yn hanfodol i allu olrhain cysylltiadau yn effeithiol er mwyn rheoli lledaeniad y feirws.

Rydym yn gweithio ar gyflymder gyda Byrddau Iechyd Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar nifer o welliannau ac fe fyddwch yn ymwybodol fy mod wedi neilltuo £32 miliwn o gyllid ychwanegol i wella prosesau labordai i gynyddu effeithlonrwydd a chyflymder. Mae'r buddsoddiad hwn yn darparu ar gyfer staff ac offer ychwanegol ar gyfer labordai rhanbarthol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd, Ysbyty Singleton, Abertawe ac Ysbyty Glan Clwyd, y Rhyl, fel y gallant weithredu 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Mae hefyd yn ein galluogi i greu chwe Labordy Gwib mewn ysbytai acíwt ledled Cymru, a fydd ag offer profi cyflym iawn, lai na phedair awr, ac offer profi newydd ar gyfer cyflyrau eraill er mwyn rhyddhau staff i weithio ar brofion COVID-19.

Rwy'n disgwyl y bydd y tri labordy rhanbarthol yn gallu gweithredu 24 awr y dydd o fis Hydref ymlaen. Bydd y chwe Labordy Gwib newydd yn weithredol ym mis Tachwedd. Mae gwaith eisoes wedi dechrau i weithredu'r newidiadau hyn ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi lansio ymgyrch recriwtio ar gyfer hyd at 160 o staff i'r swyddi newydd.

Mae rhai llwybrau profi nad ydynt wedi'u sefydlu i ddychwelyd canlyniadau o fewn 24 awr. Ni all profion cartref, er enghraifft, weithredu o fewn yr amserlen hon. Yn yr un modd, mae gan gartrefi gofal rywfaint o hyblygrwydd o ran sut y caiff y profion eu gweinyddu i

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

adlewyrchu patrymau sifftiau ac oriau gweithio staff. Byddwn bob amser yn ceisio cyflawni'r amser cyflymaf posibl yn unol ag amcanion a dibenion y profion sy'n cael eu cynnal.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol esbonio bod amseroldeb canlyniadau wedi'u hawdurdodi yn cael ei gyflwyno yng nghrynodeb wythnosol Llywodraeth Cymru o ddata profi yn y tabl lleoliad profion. Fe'i dangosir fel y gyfran o'r profion a gafodd ganlyniad wedi'i awdurdodi o fewn 1 diwrnod calendr, 2 ddiwrnod calendr a 3 diwrnod calendr ar ôl casglu'r sampl gan y claf. Cyflwynir canlyniadau mewn diwrnodau calendr gan fod gan lawer o brofion a brosesir yn labordai GIG Cymru wybodaeth goll am yr amser y casglwyd y sbesimen. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella dibynadwyedd o ran casglu'r wybodaeth hon.

Caiff data ar yr amser a gymerir i dderbyn canlyniad prawf COVID-19 ei rannu yn ôl llwybr profi, gan y bydd hyn yn effeithio ar yr amser a gymerir i brosesu'r prawf. Dyma'r llwybrau profi hyn:

**Profion a brosesir yn labordai GIG Cymru**

- Ysbyty
- Torfol a chymunedol: wyneb yn wyneb
- Sgrinio gweithwyr allweddol a phreswylwyr asymptomatig mewn labordy ategol
- Arall

**Profion a brosesir mewn labordai heblaw am rai GIG Cymru**

- Porth y sefydliad
- Profion cymunedol: wyneb yn wyneb
- Profion cartref

Gall profion sgrinio gweithwyr allweddol gymryd mwy o amser i'w cwblhau gan fod yr unigolion hyn yn asymptomatig ar y cyfan a cheir proses ddanfon estynedig o gymharu â samplau a gesglir mewn canolfannau profi. Er enghraifft, efallai y bydd cartrefi gofal yn cwblhau sypiau o brofion ar draws gwahanol sifftiau staff cyn dychwelyd y profion drwy gludwr i'r labordy i'w prosesu.

Bydd gan brofion ar unigolion symptomatig mewn canolfannau profi, neu unigolion sy'n cael eu profi fel rhan o brofion ar gyfer pobl asymptomatig cyn llawdriniaeth, cyn geni babi ac yn gysylltiedig ag oncoleg (hy angen clinigol), lwybr profi gwahanol a adlewyrchir gan yr angen clinigol i gael eu profi. Gall y dulliau a'r llwybrau amrywiol hyn gael effaith ar amser dychwelyd canlyniad y prawf.

Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos, yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 23 Awst, fod 86% o'r profion a oedd angen amser dychwelyd cyflym wedi'u cwblhau o fewn un diwrnod calendr. Dyma lwybrau profi'r profion hyn:

- Profion ysbytai a brosesir drwy labordai GIG Cymru
- Profion torfol a chymunedol: wyneb yn wyneb drwy labordai GIG Cymru
- Profion cymunedol drwy labordai heblaw am rai GIG Cymru

I ateb eich cwestiynau penodol:

***Pa waith a wnaed i ymchwilio i achosion yr oedi mewn amseroedd prosesu, a beth yw canfyddiadau'r gwaith hwn?***

Ers mis Mehefin mae tîm gweithredol Profi, Olrhain, Diogelu GIG wedi bod ar waith i oruchwylio perfformiad gweithredol y system. Un o brif swyddogaethau'r tîm yw adolygu a chytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer amseroedd dychwelyd.

Cynhaliwyd adolygiad dwfn cychwynnol o'r broses o'i dechrau hyd ei diwedd a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Adolygiad o fynediad at brofion
- Y broses samplu gan gynnwys cysondeb y broses
- Amseroedd a llwybrau cludo o ganolfannau samplu i labordai
- Cylchoedd gwaith proses labordai
- Dadansoddiad manwl o holl stampiau amser y broses o'i dechrau hyd ei diwedd er mwyn adolygu oedi yn y gwahanol gamau

Amlygodd y canfyddiadau gyfleoedd ar gyfer gwelliannau ym mhob rhan o'r broses o'i dechrau hyd ei diwedd gyda chamau gweithredu ar lefelau gweithredol a strategol.

***Yn gysylltiedig â hyn, a oes problemau mewn rhanbarthau penodol, ac os felly pa ardaloedd neu ranbarthau yr effeithir arnynt yn benodol a beth yw achosion y problemau?***

Mae meysydd i'w gwella ym mhob rhanbarth ac mae rhai rhannau o'r cynllun gwella yn mynd i'r afael â phob ardal ond mae'r gwelliannau cludo wedi delio â rhai o'r materion a oedd yn effeithio ar ardaloedd mwy gwledig.

***A allwch chi ddarparu gwybodaeth am y mesurau sydd wedi'u rhoi ar waith i ymdrin â'r oedi?***

Mae’r mesurau sydd wedi'u rhoi ar waith i leihau amseroedd dychwelyd yn cynnwys:

- Proses weithredol gyson ar gyfer archebu profion i sicrhau stamp amser cywir ar gyfer dechrau’r broses
- Prosesau gweithredol mewn safleoedd samplu i gadw at yr arferion gorau. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â chymryd profion, labelu samplau a pharatoi ar gyfer eu cludo
- Lleihau teithiau cludo hir
- Prosesau labordai o’r adeg pan fo samplau yn cyrraedd, llwyfannau profi (peiriannau) ac oriau gweithredu
- Data gofynnol cyson ar gyfer pob cam gan gynnwys profion sy'n digwydd mewn labordai goleudy
- Eglurhad gan glinigwyr ynghylch amseroldeb profion, gan gynnwys y profion hynny sydd angen llwybr optimwm o 1 diwrnod
- Cyflwyno data i adlewyrchu diben profi

Cynhelir cyfarfodydd wythnosol gyda phob rhanbarth ynglŷn â pherfformiad samplu a phrofi ynghyd â chyfarfodydd wythnosol gyda’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynglŷn â pherfformiad labordai goleudy. Ceir hefyd adolygiad rheolaidd gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ynglŷn â pherfformiad cludo.

***Pa amserlenni neu gerrig milltir ar gyfer gwella rydych chi'n gweithio tuag atynt?***

Mae'r amserlen ar gyfer gwella’r amseroedd dychwelyd yng Nghymru yn broses barhaus, ond fel y dywedais, rwy’n disgwyl i weithdrefn labordai 24 awr fod ar waith ym mis Hydref a'r Labordai Gwib newydd ym mis Tachwedd. Bydd y rhain yn darparu ar gyfer amseroedd dychwelyd llawer gwell yn ogystal ag atgyfnerthu’r system wrth i’r gaeaf agosáu.

Mae'r camau a amlinellir uchod ar waith i sicrhau bod pob cyfle i wella perfformiad yn cael ei gymryd ar lefel leol a chenedlaethol.

***Os nad yw'r cerrig milltir hyn yn cael eu cyflawni, pa gamau eraill y byddwch yn eu cymryd?***

Drwy'r strategaeth rydym wedi amrywio ein dull samplu a phrofi. Mae hyn yn defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael inni gan Lywodraeth y DU yn ogystal â gwneud ein penderfyniadau cyllidebol ein hunain gan gynnwys atgyfnerthu ein gweithlu a'n gallu i brofi'n gyflymach ac yn gyson.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth hon o gymorth i roi gwybod i'r Pwyllgor am y gwaith sy'n cael ei wneud i wella amseroedd dychwelyd canlyniadau profion.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: VG/00273/20

Dr Dai Lloyd AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

5 Awst 2020

Annwyl Dai,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 16 Gorffennaf yn dilyn y sesiwn graffu estynedig gyda'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

Roedd hon yn sesiwn ar fy mhortffolio cyfan a or-redodd, fel y gwyddoch, ac roedd nifer sylweddol o feysydd i'w trafod. Nid wyf erioed wedi ceisio osgoi craffu ar y rhaglen warchod a byddwn wedi bod yn fodlon iawn i drafod y cyhoeddiad gan Brif Swyddog Meddygol Cymru y diwrnod hwnnw pe bai gwarchod wedi bod ymhlith y pynciau trafod. Wrth gwrs, roedd Prif Swyddog Meddygol Cymru eisoes wedi ymestyn cyfnod amser y rhaglen warchod cyn i'r pwyllgor gwrdd ar 16 Gorffennaf, ac roedd gwledydd eraill y DU eisoes wedi cyhoeddi'n gyhoeddus y byddent yn oedi trefniadau gwarchod. Er enghraifft, cyhoeddodd Lloegr ar 22 Mehefin y byddai eu trefniadau gwarchod yn dod i ben am y tro. Mater i'r pwyllgor, wrth gwrs, yw blaenoriaethu'r meysydd holi fel sy'n addas.

I gydnabod y nifer o'n dinasyddion y mae'r cyngor i warchod eu hunain wedi effeithio arnynt, a rôl allweddol y trydydd sector wrth gefnogi'r unigolion hynny, mae fy swyddogion wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau i randdeiliaid yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae'r sesiynau hyn yn nodi cyfeiriad gwarchod yn y dyfodol, yn esbonio sut a pham y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a hefyd yn cymryd unrhyw gwestiynau a sylwadau sydd gan sefydliadau am warchod neu'r mecanweithiau cymorth sy'n galluogi pobl i warchod. Mae'r grwpiau a gymerodd ran yn y sesiynau hyn wedi cynnwys y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl, Consortiwm y Trydydd Sector ar Anableddau Dysgu a Chynghrair Canser Cymru. Mae'r Prif Swyddog Meddygol a'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol hefyd wedi mynychu'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl deirgwaith i drafod gwarchod.

O gofio rôl hanfodol ein Hawdurdodau Lleol a Chynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS) i gefnogi'r rhaglen warchod cynhaliwyd sesiwn friffio cyn y cyhoeddiad i sicrhau bod y sefydliadau hyn yn cael eu paratoi a'u bod yn cael cyfle i ofyn cwestiynau am y newid yn y cyngor.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wrth baratoi ar gyfer y cyhoeddiad darparwyd adnoddau i sefydliadau ledled Cymru, gan gynnwys dogfen cwestiynau cyffredin, gyda dolenni i'r holl wybodaeth berthnasol am warchod. Helpodd hyn sefydliadau i baratoi ar gyfer cwestiynau yr oeddent yn debygol o'u cael ar ôl y cyhoeddiad a darparu cefnogaeth briodol.

Mae mwy y gallwn ei wneud bob amser a byddwn yn parhau i ymateb i'r adborth a gawn sy'n ein helpu i drefnu ein cefnogaeth ar gyfer garfan hon.

Rwyf yn gobeithio bod hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch ein dull gweithredu yn y maes pwysig hwn.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

RCGP CYMRU WALES

22 July 2020

Dear Dr Dai Lloyd MS,

COVID-19: Evidence session with the Minister and Deputy Minister for Health and Social Services and the Director General for Health and Social Services and the NHS Wales Chief Executive

The Royal College of General Practitioners Cymru Wales, would like to provide an observation on a comment made at one of the HSCS Committee's recent meetings. During the HSCS Committee Meeting on 16 July 2020 Dr Andrew Goodall said:

> *"we've seen a drop of about 30 – 35% in GP attendance and activity which has still stayed at about that level over these recent weeks".*

While we fully appreciate that Dr Goodall was not seeking to be critical of general practice, indeed he was fulsome in his praise for all health workers during the Committee session, it is the view of the Royal College of GPs that this specific quote is not reflective of the experience of our members.

GPs' current workload

As has been widely acknowledged, including in the College's submission to this Committee, there was an initial drop off in the number of patients contacting their GP at the start of the COVID-19 outbreak in Wales. However, this is no longer the case. Through the active work of the profession, NHS Wales and Welsh Government, a concerted effort was made to emphasise that while the format of the consultation may be different to that pre-pandemic, surgeries were open, and GPs were on hand to help patients. Senior officers at RCGP Wales engaged with broadcast and print media to explain that general practice was still very much 'open for business'. This was a message also conveyed during the Committee's evidence session with RCGP Wales. The current attendance, both virtual and in person, at GP surgeries is high. There is a logical explanation for this. The workload one might typically expect at this time has been supplemented by those patients who were reluctant to contact their GP earlier in the pandemic and those who have conditions which have been accentuated by the pandemic and lockdown measures. It should also be noted that in person consultations now require additional time due to PPE protection. It is also the case that virtual consultations can often take a little longer than traditional in person consultations. It is undoubtedly a very busy period for GPs across Wales

Royal College of General Practitioners Wales 4th Floor Cambrian Buildings Mount Stuart Square Cardiff Bay Cardiff CF10 5FL
Tel: 020 3188 7755 Fax: 020 3188 7756 email: welshc@rcgp.org.uk web: www.rcgp.org.uk/wales

Coleg Brenhinol Meddygon Teulu Cymru 4ydd Llawr Adeiladau Cambrian Sgwâr Mount Stuart Bae Caerdydd Caerdydd CF10 5FL
Ffôn: 020 3188 7760 e-bost: welshc@rcgp.org.uk web: www.rcgp.org.uk/wales

Patron: His Royal Highness the Duke of Edinburgh Registered charity number 223106

and we anticipate the long-term effects of COVID-19 will result in a prolonged increase in GP workload.

<u>Availability of Data</u>

We appreciate that Dr Goodall was basing his assertion on collated data which he has subsequently offered to share with us. However, we do not feel that data producing an output which is so skewed in comparison to the experience of our members can be regarded as providing a full perspective on the current position. On this point, it is our belief that RCGP has a role to play in helping to provide a more accurate picture.

The RCGP Research and Surveillance Centre (RSC) is an internationally renowned source of information, analysis and interpretation of primary care data. Established in 1957, the RSC is an active research and surveillance unit that collects and monitors data, in particular influenza, from over 500 practices. However, at present there is a problem in the Centre accessing data from Wales. This matter has been raised with Dr Goodall and we are encouraged by his keenness to help find a solution so that information from Welsh general practice can also be processed via the Centre to provide us all with an improved indication as to work being undertaken in general practice.

In conclusion, it is our hope that this letter has brought clarity to the current and anticipated workload in general practice. We are grateful for the pro-active way in which Dr Goodall has engaged with the College following concern about the comment from the meeting and look forward to working closely with him to help provide the most accurate possible picture of workload in general practice in Wales.

Yours sincerely

**Dr Mair Hopkin**
**Joint Chair**
**RCGP Wales**

**Prof Peter Saul**
**Joint Chair**
**RCGP Wales**

**cc.**
**Vaughan Gething MS**
**Dr Andrew Goodall**

Royal College of General Practitioners Wales 4th Floor Cambrian Buildings Mount Stuart Square Cardiff Bay Cardiff CF10 5FL
Tel: 020 3188 7755 Fax: 020 3188 7756 email: welshc@rcgp.org.uk web: www.rcgp-wales.org.uk

Coleg Brenhinol Meddygon Teulu Cymru 4ydd Llawr Adeiladau Cambrian Sgwâr Mount Stuart Bae Caerdydd Caerdydd CF10 5FL
Ffôn: 020 3188 7760 e-bost: welshc@rcgp.org.uk web: www.rcgp-wales.org.uk

Patron: His Royal Highness the Duke of Edinburgh Registered charity number 223106

Eitem 3.14

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

12 Awst 2020

Annwyl Dr Lloyd

Ysgrifennaf yn dilyn yr ohebiaeth a dderbynioch gan Goleg Brenhinol y Meddygon Teulu mewn perthynas â sesiwn dystiolaeth ddiweddar Llywodraeth Cymru. Credais y byddai'n ddefnyddiol rhoi rhai sylwadau yng ngoleuni'r ohebiaeth hon, a chadarnhau fy mod wedi trafod y materion a godwyd gyda Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu a Chymdeithas Feddygol Prydain.

Fe gofiwch yn ystod y sesiwn dystiolaeth i mi ymateb i gwestiwn am weithgarwch cleifion drwy'r cyfnod ymateb i'r pandemig a'r effaith ar gleifion ac, fel yr wyf wedi gwneud yn flaenorol mewn pwyllgorau ac yn gyhoeddus, roeddwn yn amlinellu rhai o'r ffigurau gweithgarwch cenedlaethol rydym wedi'u hadolygu ar draws y system. Fel y nodais, mae'n amlwg bod gostyngiad wedi bod mewn gweithgarwch cleifion drwy'r cyfnod ymateb i'r pandemig, ac roedd hynny'n fwyaf amlwg ym mis Mawrth, Ebrill a Mai ar frig y cyfnod ymateb. Fodd bynnag, rydym wedi gweld gweithgarwch cleifion yn cynyddu rywfaint mewn nifer o wahanol leoliadau, ac mae cynnydd wedi bod yn gyffredinol mewn gweithgarwch ym mhob lleoliad dros yr wythnosau diwethaf, tuag at (ond nid eto wedi cyrraedd) lefelau arferol. Mae hyn yn wir mewn meysydd megis atgyfeiriadau canser, derbyniadau i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, derbyniadau brys a gweithgarwch wedi'i drefnu. Fel yr amlinellais, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar gynnal gwasanaethau hanfodol, ac yn fwy diweddar rydym wedi bod yn edrych ar ailosod rhai o'r meysydd gweithgarwch rheolaidd, eto dros amrywiaeth o leoliadau gofal iechyd.

Rwy'n falch bod gennym berthynas dda yng Nghymru gyda'r cyrff sy'n cynrychioli ein staff GIG, gan gynnwys cyrff proffesiynol megis y Colegau Brenhinol, a'u bod wedi cael eu cynnwys yn ein prosesau ac wedi dylanwadu ar gamau gweithredu gan gynnwys ein blaenoriaethau ar gyfer fframweithiau gweithredol yn ein hymateb i'r pandemig. Ar ôl siarad â Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu a Chymdeithas Feddygol Prydain, rwy'n poeni y byddai fy sylwadau am weithgarwch, o'u cymryd allan o'u cyd-destun, wedi cael eu gweld fel adlewyrchiad o lwyth gwaith Meddygon Teulu. Rwyf wedi gallu egluro i'r ddau gorff ar ran eu haelodau fy mod yn ymwybodol iawn o'r ymateb eithriadol y mae'r maes gofal sylfaenol wedi'i ddarparu er mwyn

cynnal gwasanaethau a sicrhau mynediad drwy gydol yr ymateb, ond roedd cael rhai cyfyngiadau yn anochel, yn enwedig yn ystod yr wythnosau brig. Yn wir, fe drafodais y pwynt hwn yn fy nhystiolaeth ehangach. Fodd bynnag, hoffwn fod yn hollol eglur wrth y pwyllgor na fydd y gweithgarwch roeddwn yn ei ddefnyddio, boed hynny yn llai o dderbyniadau i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys neu weithgarwch gofal sylfaenol, o reidrwydd yn adlewyrchu pa mor brysur neu pha mor galed y mae gwasanaeth neu adran yn gorfod gweithio, boed hynny mewn ysbyty neu mewn lleoliad gofal sylfaenol. Mae staff yn gorfod gwneud nifer o newidiadau i'r ffordd arferol o gael mynediad at wasanaeth, ac mae hyn yn arwain at oblygiadau sylweddol i arferion gweithio, ac mae practisau meddygon teulu wedi gweithio'n galed iawn i sicrhau bod camau a gweithgareddau yn eu lle sy'n cefnogi cleifion i gael mynediad, ond sydd hefyd yn diogelu staff a chleifion. Mae hyn yn cynnwys yr effaith y mae'n ei chael ar amser, a gweithgarwch o ran mesurau diogelwch megis Cyfarpar Diogelu Personol (PPE). Mae'r profiad hwn wedi bod yn datblygu ac yn newid dros yr wythnosau diwethaf er mwyn cynyddu'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig ar draws y maes gofal sylfaenol, gan gynnwys y rheini sydd wedi cael eu trawsnewid, ac sy'n cael eu darparu drwy lwybrau gwahanol megis ymgyngoriadau o bell. Byddem yn ddiolchgar pe gallech sicrhau bod hyn yn glir i aelodau'r pwyllgor yn dilyn y sesiwn roeddwn yn bresennol ynddi.

Rwyf wedi cytuno y byddwn yn gwneud rhywfaint o waith ar y cyd ar draws y system er mwyn sicrhau bod ein adroddiadau canolog yn gallu ystyried gwahanol arferion a newidiadau mewn lleoliadau, fel bod modd, er enghraifft, i ymgyngoriadau o bell gael eu cynnwys neu eu disgrifio yn ein ffigurau adrodd, boed hynny mewn practisau meddygon teulu neu mewn adrannau cleifion allanol. Dyma newid mawr o ran darparu gwasanaethau ar raddfa eang, ac mae felly'n anochel y bydd y broses adrodd ar ei hôl hi o gymharu â'r newid gwirioneddol mewn gwasanaethau. Mae Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu wedi cynnig yn benodol i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod llwythi gwaith practisau yn dryloyw, gan gynnwys eu hymateb i COVID-19. Ni fyddai ein mesurau traddodiadol wedi cyfleu'r holl bwysau hyn. Ar yr un pryd, hoffem sicrhau bod y dulliau casglu data ym maes gofal sylfaenol yn cael eu gwneud mor hawdd â phosibl heb fiwrocratiaeth diangen.

Hoffwn bwysleisio fy ngwerthfawrogiad a'm hymroddiad i Feddygon Teulu a'u timau ar draws Cymru. Mae'r ymateb gan bractisau wrth gyflawni'r llwyth gwaith hwnnw wedi arwain at nifer o ganlyniadau cadarnhaol; megis mwy o weithio gyda'r Tîm Amlddisgyblaethol, llwythi achosion mwy cymhleth a mwy o gydweithio gyda phractisau eraill (tynnodd Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu sylw at hyn yn *General practice in the post Covid world*, Gorffennaf 2020). Rydym hefyd wedi gweld newid sylweddol o ran gweithio'n fwy gyda thechnoleg er mwyn cysylltu o bell gyda chleifion, ac ma hyn wedi arwain at fanteision i dimau clinigol a chleifion. Bydd cynnal y momentwm er mwyn cyflawni ar gyfer cleifion drwy ffyrdd arloesol o weithio yn ffactor bwysig wrth ddatblygu'r hyn a fydd yn wasanaeth arferol ar ôl COVID-19.

Hyderaf fod y llythyr hwn yn egluro fy safbwynt mewn perthynas â'r sylwadau am lefelau gweithgarwch.

Yn gywir

Dr Andrew Goodall

Anfonwyd copi at:
Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu
Cymdeithas Feddygol Prydain
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

**National Assembly for Wales**
Health, Social Care and Sport Committee

Vaughan Gething AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

10 Awst 2020

Annwyl Weinidog,

Byddwch yn cofio imi ysgrifennu atoch ym mis Chwefror i ofyn am gopi llawn, heb ei olygu o'r adroddiad a luniwyd gan Mr Robin Holden yn ymwneud â'r Uned Hergest yng ngogledd Cymru. Yn eich ymateb, gwnaethoch nodi mai'r ddogfen gryno bedair tudalen oedd yr unig adroddiad, a bod defnyddio'r term 'adroddiad llawn' mewn gohebiaeth gan Simon Dean yn cwmpasu'r adroddiad cryno ynghyd â'r datganiadau personol a gofnodwyd fel rhan o'r ymchwiliad, a oedd yn cael eu dal yn ôl oherwydd natur gyfrinachol y wybodaeth yr oeddent yn ei chynnwys. Fodd bynnag, mae dyfarniad y Comisiynydd Gwybodaeth y dylai'r Bwrdd Iechyd "ddatgelu copi llawn o'r adroddiad gyda dim ond enwau unigolion sy'n destun yr achwyniadau wedi'u golygu", ynghyd ag adroddiadau diweddar yn y cyfryngau a oedd yn cyfeirio at ddogfen 14 tudalen, yn awgrymu bod dogfen lawnach a manylach ar gael.

Yn sgil y datblygiadau newydd hyn, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi diweddariad arall ar y sefyllfa mewn perthynas â'r ddogfen hon.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AS
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/VG/2497/20

Dr David Lloyd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

19 Awst 2020

Annwyl Dr Lloyd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Gorffennaf yn rhoi adroddiad y Pwyllgor imi ar yr *'Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: '.* Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am yr amser a dreuliwyd yn ystyried y pwnc pwysig hwn. Roedd yn gyfnod heriol i bob un ohonom.

Hoffwn gofnodi fy niolch i'r staff ym mhob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol a weithiodd yn arbennig o galed i drin a gofalu am y rhai a oedd wedi dal COVID-19 a'r rhai a oedd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol brys eraill, ac i ddiogelu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Mae'r system wedi bod drwy drawsnewidiad nodedig ym mhob lleoliad o fewn cyfnodau heriol ac eithriadol o amser. O ran cyfarpar diogelu personol, hoffwn hefyd gydnabod yr her enfawr a oedd yn wynebu'r gwasanaeth o ran logisteg a gweithgynhyrchu i gael gafael ar filiynau o eitemau ar adeg anodd iawn.

Yng nghyd-destun y sefyllfaoedd gwaethaf rhesymol ar y pryd, graddfa'r lefelau capasiti a ddisgwyliwyd, nifer y staff critigol a oedd yn ofynnol a gweld systemau iechyd uchel eu parch eraill yn cael eu llethu, roedd hwn yn gyfnod eithriadol o ddwys a phryderus i bawb dan sylw.

Gwnes y penderfyniad cynnar ar 13 Mawrth i gamu'n ôl o weithgareddau rheolaidd er mwyn sicrhau bod gan y GIG a'r system ofal amser priodol i baratoi, gan gynnwys creu capasiti a hyfforddi ac aildrefnu staff. Gohiriwyd gofal sylfaenol ac eilaidd rheolaidd dros dro er mwyn cefnogi'r nifer o gleifion â COVID-19 a ragwelwyd. Gwnaed penderfyniadau anodd a oedd yn adlewyrchu pwysau ac arwyddocâd y sefyllfa a oedd yn wynebu pob un ohonom ac roeddem yn ymwybodol o'r angen i ymateb i amgylchedd a oedd yn newid yn gyflym iawn, drwy fis Ebrill a mis Mai yn arbennig.

Nod ein camau gweithredu oedd diogelu poblogaeth Cymru, achub bywydau a diogelu'r GIG. Yn y cyd-destun hwn, roedd gwaith modelu'r DU, a droswyd ar gyfer Cymru, yn dangos bod angen darparu 10,000 o welyau ychwanegol a 950 o welyau gofal critigol. Er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau amlwg iawn a'r systemau a oedd o bosibl wedi'u llethu, gallem roi cynlluniau ar waith ar frys a oedd yn caniatáu inni dreblu capasiti gofal critigol os

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

oedd angen drwy gapasiti ymchwydd a hefyd ddyblu nifer y gwelyau ysbyty acíwt yng Nghymru – a'r cyfan o fewn dyddiau ac wythnosau yn ystod yr her ddigynsail hon.

Diolch i'r proffesiynoldeb a'r ymateb hyblyg a oedd yn nodweddion amlwg yng nghydweithrediad pob rhan o'r system iechyd a gofal, a'n gwaith paratoi cyflym yn gyffredinol, roedd Cymru wedi gallu ymateb yn gyflym i ymdopi â'r argyfwng iechyd y cyhoedd hwn. Cynorthwywyd yr ymateb drwy'r cydberthnasau agos ac agored ar draws sefydliadau iechyd a chyda phartneriaid gofal cymdeithasol ledled Cymru, gan adeiladu ar strwythurau a threfniadau partneriaeth a oedd eisoes yn bodoli. O ganlyniad i gyfathrebu rheolaidd a gwneud penderfyniadau'n gydweithredol, gwnaethom lwyddo i gyflawni nifer o gerrig milltir, o leihau gweithgareddau GIG rheolaidd dros dro, i ddatblygu ysbytai maes ac, yn ddiweddarach, i sefydlu trefniadau Profi, Olrhain a Diogelu lleol. Mae'r trefniadau atgyfnerthu hyn yn sylfaen bwysig i'r Weithrediaeth newydd sy'n cael ei datblygu ar gyfer GIG Cymru.

O ganlyniad i'r sylfaen dystiolaeth ar y pryd, a oedd yn llywio ein penderfyniadau, a chefnogaeth hollbwysig effaith ehangach y boblogaeth yn parchu rheoliadau i aros gartref, yn ffodus ni welsom y 100,000 o dderbyniadau i'r ysbyty a ddisgwyliwyd ar y pryd na'r hyd at 28,000 o farwolaethau posibl yng Nghymru, ac mae pethau'n parhau felly. Fodd bynnag, yn anffodus, mae nifer o bobl wedi colli anwyliaid ac roeddem yn ymwybodol drwy gydol y sefyllfa hon fod atal mwy o deuluoedd rhag dioddef trychineb o ganlyniad i COVID-19 yn hollbwysig.  Roedd hwn yn gyfnod arbennig o heriol i bawb a oedd ar reng flaen ein gwasanaethau ac mae'n parhau i fod yn gyfnod heriol, yn enwedig wrth inni baratoi at gyfnod anrhagweladwy'r gaeaf sydd o'n blaenau.

Rwyf hefyd am gydnabod lefel y trawsnewidiad, a gefnogwyd gan arloesedd digidol, sydd wedi bod yn anhygoel wrth gefnogi'r system iechyd a gofal.  Diolch i raddfa'r her a'r datblygiad cyflym, mae nifer o'r ffyrdd newydd o weithio a'r dulliau arloesol wedi cael adborth cadarnhaol gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys cleifion a chlinigwyr. Rydym yn parhau i ddysgu o'n gwaith hyd yn hyn a byddwn yn adeiladu ar yr ymdrechion hyn wrth inni gynllunio ar gyfer y gaeaf a thu hwnt. Bydd argymhellion y Pwyllgor hefyd yn helpu i lywio ein dull a'n camau gweithredu yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor wedi cymryd tystiolaeth o nifer o ffynonellau allweddol, ac mae'n gwerthfawrogi'r sefyllfa gymhleth a oedd yn wynebu'r rhai a oedd yn rheoli'r pandemig. Mae adroddiad y Pwyllgor yn dweud y bydd yn cymhwyso'r dystiolaeth fel y'i gwyddys ar y pryd ond, mewn rhai achosion, mae'n ymddangos bod gwybodaeth a wyddys nawr wedi cael ei chymhwyso'n ôl-weithredol. Mae hyn yn arbennig o amlwg o ran ei arsylwadau am benderfyniadau a wnaed ynglŷn â chartrefi gofal a'r polisi ar gyfer cleifion asymptomatig.

Rwy'n gwybod bod Dr Rob Orford, Cadeirydd y Gell Cyngor Technegol wedi ysgrifennu atoch ar wahân ar 14 Gorffennaf yn esbonio'r rôl sydd gan y Gell Cyngor Technegol, a rôl y mae'n parhau i'w chwarae, o ran cynnig cyngor i Lywodraeth Cymru. Rwyf ar ddeall eich bod wedi ei wahodd ef a chydweithwyr i fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 16 Medi. Rwy'n siŵr y bydd hyn yn cynorthwyo dealltwriaeth y Pwyllgor o'r cerrig milltir ar gyfer penderfyniadau a thystiolaeth. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol o ran y penderfyniadau am brofion ar gyfer cartrefi gofal a rhyddhau pobl o'r ysbyty i gartrefi gofal. Gwnaed ein penderfyniadau yn ddidwyll ac yn seiliedig ar ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth ar y pryd. Wrth i'r dystiolaeth ddatblygu rydym wedi addasu ein dulliau lle bo hynny'n briodol, a bydd hyn yn parhau. Gallaf sicrhau'r pwyllgor mai diogelu'r bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal oedd ein prif flaenoriaeth drwy gydol y pandemig hwn. Mae diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas a gweithredu er eu lles gorau nhw yn parhau i fod yn ganolog i'n penderfyniadau.

Bydd aelodau'r Pwyllgor wedi cael copi o Ddatganiad Ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 30 Gorffennaf sy'n nodi'r camau rydym yn eu cymryd i gefnogi'r sector cartrefi gofal. Bydd ein camau yn ystyried gwersi a ddysgwyd ac unrhyw fesurau pellach sy'n ofynnol mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau; cyfarpar diogelu personol; cymorth cyffredinol a chlinigol i gartrefi gofal; llesiant preswylwyr; llesiant a chynaliadwyedd ariannol gweithwyr gofal cymdeithasol. Rydym wedi comisiynu hwylusydd annibynnol i gynnal adolygiad cyflym o brofiad gweithredol cartrefi gofal rhwng mis Mawrth a mis Mehefin eleni. Bydd canlyniad cynlluniau cymorth 7 cartref gofal rhanbarthol ac adroddiad trosolwg cenedlaethol yn llywio gwaith cynllunio Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer y gaeaf. Yn ogystal, mae papur gwyddonol wedi'i ysgrifennu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dadansoddi'r unigolion a ryddhawyd o ysbytai ac achosion COVID-19 mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Mae'r papur wedi'i gyflwyno i gyfnodolyn adolygu gan gymheiriaid i'w gyhoeddi. Byddwn yn rhannu'r papur hwn gyda chi pan fydd ar gael.

Rwy'n 'derbyn' neu'n 'derbyn mewn egwyddor' y mwyafrif o'r argymhellion gan y Pwyllgor. Nid wyf wedi derbyn rhan o argymhelliad 10. Mae hyn yn ymwneud â defnyddio pecynnau profi gartref mewn cartrefi gofal. Mae canllawiau a hyfforddiant helaeth wedi cael eu datblygu ar gyfer gweinyddu'r pecynnau profi gartref a chydnabyddir bod y dull hwn yn ffordd effeithiol a hyblyg o ddiwallu anghenion penodol cartrefi gofal. Nid wyf wedi derbyn argymhelliad 20 ychwaith mewn perthynas ag olrhain cysylltiadau, sydd ond yn gallu dechrau ar ôl cael canlyniad prawf positif.

Gallaf gadarnhau bod nifer o'r argymhellion yn adlewyrchu meysydd sydd eisoes ar waith a lle caiff cynnydd cryf ei wneud eisoes. Dros yr ychydig wythnosau nesaf, byddwn yn cymryd camau i ddarparu gwelliannau pellach, gan fod yn ystyriol o'r goblygiadau ariannol. Bydd angen gwneud dewisiadau i sicrhau'r 'gofal iechyd seiliedig ar werth' gorau wrth symud ymlaen ac yng nghyd-destun paratoi ar gyfer cyfnod heriol yn ystod y gaeaf.

Byddwch yn ymwybodol nad oedd glasbrint ar gyfer COVID-19. Er bod cynlluniau wedi cael eu datblygu a'u profi ar gyfer pandemig ffliw, roedd graddfa ac effaith COVID-19 yn hollol newydd. Ar y cyd â phartneriaid ym mhob rhan o'r sector iechyd, gofal cymdeithasol a thu hwnt, rydym yn dysgu i atal, cyfyngu a thrin y clefyd hwn, ac rydym yn cydnabod y byddwn yn parhau i fyw gyda'r feirws mewn sawl agwedd ar ein bywydau pob dydd am beth amser eto.

Ar 7 Awst, cyhoeddais ein bod yn datblygu Cynllun Diogelu'r Gaeaf a gaiff ei ddarparu ym mis Medi. Bydd hwn yn gynllun trosfwaol a fydd yn gosod ein disgwyliadau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ac yn llywio gwaith ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid ehangach. Bydd yn darparu cyfeiriad clir ar gyfer gweddill y flwyddyn a hefyd yn cefnogi nifer o argymhellion y Pwyllgor.

Mae gwaith y Pwyllgor wedi canolbwyntio'n ddefnyddiol ar nifer o feysydd allweddol: Cyfarpar Diogelu Personol; Profi; Gwarchod; Profi, Olrhain a Diogelu; a goblygiadau ariannol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion. Byddaf yn ymdrin â'r rhain ac yn cynnig gwybodaeth bellach i gefnogi'r ymateb hwn yn Atodiad 1.

## Cyfarpar Diogelu Personol

**Derbynnir y tri argymhelliad hyn**

### Argymhelliad 1

*Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati ar fyrder i:*

- *gyhoeddi strategaeth ar gyfer sicrhau cyflenwad gwydn o gyfarpar diogelu personol;*

- *casglu ynghyd lefelau digonol o gyfarpar diogelu personol priodol ar gyfer unrhyw achos yn y dyfodol;*
- *adolygu'r cyfarpar diogelu personol y mae wedi'i gasglu ynghyd i sicrhau ei fod yn parhau i fod o ansawdd digonol a'i fod yn addas at y diben, gan gynnwys bod y dyluniad a'r ffit yn briodol ar gyfer pawb sy'n ei wisgo ac yn addas ar gyfer staff, cleifion neu ofalwyr sy'n fyddar neu â nam ar eu clyw*
- *cyhoeddi strategaeth ar gyfer sicrhau gwydnwch y trefniadau dosbarthu ar gyfer cyfarpar diogelu personol;*
- *gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod canllawiau ar gyfarpar diogelu personol yn cael eu diweddaru yng ngoleuni'r cyngor gwyddonol diweddaraf, a chyfathrebu'r cyngor hwn yn glir i'r staff.*

## Argymhelliad 2

*Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu ei systemau ei hun i sicrhau bod y mecanweithiau ar waith i alluogi gweithgynhyrchwyr yng Nghymru i ymateb yn gyflym wrth gyflenwi cyfarpar diogelu personol priodol pe bai unrhyw achosion yn y dyfodol. Rhaid i hyn gynnwys cael trefniadau caffael sy'n gallu ymateb yn amserol.*

## Argymhelliad 3

*Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau gofal hanfodol fynediad dibynadwy at gyfarpar diogelu personol priodol*

Mae cynllun strategol ar gyfer caffael cyfarpar diogelu personol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei ddatblygu. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gydlynu drwy'r Grŵp Cyflenwi, Cyrchu a Dosbarthu Cyfarpar Diogelu Personol, a gaiff ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru. Caiff y cynllun ei ddatblygu fel rhan o'r paratoadau ehangach ar gyfer y gaeaf a wneir gan Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn y Cynllun Diogelu'r Gaeaf cenedlaethol. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru eisoes wedi cymryd camau i sicrhau stoc sefydlog o ran cyfarpar diogelu personol a byddant yn parhau i adeiladu ar hyn i sicrhau gwytnwch pellach.

Mae gan fusnesau yng Nghymru rôl bwysig i'w chwarae o ran atgyfnerthu ein gallu i wrthsefyll ail don o COVID-19 a'r risgiau a berir gan Brexit heb gytundeb. Bydd ein cynllun caffael cyfarpar diogelu personol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfuno gweithgynhyrchu lleol â chyflenwadau rhyngwladol. Rhagwelir y bydd mwy o archebion gan fusnesau yng Nghymru dros y flwyddyn nesaf wrth iddynt ddechrau cynhyrchu cyfarpar diogelu personol.

Bydd Diwydiant Cymru a'i bartneriaid yn hanfodol wrth lywio ein gwaith ymgysylltu â busnesau yn y dyfodol ynghylch gofynion cyfarpar diogelu personol ynghyd â'r potensial i fodloni mwy o'n gofynion caffael eraill yn y wlad hon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i gyflenwi cyfarpar diogelu personol i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Lle bydd sefydliadau'r trydydd sector yn gweithredu i gefnogi'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol statudol, byddant yn cael cyfarpar diogelu personol gan Fyrddau Iechyd Lleol neu awdurdodau lleol er mwyn cyflawni'r swyddogaethau hynny. Mae nifer o sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gofal meddygol, megis hosbisau, wedi bod yn rhan o ddosbarthiad craidd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru am nifer o flynyddoedd ac mae hyn wedi parhau drwy gydol yr ymateb i COVID-19.

Mewn perthynas â gofal cymdeithasol, mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn darparu cyfarpar diogelu personol yn uniongyrchol i awdurdodau lleol drwy ei Storfeydd Cyfarpar ar y Cyd er mwyn eu dosbarthu ymlaen i ddarparwyr gofal. Bydd Partneriaeth

Cydwasanaethau GIG Cymru yn parhau i gyrchu a dosbarthu cyfarpar diogelu personol i awdurdodau lleol er mwyn diwallu anghenion y sector gofal cymdeithasol am weddill y flwyddyn ariannol hon, gan gynnal cyflenwad sefydlog o gyfarpar diogelu personol drwy gydol y cyfnod adfer.

Mae cyfarpar diogelu personol yn gyfrifoldeb cyfreithiol ar y cyflogwr gan gynnwys, wrth gwrs, nifer o ddarparwyr gofal preswyl a gofal yn y cartref yn y sector annibynnol. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi camu i'r adwy i ddarparu cyfarpar diogelu personol i sicrhau bod y staff a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt wedi'u diogelu o ganlyniad i'r amodau eithriadol yn y cadwyni cyflenwi arferol am gyfarpar diogelu personol. Ni ddylem golli golwg ar arwyddocâd yr ymdrech lwyddiannus hon o ran logisteg nac yn ariannol.

**Goblygiadau ariannol:** Bydd costau cyfarpar diogelu personol a fydd yn deillio o ddatblygu'r cynllun strategol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu talu drwy'r pecyn sefydlogi gwerth £800m i gefnogi GIG Cymru i barhau i ymateb i effaith argyfwng y coronafeirws, ac adfer ar ei ôl. Cafodd hyn ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru ar 5 Awst. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli

## <u>Profi</u>

**Derbynnir yr argymhellion canlynol**

### Argymhelliad 4

*Rhaid i Lywodraeth Cymru, a'i phartneriaid, sicrhau bod mynediad lleol at brawf i unrhyw un sydd ei angen, yn ôl yr angen. Mae angen i feddygon teulu a gofal sylfaenol fod yn rhan annatod o'r trefniadau hyn.*

### Argymhelliad 5

*Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda'i phartneriaid, sicrhau ymgyrch barhaus o negeseuon cyhoeddus clir, cyson ac ailadroddus - ar lefel genedlaethol a lleol - ynghylch pryd i geisio prawf Covid-19 a sut i wneud hyn.*

### Argymhelliad 6

*Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod negeseuon clir a chyson yn yr un modd ynglŷn â gwerth profi, nid yn unig o ran adnabod pobl sydd â'r feirws ond i gynorthwyo gydag ymchwil a datblygu atebion at y dyfodol.*

### Argymhelliad 7

*Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda GIG Cymru, ddatblygu cynllun clir ar gyfer profion rheolaidd ac ailadroddus ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys staff asymptomatig.*

### Argymhelliad 8

*O ystyried y pryderon y bydd yr haint yn cyrraedd ail benllanw yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda'i phartneriaid, asesu'r galw tebygol am brofion yn y dyfodol a chymryd camau i sicrhau bod digon o allu i brofi fel y bydd unrhyw un sydd angen prawf yn gallu cael un yn gyflym ac yn hawdd. Fel rhan o hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru a phartneriaid aros yn effro i ddatblygiad gwahanol fathau o fodelau profi*

### Argymhelliad 9

*Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob claf sy'n cael ei ryddhau o'r ysbyty yn uniongyrchol i gartref gofal wedi'i brofi yn unol â'r arfer gorau diweddaraf i sicrhau bod preswylwyr a staff yn cael eu diogelu cystal â phosib.*

Mae'r Strategaeth Profi a gyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf yn amlinellu'r cynllun ar gyfer profi staff iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein strategaeth yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf. Fel bob amser, gall hyn newid wrth i'r sylfaen dystiolaeth newid dros gyfnod y pandemig https://llyw.cymru/strategaeth-profi-covid-19-html.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol i gytuno ar ddull system gyfan o brofi ar gyfer Cymru a byddwn yn parhau i adolygu ein polisi profion ar gyfer lleoliadau iechyd a gofal wrth i'r dystiolaeth ddatblygu. Bydd capasiti profi ychwanegol y GIG yn cael ei ddefnyddio i brofi staff rheng flaen asymptomatig yn rheolaidd ac yn strategol fel rhan o fesurau atal a rheoli heintiau.

Wrth amcangyfrif yr angen am brofion, dylanwadir ar hyn gan nifer o newidynnau, lledaeniad y clefyd, mynychder achosion newydd a chyfraddau trosglwyddo yn y gymuned, mynychder symptomau a'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar y ffordd orau o ddefnyddio'r profion i atal heintiau. Byddwn yn parhau i adolygu cyngor gwyddonol newydd, ein gwaith modelu a'n profiad rhyngwladol a byddwn yn cadw golwg ar y dystiolaeth hon ac yn addasu ein hamcangyfrifon o'r angen yn unol â hynny.

Mae seilwaith profi cenedlaethol wedi cael ei sefydlu gyda rhwydwaith helaeth o gyfleusterau profi ledled Cymru, o Unedau Profi am y Coronafeirws i Unedau Profi Symudol a Chanolfannau Profi Torfol drwy Ffenest y Car. Mae pecynnau profi gartref ar gael i'r rhai hynny na allant fynd i safleoedd profi.  Gall unigolion wneud cais am brofion ar-lein drwy lwyfan GOV.UK neu drwy ffonio 119.

Mae ein capasiti samplu yn rhagori ar y gofynion cyfredol. Mae gan labordai yng Nghymru gapasiti i gynnal dros 15,000 o brofion y dydd ac mae gennym hefyd fynediad i gapasiti ehangach y DU, sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer profi'r boblogaeth, profion gwyliadwriaeth mewn cartrefi gofal ac ar gyfer gweithwyr allweddol. Mae capasiti Cymru yn cael ei ddefnyddio i ymateb i angen clinigol a rheoli achosion o glefydau.

Ar gyfer pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty, mae'n rhaid i ganlyniadau eu profion fod ar gael cyn iddynt gael eu rhyddhau. Rydym hefyd wedi sefydlu llwybr rhyddhau ychwanegol i bobl sy'n cael canlyniad positif neu sy'n heintus o hyd; byddant yn symud i ofal llai dwys a byddant yn cael eu profi eto er mwyn sicrhau eu bod yn cael canlyniad negatif cyn y byddant yn dychwelyd i'r cartref gofal.Mae hyn wedi'i nodi yn y canllawiau, *COVID-19: diweddariad i'r canllaw mewn perthynas â threfniadau gofal mwy a llai dwys* – https://llyw.cymru/gofynion-gwasanaeth-rhyddhau-or-ysbyty-covid-19

Nid ydym yn defnyddio'r holl gapasiti hwn, sy'n adlewyrchu nifer isel yr achosion o'r clefyd ar hyn o bryd. Ond mae'n hanfodol ein bod yn cynnal y gallu i ymateb i gynnydd sydyn mewn anghenion profi sy'n codi o achosion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn arwain ymgyrch barhaus i sicrhau ymwybyddiaeth y cyhoedd o COVID-19 ers dechrau'r argyfwng. Mae'r gwaith hwn wedi bod, ac yn parhau i fod, yn hanfodol wrth gyfleu'r cyngor iechyd diweddaraf i'r cyhoedd.  Mae hyn yn sicrhau bod pobl yn gwybod sut i gael prawf cyn gynted ag y byddant yn dechrau dangos symptomau, gan roi sicrwydd iddynt ynghylch rôl olrhain cysylltiadau wrth gadw Cymru'n ddiogel rhag brigiadau o achosion yn y dyfodol.

Hyd yn hyn, mae'r ymgyrch wedi cynnwys deunyddiau digidol, sylw yn y cyfryngau, gwaith allgymorth cymunedol a hysbysebion mewn deunydd wedi'i argraffu, ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar y radio. Mae dros 450 o ddeunyddiau ymgyrchu wedi cael eu cynhyrchu mewn 34 o ieithoedd gwahanol. Mae partneriaid megis y GIG, awdurdodau lleol a thimau cyfathrebu gwasanaethau cyhoeddus ehangach wedi gallu defnyddio'r deunyddiau

ymgyrchu. Bydd yr ymgyrch yn parhau i ganolbwyntio ar bwy ddylai gael prawf, sut a phryd, ynghyd â rôl olrhain cysylltiadau wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru sy'n arwain y gwaith o gyfathrebu â'r cyhoedd i recriwtio pobl i helpu gydag ymchwilio i atebion ar gyfer y dyfodol a'u datblygu.

**Goblygiadau Ariannol** – Caiff goblygiadau ariannol profi yng Nghymru eu bodloni drwy gyfuniad o gyllid fel rhan o seilwaith uniongyrchol y DU a'r pecyn sefydlogi gwerth £800m a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 5 Awst i gefnogi GIG Cymru i barhau i ymateb i effaith argyfwng y coronafeirws, ac adfer ar ei ôl.

Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. £250k yw'r costau ychwanegol ar gyfer Argymhelliad 8 mewn perthynas â gwaith Model R Cymru ar gyfer Sefyllfa Waethaf Resymol y Gaeaf, a thelir y costau hyn drwy gyllidebau rhaglenni ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

## Argymhelliad 10

*Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau:*

- *bod profion mewn cartrefi gofal yn digwydd yn rheolaidd ac yn systematig,*
- *bod profion o’r fath yn cael eu gwneud gan unigolion sydd wedi cael hyfforddiant addas yn hytrach na defnyddio pecynnau profi gartref a*
- *bod gallu digonol i brofi i gefnogi’r ddau bwynt uchod.*

**Derbynnir pwynt bwled cyntaf yr argymhelliad hwn mewn egwyddor**
Mae profion rheolaidd a systematig wedi cael eu cynnal mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Cafodd yr holl breswylwyr a'r staff mewn cartrefi gofal eu profi yn ystod mis Mai a mis Mehefin. Yng nghanol mis Mehefin, cyflwynwyd polisi i brofi holl staff cartrefi gofal yn wythnosol, a chafodd y trefniant hwn ei estyn wedi hynny. Cyhoeddwyd Strategaeth Profi Llywodraeth Cymru ar 15 Gorffennaf a oedd yn cefnogi'r penderfyniad i leihau pa mor aml y câi staff cartrefi gofal eu profi i bob pythefnos, os byddai cyfraddau cyffredinrwydd yn parhau i fod yn isel.

Mae'r canlyniadau wedi cael ei monitro'n agos ac mae'r cyfraddau cyffredinrwydd wedi parhau'n isel. Fel rhan o ddatblygu dull mwy penodol o brofi sydd wedi'i wahaniaethu, os bydd cyfraddau cyffredinrwydd yn uchel o hyd neu os ceir cynnydd sydyn, efallai y caiff profion systematig, mwy rheolaidd eu cynnal neu eu hailgyflwyno.

**Gwrthodir ail bwynt bwled yr argymhelliad hwn**
Mae Byrddau Iechyd Lleol wedi darparu canllawiau a hyfforddiant ar gyfer gweinyddu profion gan ddefnyddio pecynnau profi gartref. Mae dosbarthu pecynnau profi gartref i gartrefi gofal fel canolfannau profi ategol wedi darparu dull effeithiol a hyblyg sy'n diwallu anghenion penodol cartrefi gofal. Mae Byrddau Iechyd yn parhau i gefnogi, hyfforddi a chynghori cartrefi gofal mewn perthynas â phrofi a mesurau rheoli heintiau.

**Derbynnir trydydd pwynt bwled yr argymhelliad hwn**
Mae capasiti digonol yn labordai Cymru ac yn labordai 'Lighthouse' y DU er mwyn gallu cynnal profion mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Caiff profion eildro eu cynnal drwy ddilyn model 'Lighthouse Labs' gan ddefnyddio pecynnau profi gartref.

Lle bydd achosion lluosog (dau neu fwy o achosion positif) yna defnyddir labordai Iechyd Cyhoeddus Cymru, lle caiff samplau eu cymryd gan unigolion sydd wedi'u hyfforddi er

mwyn helpu i reoli brigiad o achosion. Mae hyn yn golygu y gallwn ymateb i frigiadau o achosion mewn ffordd fwy hyblyg ac ymatebol gan gefnogi'r broses Profi, Olrhain a Diogelu.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim goblygiadau ariannol ychwanegol gan eu bod yn unol â pholisi presennol. Caiff goblygiadau ariannol profi yng Nghymru eu bodloni drwy gyfuniad o gyllid fel rhan o seilwaith uniongyrchol y DU a'r pecyn sefydlogi gwerth £800m a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 5 Awst i gefnogi GIG Cymru i barhau i ymateb i effaith argyfwng y coronafeirws, ac adfer ar ei ôl.

## Gwarchod

**Caiff yr argymhellion canlynol eu derbyn/derbyn mewn egwyddor**

### Argymhelliad 11

*Rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau i: sicrhau nad oes unrhyw achosion pellach o dorri data cleifion wrth symud ymlaen, a chyfathrebu'n well â phobl sydd wedi cael eu cynghori i warchod eu hunain. Mae angen dull clir, ymatebol, amserol a thryloyw sydd wedi'i strwythuro'n dda, a rhaid iddo fod yn rhan annatod o strategaeth y dyfodol o roi cymorth i'r grŵp agored iawn i niwed hwn o unigolion.*

### Argymhelliad 12

*Rhaid i Lywodraeth Cymru ail-edrych ar y trefniadau gyda'r prif archfarchnadoedd i sicrhau y gall fodloni ei hun y bydd digon o wasanaethau siopa bwyd ar-lein a danfon i'r cartref yn gallu ateb y galw, yn enwedig yn ystod y gaeaf sydd i ddod.*

### Argymhelliad 13

*Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod carfan o bobl nad ydynt ar y rhestr cleifion sydd i fod i warchod ond sydd fel arall yn agored i niwed neu fel arfer yn dibynnu ar wasanaethau siopa bwyd ar-lein a danfon i'r cartref. Rhaid i Lywodraeth Cymru edrych ar y ffordd orau o adnabod y bobl hyn a rhoi cymorth iddynt.*

### Argymhelliad 14

*Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad cyflym a phenodol o'r trefniadau cyfredol ar gyfer danfon meddyginiaethau i sicrhau eu bod yn gadarn, yn ddibynadwy, yn ddiogel ac yn gynaliadwy, ac yn gallu ateb y galw cyfredol a phwysau posibl yn y dyfodol, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.*

### Argymhelliad 15

*Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i adolygu'r trefniadau cymorth presennol ar gyfer pobl sy'n gwarchod eu hunain, a gweithredu gwelliannau yn ôl yr angen.*

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cau'r ymchwiliad i'r achos o dorri data a gododd heb gymryd unrhyw gamau rheoleiddio, gan gydnabod mai gwall dynol oedd hwn ac y cymerwyd camau unioni cyflym. Er bod y digwyddiad hwn yn annerbyniol, mae gwersi wedi'u dysgu ac rydym yn ymrwymedig i barhau i wella yn y maes hwn.

Mae grŵp data wedi cael ei sefydlu o fewn Llywodraeth Cymru i sicrhau bod materion data priodol yn cael eu datrys yn brydlon wrth fynd ati i rannu data ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill. Mae rhagor o waith i ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi cael ei wneud lle gallai rhanddeiliaid drafod trefniadau gwarchod a deunyddiau cyfathrebu cysylltiedig yn uniongyrchol â swyddogion. Mae hyn wedi dylanwadu ar gynnwys ein deunyddiau cyfathrebu ynghyd â'r ffordd y cânt eu dosbarthu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda saith manwerthwr bwyd mawr, gan rannu data er mwyn eu galluogi i flaenoriaethu archebion ar-lein a gwasanaethau danfon i'r cartref i bobl sy'n gwarchod eu hunain. Rydym yn croesawu'r ymdrech y mae'r manwerthwyr hyn wedi'i gwneud i ehangu eu gwasanaethau archebu ar-lein a danfon i'r cartref, ac i flaenoriaethu pobl sy'n gwarchod eu hunain.

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn cyfarfod yn rheolaidd â manwerthwr bwyd mawr ac mae ei swyddogion hefyd wedi cynnal trafodaethau â saith manwerthwr mawr sy'n cynnig gwasanaethau archebu ar-lein. Mae slotiau danfon ar-lein â blaenoriaeth yn gweithio'n dda ac mae manwerthwyr wedi cadarnhau y byddant yn parhau i sicrhau bod slotiau â blaenoriaeth ar gael i bobl sy'n gwarchod eu hunain ar ôl i gyngor gwarchod ddod i ben am y tro ar 16 Awst. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod pobl sy'n agored i niwed ac mae wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sydd wedi bod yn cefnogi'r grwpiau hyn, gan ddarparu mynediad i fwyd, cymorth a chynlluniau cyfeillio ehangach. Ysgrifennodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at arweinydd pob awdurdod lleol ym mis Ebrill er mwyn canfod faint o gymorth a ddarparwyd i bobl agored i niwed nad oeddent yn gwarchod eu hunain, a chafodd ei sicrhau bod cymorth effeithiol ar waith. Mae Gweinidogion wedi cytuno y caiff llythyr pellach ei anfon at arweinwyr a Chynghorau Gwirfoddol ym mis Awst er mwyn iddynt allu diweddaru'r wybodaeth a ddarparwyd ganddynt.

Mae nifer y gwirfoddolwyr a recriwtiwyd i gefnogi'r Cynllun Gwirfoddolwyr a chapasiti y Post Brenhinol yn rhagori ar y galw cyfredol gan fferyllfeydd a meddygon fferyllol ledled Cymru. Yn dilyn cyngor y Prif Swyddog Meddygol i ddod â threfniadau gwarchod i ben dros dro, bydd y Cynllun Dosbarthu gan Wirfoddolwyr a Gwasanaeth y Post Brenhinol yn parhau, fel y cynlluniwyd, i gefnogi'r cleifion hyn tan 30 Medi. Mae'r trefniadau i ddosbarthu meddyginiaethau ar gyfer COVID-19 wedi cael eu hadolygu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a chyfranogwyr.  Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn llywio'r angen i ymateb i gynnydd pellach yn yr hydref neu i frigiadau lleol o drosglwyddo'r feirws yn y gymuned.

Mewn perthynas â'r trydydd sector, mae bron £7m wedi'i ddosbarthu mewn grantiau a benthyciadau brys i 150 o sefydliadau drwy Gronfa Frys y Sector Gwirfoddol ers dechrau'r pandemig, gan fod o fudd i dros 730,000 o unigolion o bosibl. Mae pob Cyngor Gwirfoddol wedi cael £25,000 i gefnogi sefydliadau lleol i ymateb i anghenion eu cymuned; ar 31 Gorffennaf, roedd y gronfa hon wedi cefnogi dros 200 o sefydliadau.

**Goblygiadau Ariannol –** Dyrennir cyllid ar gyfer prosesau cyfathrebu yn ymwneud â threfniadau gwarchod drwy gyllidebau rhaglenni ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mewn perthynas ag Argymhelliad 13, o dan y cynllun Profi, Olrhain a Diogelu, cytunwyd ar £1m fel rhan o'r Gronfa Galedi Llywodraeth Leol i gefnogi awdurdodau lleol gydag elfen 'Diogelu' y cynllun er mwyn helpu'r bobl hynny y mae angen iddynt hunanynysu o ganlyniad i fesurau olrhain cysylltiadau ac nad ydynt yn gallu cael cymorth gan deulu na ffrindiau. Caiff hyn ei gynnwys yn llinyn cyffredinol y gronfa a pharheir i adolygu’r swm sydd ar gael.

Mewn perthynas ag argymhelliad 14, mae £5.8m o fewn y Fframwaith Contractiol Fferylliaeth Gymunedol wedi cael ei haddasu i gefnogi'r trefniadau hyn drwy gydol 2020-21 os bydd angen, ac mae £7m wedi cael ei ddosbarthu i'r trydydd sector.

**Derbynnir yr argymhellion hyn mewn egwyddor**

## Argymhelliad 16

*Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau clir ar gael i'r rhai sy'n gwarchod ynghylch cyrchu gwasanaethau gofal iechyd arferol a sut i wneud hyn yn ddiogel.*

## Argymhelliad 17

*Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau clir yn cael eu darparu ar gyfer teuluoedd a gofalwyr pobl sy'n gwarchod ynghylch dychwelyd i'r gwaith, a'r cymorth y gallant ei ddisgwyl.*

Ysgrifennodd y Prif Swyddog Meddygol at y bobl hynny sy'n gwarchod ynghylch beth i'w wneud mewn perthynas â mynd i leoliadau iechyd ar gyfer gofal rheolaidd ac apwyntiadau sydd wedi'u cynllunio. Y cyngor cynnar oedd osgoi'r lleoliadau lle bynnag y bo'n bosibl a phan oedd angen cyngor neu driniaeth ar unigolyn, roedd yn bwysig cyfathrebu'n uniongyrchol â'r lleoliad er mwyn rhoi gwybod eich bod yn gwarchod eich hun.

Newidiodd y cyngor ar 13 Mehefin mewn perthynas â gwisgo masgiau wyneb, i nodi y dylai pobl a oedd wedi derbyn llythyr gwarchod gan y Prif Swyddog Meddygol (gan gynnwys gofalwr claf neu blentyn sydd ar y Rhestr o'r Cleifion a Warchodir yng Nghymru) wisgo masg meddygol pan nad oedd modd osgoi'r angen iddynt ymweld â lleoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol. Dylai masgiau gael eu darparu i bobl yn y categori hwn os oedd angen.

Nod Llywodraeth Cymru yw darparu canllawiau a fyddai'n cefnogi'r holl unigolion hynny o ran pa gamau priodol i'w cymryd. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar gyflogwyr i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â COVID-19 yn y gweithle. Mae cyngor ar gael ar y we-dudalen 'Gwaith, sgiliau a chefnogaeth ariannol' ar sut i gadw'n ddiogel yn y gwaith a chael help gydag arian neu sicrwydd cyflogaeth. https://llyw.cymru/gwaith-sgiliau-chefnogaeth-ariannol

**Goblygiadau Ariannol** – Dim.

## Y Strategaeth Profi, Olrhain a Diogelu

**Derbynnir yr argymhelliad hwn**

## Argymhelliad 18

*Rhaid i Lywodraeth Cymru achub ar y cyfle yn awr i adolygu'r holl drefniadau i sicrhau bod graddfa'r isadeiledd, y gwaith o gyflwyno technoleg a'r ymarferion recriwtio angenrheidiol ar waith i sicrhau system olrhain cysylltiadau effeithlon sy'n gweithredu'n effeithiol. Rhaid i'r system beidio â dioddef yn sgil diffyg cynllunio, adnoddau neu dechnoleg, pan fu amser i baratoi a chyfleoedd pwysig ar gyfer dysgu.*

Mae'r system Profi, Olrhain a Diogelu wedi cael ei dylunio i raddfa, fel sy'n ofynnol, gyda chynlluniau rhanbarthol i gefnogi hyn. Mae gwaith i gynllunio adnoddau, seilwaith a chapasiti wedi cael ei wneud yn seiliedig ar y modelau a'r cyngor gwyddonol diweddaraf.

Gan weithio mewn partneriaeth agos ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, mae gwelliannau a mesurau mireinio yn cael eu rhoi ar waith yn gyflym ac ar draws y system gyfan.

**Derbynnir yr argymhelliad hwn mewn egwyddor**

## Argymhelliad 19

*Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, geisio sicrhau bod canlyniadau pob prawf yn cael eu dychwelyd o fewn 24 awr.*

Mae cyflymder yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y system olrhain cysylltiadau yn effeithiol. Mae arweinwyr profi byrddau iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio'n gyflym ar nifer o welliannau, gan gynnwys:

- gwella prosesau labordai er mwyn datblygu effeithlonrwydd a chyflymder

- Darparu staff ac offer ychwanegol ar gyfer labordai rhanbarthol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd, Ysbyty Singleton, Abertawe ac Ysbyty Glan Clwyd, y Rhyl fel y gallant weithredu 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

- Creu chwe labordy mewn ysbytai acíwt ar draws Cymru, a fydd ag offer profi cyflym, mewn llai na 4 awr, ac offer profi newydd ar gyfer cyflyrau eraill i ryddhau staff i weithio ar brofion COVID-19. Bydd y labordai hyn ar gael rhwng 8:00am a 10:00pm, saith diwrnod yr wythnos.

**Goblygiadau Ariannol –** Tra bod gwaith yn parhau gyda GIG Cymru ar hyn, caiff cyllid ar gyfer gwelliannau ei ddarparu o'r pecyn sefydlogi gwerth £800m i gefnogi GIG Cymru. Cymeradwywyd £32 miliwn o gyllid i gyflymu amseroedd profi.

**Gwrthodir yr argymhelliad hwn.**

## Argymhelliad 20

*Dylai Llywodraeth Cymru symud ar unwaith i system lle mae olrhain cysylltiadau yn cychwyn naill ai ar ôl derbyn prawf positif, neu o fewn 24 awr* **.**

Bydd y gwaith o olrhain cysylltiadau yn dechrau ar ôl cael prawf positif. Mae'r mwyafrif helaeth o'r bobl a gaiff eu profi yn cael canlyniad negatif (93.5% yn negatif ar 9 Awst). Gallai dechrau olrhain cysylltiadau cyn gwybod canlyniadau profion gael effaith negyddol sylweddol ar y cysylltiadau hynny y gofynnir iddynt hunanynysu'n ddiangen, a thanseilio hyder yn y system. Byddai hefyd yn gofyn am gryn dipyn o adnoddau ychwanegol yn y timau olrhain cysylltiadau. Mae ein dull yn ystyried y cyngor meddygol diweddaraf ac effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach gofyn i gysylltiadau agos hunanynysu. Mae'r sefyllfa hon yn datblygu a chaiff ei hadolygu'n barhaus.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim costau ychwanegol. Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i Fyrddau Iechyd ac awdurdodau lleol er mwyn cefnogi'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu

**Derbynnir yr argymhelliad hwn mewn egwyddor**

## Argymhelliad 21

*Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod systemau ar waith i fonitro’r gyfradd negyddol ffug yn effeithiol, ac i sicrhau bod profion yn cael eu cyflwyno’n gyfrifol ac yn hyblyg er mwyn lleihau’r gyfradd negyddol ffug.*

Mae'r Strategaeth Profi, y cyfeiriwyd ati'n flaenorol, yn amlinellu sut y darperir profion yng Nghymru. Mae nifer isel yr achosion o’r clefyd yn debygol o gynhyrchu cyfradd uwch o ganlyniadau positif anghywir a chanlyniadau negatif anghywir. Mae'n anodd mesur canlyniadau negatif anghywir, ond mae gwaith yn mynd rhagddo i amcangyfrif cyfraddau negatif anghywir yn seiliedig ar sensitifrwydd clinigol profion.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim costau ychwanegol. Cymerir cyllid o gyllidebau y cytunwyd arnynt ar gyfer profi, fel y disgrifir uchod.

**Derbynnir yr argymhelliad hwn**

## Argymhelliad 22

*Mewn ymgynghoriad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, dylai Llywodraeth Cymru:*

- *gyhoeddi strategaeth i gynyddu nifer y bobl sy'n dod ymlaen i gael prawf er mwyn defnyddio'r capasiti profi sydd ar gael yn llawnach*
- *cymryd camau yn awr i roi sicrwydd y bydd modd cyflawni 20,000 o brofion y dydd*
- *sicrhau bod mesurau diogelwch ar waith i sicrhau bod capasiti o gyfleusterau y tu allan i Gymru yn addas i'r diben ac yn ddigonol i ateb y galw*
- *sicrhau bod y system yn gallu ymateb i gynnydd yn y galw, ac ehangu i'w ddiwallu.*

Mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Iechyd Lleol ac Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU, mae seilwaith profi cenedlaethol wedi cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod y rhai y mae angen prawf arnynt yn gallu cael un yn gyflym ac yn hawdd. Mae gennym strategaeth cyfathrebu sy'n canolbwyntio ar bwy ddylai gael prawf, sut a phryd, gan annog y rhai hynny sydd â symptomau i gael eu profi.

Mae gwaith modelu helaeth yn helpu i lywio gofynion ar gyfer cynllunio capasiti. Gellir defnyddio Unedau Profi Symudol Wrth Gefn yn hyblyg er mwyn helpu i ymateb i frigiadau o achosion gan sicrhau y cânt eu rheoli mewn ffordd ystwyth. Rydym eisoes wedi gweld y rhain yn cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn ymateb i frigiadau o achosion yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim costau ychwanegol. Caiff goblygiadau ariannol profi yng Nghymru eu bodloni drwy gyfuniad o gyllid fel rhan o seilwaith uniongyrchol y DU a'r pecyn sefydlogi gwerth £800m a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 5 Awst i gefnogi GIG Cymru i barhau i ymateb i effaith argyfwng y coronafeirws, ac adfer ar ei ôl

**Derbynnir yr argymhelliad hwn**

## Argymhelliad 23

*Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o frys, adolygu ei phenderfyniadau ynghylch nifer y staff sydd eu hangen ar gyfer olrhain cysylltiadau er mwyn sicrhau ei hun a'r cyhoedd y gall y system yn gallu gweithredu'n effeithiol pan fydd y galw ar ei uchaf, ac y gall fod yn hyblyg ac ymateb yn ôl newidiadau yn y galw. Dylai gyhoeddi canlyniadau'r adolygiad*.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o ran nifer y staff sydd eu hangen i olrhain cysylltiadau. Y polisi yw datblygu'r arbenigedd olrhain cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli yn ein hawdurdodau lleol a'n byrddau iechyd ac adeiladu arno er mwyn creu gweithlu y gellir ei gynyddu neu ei leihau yn gyflym gan ddibynnu ar amgylchiadau.

Mae'r dull partneriaeth hwn wedi ein galluogi i sefydlu gweithlu o ryw 700 o bobl yn gyflym, sy'n fwy na digon i ymdopi â'r nifer isel o bobl sy'n cael canlyniadau prawf positif ar hyn o bryd. Roedd y dybiaeth gychwynnol y byddai angen gweithlu o 1,000 o swyddogion olrhain cysylltiadau yn seiliedig ar waith modelu cynharach. Pe byddem yn gweld ail don ar y raddfa hon, byddai angen gweithlu ag oddeutu 1,800 o swyddogion. Mae'r holl fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol wrthi'n rhoi eu cynlluniau hyfforddi a recriwtio gweithlu ar waith ar hyn o bryd a chaiff y sefyllfa ei monitro'n agos ai hailasesu'n llawn ym mis Medi.

**Derbynnir yr argymhelliad hwn**

## Argymhelliad 24

*Rhaid i Lywodraeth Cymru gadarnhau, fel mater o flaenoriaeth, y pecyn cymorth ariannol i awdurdodau lleol i gefnogi'r gwaith o gyflogi gweithwyr olrhain proffesiynol, yn hytrach na dibynnu ar adleoli staff presennol.*

Bydd angen cymorth ac adnoddau ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Mae hyd at £45m ar gael y flwyddyn ariannol hon i gefnogi gweithlu olrhain cysylltiadau â chyfanswm o 1,800 o swyddogion gyda'r capasiti i olrhain cysylltiadau hyd at 11,000 o achosion positif newydd bob wythnos. Caiff y sefyllfa hon ei hadolygu'n barhaus.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Mae £45m wedi cael ei ddarparu ar gyfer 2020-21. Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i Fyrddau Iechyd ac awdurdodau lleol er mwyn cefnogi'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu hadolygu'n barhaus.

**Derbynnir yr argymhelliad hwn**

## Argymhelliad 25

*Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda'i phartneriaid, sicrhau system o negeseuon cyhoeddus clir ac ailadroddus - ar lefel genedlaethol a lleol - ynghylch cyfrifoldebau unigolion i hunanynysu os oes ganddynt symptomau, a phwysigrwydd hunanatgyfeirio ar frys i gael prawf.*

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn arwain ymgyrch barhaus i sicrhau ymwybyddiaeth y cyhoedd o COVID-19 ers dechrau'r argyfwng. Mae'r gwaith hwn wedi bod, ac yn parhau i fod, yn hanfodol wrth gyfleu'r cyngor iechyd diweddaraf i'r cyhoedd. Mae'n sicrhau bod pawb yn deall sut i gael prawf cyn gynted ag y byddant yn dechrau dangos symptomau, ac yn rhoi sicrwydd iddynt ynghylch rôl olrhain cysylltiadau wrth gadw Cymru'n ddiogel rhag brigiadau o achosion yn y dyfodol. Mae partneriaid megis y GIG, awdurdodau lleol a thimau cyfathrebu gwasanaethau cyhoeddus ehangach wedi gallu defnyddio'r deunyddiau ymgyrchu. Bydd yr ymgyrch yn parhau i ganolbwyntio ar bwy ddylai gael prawf, sut a phryd, ynghyd â rôl olrhain cysylltiadau wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim costau ychwanegol. Cymerir y costau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Derbynnir yr argymhelliad hwn**

## Argymhelliad 26

*Rhaid i Lywodraeth Cymru archwilio gyda Llywodraeth y DU y trefniadau ar gyfer tâl salwch statudol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n gorfod hunanynysu. Dylid gwneud hyn ar frys.*

Mae tâl salwch statudol yn fater sydd heb ei ddatganoli ac mae Gweinidogion yn parhau i godi effaith ariannol hunanynysu ar lefel y DU. Mae'r Prif Weinidog a'r Gweinidog Iechyd wedi ysgrifennu'n ffurfiol at Lywodraeth y DU ynglŷn â'r mater hwn ond heb gael ateb cadarnhaol. Mae'r Gweinidog Iechyd wedi codi'r mater hwn yn rheolaidd yng nghyfarfodydd Gweinidogion Iechyd y pedair gwlad. Mae gan weithwyr sy'n hunanynysu hawl i dâl salwch statudol ar gyfer pob diwrnod y byddant yn hunanynysu ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, gan gynnwys hunanynysu am o leiaf 4 diwrnod ar ôl ei gilydd (gan gynnwys diwrnodau nad ydynt yn ddiwrnodau gwaith). Mae pobl sydd wedi cael eu holrhain ac y mae'n rhaid iddynt hunanynysu am eu bod wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi cael canlyniad prawf coronafeirws positif hefyd wedi'u cynnwys o dan y rheoliadau a wnaed gan Lywodraeth y DU ar 27 Mai 2020, yn amodol ar feini prawf cymhwysedd.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim.

**Derbynnir yr argymhelliad hwn**

## Argymhelliad 27

*Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu mwy o wybodaeth am y protocol ar drefniadau trawsffiniol.*

Mae prosesau ar waith er mwyn gallu rhannu data a gwybodaeth rhwng Cymru a Lloegr i gefnogi'r gwaith o olrhain cysylltiadau. Caiff gwybodaeth ei rhannu'n ddyddiol rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a Public Health England drwy system electronig ddiogel a chaiff y broses ei hategu gan gytundeb rhannu data rhwng y ddau sefydliad. Y system Profi, Olrhain a Diogelu neu 'Test and Trace' lle mae'r person yn byw fydd yn arwain wrth gysylltu â'r unigolyn.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

## Goblygiadau Ariannol i lywodraeth leol/cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion

**Derbynnir yr argymhelliad hwn**

### Argymhelliad 28

*Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o frys, roi ar waith ymrwymiad cyllid gwarantedig byrdymor i gefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion i liniaru effaith ariannol Covid-19. Rhaid datblygu'r ymrwymiad hwn mewn ymgynghoriad â darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys llywodraeth leol.*

Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu dros £155m ychwanegol i dalu am y costau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth ymateb i COVID-19. Mae hyn yn cynnwys ychydig llai na £63m i'w helpu i dalu'r costau ychwanegol y mae darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion yn mynd iddynt.

Cydnabyddir y pwysau ariannol sydd ar awdurdodau lleol o ganlyniad i golli incwm, ac rydym wedi cytuno ar £78m ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol gyda'r costau hyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Trysoryddion Cymru er mwyn deall effaith y pandemig ar lywodraeth leol ac yn gweithredu fel sydd angen i fynd i'r afael â hyn.


**Goblygiadau Ariannol –** Mae oddeutu £155m wedi cael ei ddarparu i awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn helpu i dalu costau ychwanegol yn sgil COVID-19.

Mae'r gaeaf bob amser yn gyfnod heriol i'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol, ond bydd materion a phryderon ychwanegol i'w hystyried y gaeaf hwn yn arbennig. Mae Cynllun Diogelu'r Gaeaf wrthi'n cael ei ddatblygu a bydd yn ceisio darparu fframwaith cenedlaethol er mwyn i sefydliadau gydweithredu i gynhyrchu cynlluniau integredig a fydd yn darparu gofal di-dor ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn gynharach yr wythnos hon, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fwy na £260m o gyllid ar gyfer awdurdodau lleol hefyd. Bydd hyn yn eu helpu i baratoi eu cyllidebau a sicrhau bod modd talu unrhyw gostau ychwanegol ac ymdopi â'r gofynion glanhau ychwanegol i gefnogi ein dull ymateb ar y cyd i COVID-19.

Byddaf yn diweddaru aelodau'r Pwyllgor pan gaiff Cynllun Diogelu'r Gaeaf ei gyflwyno. Gobeithiaf y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Ymateb i'r argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru:**



| **Cyfarpar Diogelu Personol** | |
|---|---|
| **Argymhelliad 1**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati ar fyrder i:<br>▪ gyhoeddi strategaeth ar gyfer sicrhau cyflenwad gwydn o gyfarpar diogelu personol;<br>▪ casglu ynghyd lefelau digonol o gyfarpar diogelu personol priodol ar gyfer unrhyw achos yn y dyfodol;<br>▪ adolygu'r cyfarpar diogelu personol y mae wedi'i gasglu ynghyd i sicrhau ei fod yn parhau i fod o ansawdd digonol a'i fod yn addas at y diben, gan gynnwys bod y dyluniad a'r ffit yn briodol ar gyfer pawb sy'n ei wisgo ac yn addas ar gyfer staff, cleifion neu ofalwyr sy'n fyddar neu â nam ar eu clyw;<br>▪ cyhoeddi strategaeth ar gyfer sicrhau gwydnwch y trefniadau dosbarthu ar gyfer cyfarpar diogelu personol;<br>▪ gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod canllawiau ar gyfarpar diogelu personol yn cael eu diweddaru yng ngoleuni'r cyngor gwyddonol diweddaraf, a chyfathrebu'r cyngor hwn yn glir i'r staff. | |
| **Ymateb – Derbyn**<br>Mae cynllun strategol ar gyfer Caffael Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei ddatblygu. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gydlynu drwy'r Grŵp Cyflenwi, Cyrchu a Dosbarthu Cyfarpar Diogelu Personol, a gaiff ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Arweinwyr Gweithredol Cyfarpar Diogelu Personol Byrddau Iechyd Lleol a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Caiff y cynllun ei ddatblygu fel rhan o'r paratoadau ehangach ar gyfer y gaeaf a wneir gan Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.<br><br>Bydd y cynllun strategol yn cynnwys camau i gynyddu stociau ac ehangu capasiti storio er mwyn sicrhau bod gennym 'glustog' priodol o gyfarpar diogelu personol ar gyfer y gaeaf, ynghyd ag ailgyflenwi ein stoc pandemig. Mae buddsoddiadau diweddar mewn system rheoli stociau a'r gallu i fodelu wedi sicrhau bod gennym fwy o wybodaeth erbyn hyn am 'gyfradd waredu' cyfarpar diogelu personol, ynghyd â'r gallu i ddadansoddi'r galw a'r cyflenwad fesul cynnyrch a fesul sector wrth inni baratoi at y gaeaf. Bydd y systemau hyn yn parhau i gael eu mireinio a'u datblygu. Er mwyn datblygu gwydnwch ymhellach, bydd y cynllun yn ystyried cyrchu nwyddau gan gyflenwyr rhyngwladol cyn gynted â phosibl a chynnwys mwy o weithgynhyrchwyr cyfarpar diogelu personol yng Nghymru mewn llinellau cyflenwi.<br><br>Mae Cymru wedi cyfrannu at lunio canllawiau, drwy fod yn aelod o Gell Atal a Rheoli Heintiau'r DU, ac yn cydymffurfio â chanllawiau'r DU ar atal a rheoli heintiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth (ynghyd â'r tablau cysylltiedig ar Gyfarpar Diogelu Personol). | |

| |
|---|
| https://www.gov.uk/government/publications/wuhan-novel-coronavirus-infection-prevention-and-control<br><br>Mae Grŵp Trosglwyddiadau Nosocomiaidd wedi cael ei sefydlu i gynnwys Llywodraeth Cymru a'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, a chaiff ei gadeirio ar y cyd gan y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol a'r Prif Swyddog Nyrsio. Diben y grŵp yw cynnig cyngor, cymorth ac arweiniad o ran y camau y dylid eu cymryd i leihau trosglwyddiadau nosocomiaidd fel bod gwasanaethau'n gallu ailddechrau'n ddiogel.<br><br>Mae canllawiau atal a rheoli heintiau, gan gynnwys rhai ar gyfarpar diogelu personol, yn rhan hanfodol o gylch gwaith y Grŵp Trosglwyddiadau Nosocomiaidd ac, er mwyn hwyluso hyn, mae is-grŵp wedi cael ei ffurfio a fydd yn canolbwyntio ar atal a rheoli heintiau. Caiff y grŵp hwn ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Nyrsio. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ynghyd ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac, ymysg pethau eraill, bydd yn datblygu'r safonau hyfforddiant craidd ar gyfer atal a rheoli heintiau ac yn diwygio safonau glanhau.Bydd y grŵp atal a rheoli heintiau yn goruchwylio arolwg a dadansoddiad anghenion hyfforddi mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a chapasiti atal a rheoli heintiau gweithluoedd mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi cael cyfarwyddyd i ddatblygu addysg a hyfforddiant safonol a chyfredol ar atal a rheoli heintiau i Gymru.<br><br>**Goblygiadau ariannol:** Bydd costau cyfarpar diogelu personol a fydd yn deillio o ddatblygu'r cynllun strategol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael eu talu drwy'r pecyn sefydlogi gwerth £800m a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 5 Awst i gefnogi GIG Cymru i barhau i ymateb i effaith argyfwng y coronafeirws, ac adfer ar ei ôl. |
| **Argymhelliad 2**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu ei systemau ei hun i sicrhau bod y mecanweithiau ar waith i alluogi gweithgynhyrchwyr yng Nghymru i ymateb yn gyflym wrth gyflenwi cyfarpar diogelu personol priodol pe bai unrhyw achosion yn y dyfodol. Rhaid i hyn gynnwys cael trefniadau caffael sy'n gallu ymateb yn amserol. |
| **Ymateb – Derbyn**<br>Mae gan fusnesau yng Nghymru rôl bwysig i'w chwarae o ran atgyfnerthu ein gallu i wrthsefyll ail don o COVID-19 a'r risgiau a berir gan Brexit heb gytundeb. Bydd ein cynllun caffael cyfarpar diogelu personol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfuno gweithgynhyrchu lleol â chyflenwadau rhyngwladol, ac rydym yn rhagweld y bydd archebion yn cynyddu gan fusnesau yng Nghymru dros y flwyddyn nesaf wrth iddynt ddechrau cynhyrchu cyfarpar diogelu personol. |

Sefydlwyd CERET (Tîm Peirianneg Gofynion Cyfarpar Hanfodol), a gaiff ei gadeirio gan Ddiwydiant Cymru, ym mis Mawrth er mwyn creu dolen gyswllt rhwng y sector iechyd a diwydiant a hwyluso llinell gyflenwi ar gyfer cyfarpar diogelu personol. Mae CERET wedi cefnogi nifer o sefydliadau gweithgynhyrchu yng Nghymru er mwyn dod â'r gallu i weithgynhyrchu i Gymru.

Bydd Diwydiant Cymru a'i bartneriaid yn hanfodol wrth lywio ein gwaith ymgysylltu â busnesau yn y dyfodol ynghylch gofynion cyfarpar diogelu personol ynghyd â'r potensial i fodloni mwy o'n gofynion caffael eraill yn y wlad hon.
Rydym wedi defnyddio'r ddarpariaeth COVID-19 gyfredol ar gyfer dyfarniadau caffael uniongyrchol er mwyn cynnwys busnesau lleol mewn cadwyni cyflenwi cyfarpar diogelu personol. Rydym yn awyddus i barhau i ddefnyddio pob dull posibl fel y gall y busnesau hynny a gamodd i'r adwy ar bwynt critigol pan ddechreuodd y pandemig barhau i gael mynediad at gontractau cyhoeddus fel y gallwn ddefnyddio gwariant cyhoeddus yn well i gefnogi llesiant economaidd a chymdeithasol ledled Cymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli.

**Argymhelliad 3**
Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan sefydliadau’r trydydd sector sy’n darparu gwasanaethau gofal hanfodol fynediad dibynadwy at gyfarpar diogelu personol priodol.

**Ymateb – Derbyn**
Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i gyflenwi cyfarpar diogelu personol i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Lle bydd sefydliadau'r trydydd sector yn gweithredu i gefnogi'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol statudol, byddant yn cael cyfarpar diogelu personol gan Fyrddau Iechyd Lleol neu awdurdodau lleol er mwyn cyflawni'r swyddogaethau hynny. Mae nifer o sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gofal meddygol, megis hosbisau, wedi bod yn rhan o ddosbarthiad craidd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru am nifer o flynyddoedd ac mae hyn wedi parhau drwy gydol yr ymateb i COVID-19.

Mewn perthynas â gofal cymdeithasol, mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn darparu cyfarpar diogelu personol yn uniongyrchol i awdurdodau lleol drwy ei Storfeydd Cyfarpar ar y Cyd er mwyn eu dosbarthu ymlaen i ddarparwyr gofal. Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn parhau i gyrchu a dosbarthu cyfarpar diogelu personol i awdurdodau lleol er mwyn diwallu anghenion y sector gofal cymdeithasol am weddill y flwyddyn ariannol hon, gan gynnal cyflenwad sefydlog o gyfarpar diogelu personol drwy gydol y cyfnod adfer.

Rydym yn cydnabod mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i adnabod y darparwyr gofal sy'n gweithredu yn eu hardal leol y mae angen cyfarpar diogelu personol arnynt, gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau'r trydydd sector. Gan y bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cyflenwi cyfarpar diogelu personol i ddiwallu'r angen a nodir gan awdurdodau

| | |
|---|---|
| lleol, nid ydym yn credu bod angen cael llwybr dosbarthu uniongyrchol ychwanegol i sefydliadau'r trydydd sector, ac ni fyddai hyn yn ymarferol.<br><br>**Goblygiadau Ariannol** – Dim goblygiadau ariannol ychwanegol. Caiff hyn ei gwmpasu yn y cynllun strategol ar gyfer cyfarpar diogelu personol y cyfeirir ato uchod. | |
| **Profi** | |
| **Argymhelliad 4**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru, a'i phartneriaid, sicrhau bod mynediad lleol at brawf i unrhyw un sydd ei angen, yn ôl yr angen. Mae angen i feddygon teulu a gofal sylfaenol fod yn rhan annatod o'r trefniadau hyn. | |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Mae gennym seilwaith profi cenedlaethol erbyn hyn sy'n golygu y gall unrhyw un gael prawf os oes angen un arno. Mae rhwydwaith helaeth o gyfleusterau profi ar gael ledled Cymru, o Unedau Profi am y Coronafeirws i Unedau Profi Symudol a Chanolfannau Profi Torfol drwy Ffenest y Car. Mae pecynnau profi gartref ar gael i'r rhai hynny na allant fynd i safleoedd profi. Gall unigolion wneud cais am brofion ar-lein drwy lwyfan GOV.UK neu drwy ffonio 119. Byddwn yn parhau i archwilio darpariaeth yn y gymuned drwy safleoedd lleol ac yn defnyddio pecynnau profi gartref mewn lleoliadau cymunedol sy'n gallu darparu canlyniadau cyflym.<br><br>**Goblygiadau Ariannol** – Caiff goblygiadau ariannol profi yng Nghymru eu bodloni drwy gyfuniad o gyllid fel rhan o seilwaith uniongyrchol y DU a'r pecyn sefydlogi gwerth £800m a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 5 Awst i gefnogi GIG Cymru i barhau i ymateb i effaith argyfwng y coronafeirws, ac adfer ar ei ôl. | |
| **Argymhelliad 5**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda'i phartneriaid, sicrhau ymgyrch barhaus o negeseuon cyhoeddus clir, cyson ac ailadroddus - ar lefel genedlaethol a lleol - ynghylch pryd i geisio prawf Covid-19 a sut i wneud hyn. | |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn arwain ymgyrch barhaus i sicrhau ymwybyddiaeth y cyhoedd o COVID-19 ers dechrau'r argyfwng. Mae'r gwaith hwn wedi bod, ac yn parhau i fod, yn hanfodol wrth gyfleu'r cyngor iechyd diweddaraf i'r cyhoedd, gan sicrhau bod pawb yn deall sut i gael prawf cyn gynted ag y byddant yn dechrau dangos symptomau, ac yn rhoi sicrwydd iddynt ynghylch rôl olrhain cysylltiadau wrth gadw Cymru'n ddiogel rhag brigiadau o achosion yn y dyfodol.<br><br>Hyd yn hyn, mae'r ymgyrch wedi cynnwys deunyddiau digidol, sylw yn y cyfryngau, gwaith allgymorth cymunedol a hysbysebion mewn deunydd wedi'i argraffu, ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar y radio. Mae dros 450 o ddeunyddiau ymgyrchu wedi cael eu | |

cynhyrchu mewn 34 o ieithoedd gwahanol. Mae partneriaid megis y GIG, awdurdodau lleol a thimau cyfathrebu gwasanaethau cyhoeddus ehangach wedi gallu defnyddio'r deunyddiau ymgyrchu ar eu sianeli cyfathrebu mewnol ac allanol.

Bydd yr ymgyrch yn parhau i ganolbwyntio ar bwy ddylai gael prawf, sut a phryd, ynghyd â rôl olrhain cysylltiadau wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio.

Mae'r Grŵp Cynghori Technegol hefyd wedi creu Grŵp Cyfleu Risg a Deall Ymddygiadau, a gaiff ei gadeirio gan yr Athro Ann John, er mwyn rhoi cyngor ar gyfleu risgiau'n effeithiol, gwyddor ymddygiad ac ymgysylltu.

**Goblygiadau Ariannol –** Cymerir y costau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Argymhelliad 6**
Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod negeseuon clir a chyson yn yr un modd ynglŷn â gwerth profi, nid yn unig o ran adnabod pobl sydd â'r feirws ond i gynorthwyo gydag ymchwil a datblygu atebion at y dyfodol.

**Ymateb: Derbyn**
Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn arwain ymgyrch barhaus i sicrhau ymwybyddiaeth y cyhoedd o COVID-19 ers dechrau'r argyfwng. Mae'r gwaith hwn wedi bod, ac yn parhau i fod, yn hanfodol wrth gyfleu'r cyngor iechyd diweddaraf i'r cyhoedd, gan sicrhau bod pawb yn deall sut i gael prawf cyn gynted ag y byddant yn dechrau dangos symptomau, ac yn rhoi sicrwydd iddynt ynghylch rôl olrhain cysylltiadau wrth gadw Cymru'n ddiogel rhag brigiadau o achosion yn y dyfodol.

Hyd yn hyn, mae'r ymgyrch wedi cynnwys deunyddiau digidol, sylw yn y cyfryngau, gwaith allgymorth cymunedol a hysbysebion mewn deunydd wedi'i argraffu, ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar y radio. Mae dros 450 o ddeunyddiau ymgyrchu wedi cael eu cynhyrchu mewn 34 o ieithoedd gwahanol. Mae partneriaid megis y GIG, awdurdodau lleol a thimau cyfathrebu gwasanaethau cyhoeddus ehangach wedi gallu defnyddio'r deunyddiau ymgyrchu ar eu sianeli cyfathrebu mewnol ac allanol.

Bydd yr ymgyrch yn parhau i ganolbwyntio ar bwy ddylai gael prawf, sut a phryd, ynghyd â rôl olrhain cysylltiadau wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru sy'n arwain y gwaith o gyfathrebu â'r cyhoedd i recriwtio pobl i helpu gydag ymchwilio i atebion ar gyfer y dyfodol a'u datblygu.

| |
|---|
| Mae'r Grŵp Cynghori Technegol hefyd wedi creu Grŵp Cynghori Technegol ar Brofi, a gaiff ei gadeirio gan yr Athro Robin Howe, er mwyn rhoi cyngor ar brofion COVID-19 yng Nghymru. Mae sawl dogfen ganllaw gyhoeddus ar brofi wedi cael eu cyhoeddi gan y Grŵp Cynghori Technegol.<br><br>**Goblygiadau Ariannol** – Cymerir y costau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Argymhelliad 7**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda GIG Cymru, ddatblygu cynllun clir ar gyfer profion rheolaidd ac ailadroddus ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys staff asymptomatig. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Mae strategaeth profi Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf yn llyw.cymru yn amlinellu'r cynllun ar gyfer profi staff iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol i gytuno ar ddull system gyfan o brofi ar gyfer Cymru a byddwn yn parhau i adolygu ein polisi profion ar gyfer lleoliadau iechyd a gofal wrth i'r dystiolaeth ddatblygu. Byddwn yn cefnogi Byrddau iechyd Lleol drwy Fframwaith Cynllunio'r GIG i hwyluso  profion ar gyfer staff a chleifion. Yn unol â chyngor y Grŵp Cynghori Technegol, pan fydd cyffredinrwydd y clefyd yn isel, fel y mae ar hyn o bryd, mae angen cymryd gofal wrth ddefnyddio profion RT-PCR fel adnodd sgrinio. Mae nifer isel yr achosion o'r clefyd yn debygol o gynhyrchu cyfradd uwch o ganlyniadau positif anghywir a chanlyniadau negatif anghywir. Byddwn yn addasu ein dull gweithredu yn unol â'r angen mewn sefyllfaoedd cyffredinrwydd uchel ac yn unol â chyngor gwyddonol.<br><br>Yng nghyd-destun sgrinio gweithwyr hanfodol, gall hyn arwain at wahardd cryn nifer o unigolion o'r gwaith yn ddiangen ac mae angen cydbwyso hyn yn erbyn y risg o drosglwyddo'r feirws i gleifion, yn enwedig pan fyddant yn agored i niwed ac mewn perygl o ddioddef salwch mwy difrifol. Mae angen ystyried y cydbwysedd risgiau yn ofalus.<br><br>Rydym yn defnyddio capasiti profi ychwanegol y GIG ar hyn o bryd i brofi staff rheng flaen asymptomatig yn rheolaidd ac yn strategol fel rhan o fesurau atal a rheoli heintiau.<br><br>**Goblygiadau Ariannol** – Caiff goblygiadau ariannol profi yng Nghymru eu bodloni drwy gyfuniad o gyllid fel rhan o seilwaith uniongyrchol y DU a'r pecyn sefydlogi gwerth £800m a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 5 Awst i gefnogi GIG Cymru i barhau i ymateb i effaith argyfwng y coronafeirws, ac adfer ar ei ôl. |
| **Argymhelliad 8**<br>O ystyried y pryderon y bydd yr haint yn cyrraedd ail benllanw yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda'i phartneriaid, asesu'r galw tebygol am brofion yn y dyfodol a chymryd camau i sicrhau bod digon o allu i brofi fel y bydd unrhyw un |

| |
|---|
| sydd angen prawf yn gallu cael un yn gyflym ac yn hawdd. Fel rhan o hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru a phartneriaid aros yn effro i ddatblygiad gwahanol fathau o fodelau profi. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Mae nifer o newidynnau yn effeithio ar amcangyfrif yr angen am brofion:lledaeniad y clefyd, mynychder achosion newydd a chyfraddau trosglwyddo yn y gymuned, mynychder symptomau a'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar y ffordd orau o ddefnyddio'r profion i atal heintiau. Byddwn yn parhau i adolygu cyngor gwyddonol newydd, ein gwaith modelu a'n profiad rhyngwladol a byddwn yn cadw golwg ar y dystiolaeth hon ac yn addasu ein hamcangyfrifon o'r angen yn unol â hynny.<br><br>Mae ein capasiti samplu yn rhagori ar y gofynion cyfredol. Mae gan labordai yng Nghymru gapasiti i gynnal dros 15,000 o brofion y dydd ac mae gennym hefyd fynediad i gapasiti ehangach y DU, a ddefnyddir ar gyfer profi'r boblogaeth, profion gwyliadwriaeth mewn cartrefi gofal ac ar gyfer gweithwyr allweddol. Mae capasiti Cymru yn cael ei ddefnyddio i ymateb i angen clinigol a rheoli achosion o glefydau. Nid ydym yn defnyddio'r holl gapasiti hwn, sy'n adlewyrchu nifer isel yr achosion o'r clefyd ar hyn o bryd. Ond mae'n hanfodol ein bod yn cynnal y gallu i ymateb i gynnydd sydyn mewn anghenion profi sy'n codi o achosion. Fodd bynnag, rydym yn gwybod y bydd angen cynlluniau wrth gefn gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod y broses o'r dechrau i'r diwedd, trefniadau staffio ac adnoddau yn gallu ymdopi ag unrhyw gynnydd sydyn yn y galw.<br><br>Mae Is-grŵp Modelu'r Grŵp Cynghori Technegol wedi mireinio Comisiwn Swyddfa Cabinet y DU ar gyfer Sefyllfa Waethaf Resymol y Gaeaf gan ddefnyddio data Cymru. Mae dau Fodel R wedi'u datblygu ar gyfer Cymru er mwyn helpu i gefnogi gwaith cynllunio strategol ar gyfer y gaeaf.<br><br>**Goblygiadau Ariannol** – £250k yw'r costau ychwanegol ar gyfer gwaith Model R Cymru ar gyfer Sefyllfa Waethaf Resymol y Gaeaf, a thelir y costau hyn drwy gyllidebau rhaglenni ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| **Argymhelliad 9**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob claf sy'n cael ei ryddhau o'r ysbyty yn uniongyrchol i gartref gofal wedi'i brofi yn unol â'r arfer gorau diweddaraf i sicrhau bod preswylwyr a staff yn cael eu diogelu cystal â phosib. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Mae strategaeth profi Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf yn nodi y bydd pob darpar breswylydd newydd a phob claf a gaiff ei ryddhau o ysbyty i gartref gofal neu hosbis yn parhau i gael ei brofi cyn iddo gael ei dderbyn i gartref gofal er mwyn diogelu'r preswylwyr hynny sy'n byw mewn cartrefi gofal ar hyn o bryd.<br><br>Ar gyfer pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty, mae'n rhaid i ganlyniadau eu profion fod ar gael cyn iddynt gael eu rhyddhau. Rydym hefyd wedi sefydlu llwybr rhyddhau ychwanegol i bobl sy'n cael canlyniad positif neu sy'n heintus o hyd; byddant yn |

| |
|---|
| symud i ofal llai dwys a byddant yn cael eu profi eto er mwyn sicrhau eu bod yn cael canlyniad negatif cyn y byddant yn dychwelyd i'r cartref gofal.Mae hyn wedi'i nodi yn y canllawiau, *COVID-19: diweddariad i'r canllaw mewn perthynas â threfniadau gofal mwy a llai dwys* – https://llyw.cymru/gofynion-gwasanaeth-rhyddhau-or-ysbyty-covid-19.<br><br>Mae'r broses o brofi cleifion sy'n gadael cartrefi gofal wedi bod ar waith ers 2 Mai https://llyw.cymru/y-broses-brofi-ar-gyfer-cartrefi-gofal-covid-19-html?_ga=2.206210387.1505097473.1597607064-218697520.1568727279<br><br>Mae'r Grŵp Cynghori Technegol wedi cyhoeddi system brofi ddiwygiedig yn ddiweddar ar gyfer cleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty i gartrefi gofal https://llyw.cymru/y-grwp-cyngor-technegol-meini-prawf-profi-ar-gyfer-rhyddhau-cleifion-heb-symptomau-i-gartrefi-gofal?_ga=2.126526541.1505097473.1597607064-218697520.1568727279. Nod y canllawiau yw gwella llif drwy werthuso profion positif yn erbyn lefelau trothwy a phrofion gwrthgyrff positif.<br><br>**Goblygiadau Ariannol** – Dim goblygiadau ariannol ychwanegol gan eu bod yn unol â pholisi presennol. Caiff goblygiadau ariannol profi yng Nghymru eu bodloni drwy gyfuniad o gyllid fel rhan o seilwaith uniongyrchol y DU a'r pecyn sefydlogi gwerth £800m a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 5 Awst i gefnogi GIG Cymru i barhau i ymateb i effaith argyfwng y coronafeirws, ac adfer ar ei ôl. |
| **Argymhelliad 10**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau:<br>• bod profion mewn cartrefi gofal yn digwydd yn rheolaidd ac yn systematig,<br>• bod profion o'r fath yn cael eu gwneud gan unigolion sydd wedi cael hyfforddiant addas yn hytrach na defnyddio pecynnau profi gartref a<br>• bod gallu digonol i brofi i gefnogi'r ddau bwynt uchod. |
| **Ymateb – Derbyn mewn egwyddor/ gwrthod/ derbyn**<br>**Derbyn mewn egwyddor –** Mae profion rheolaidd a systematig wedi cael eu cynnal mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn ystod y misoedd diwethaf. Cafodd yr holl breswylwyr a'r staff mewn cartrefi gofal eu profi yn ystod mis Mai a mis Mehefin. Ar 15 Mehefin, gwnaethom gyflwyno polisi i brofi holl staff cartrefi gofal bob pythefnos, a chafodd ei estyn o gyfnod cychwynnol o bedair wythnos i wyth wythnos. Wrth gyhoeddi Strategaeth Profi Llywodraeth Cymru ar 15 Gorffennaf, nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai pa mor aml y câi staff cartrefi gofal eu profi yn lleihau i unwaith bob pythefnos, os byddai cyfraddau cyffredinrwydd yn parhau i fod yn isel. Mae canlyniadau'r profion wedi cael eu monitro'n agos ac mae'r cyfraddau cyffredinrwydd wedi parhau'n isel.  Fodd bynnag, fel rhan o ddatblygu dull mwy penodol o brofi sydd wedi'i wahaniaethu, os bydd |

cyfraddau cyffredinrwydd yn uchel o hyd neu os byddwn yn gweld cynnydd sydyn, efallai y caiff profion systematig, mwy rheolaidd eu cynnal neu eu hailgyflwyno.

Yn unol â Strategaeth Profi Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i brofion gael 'diben clir' a rhaid i brofion rheolaidd a systematig mewn cartrefi gofal gael eu llywio gan ddadansoddiadau o dystiolaeth wyddonol a dylid ystyried pa mor agored i niwed yw pobl a'r risg o drosglwyddo. Fodd bynnag, bydd gwaith yn parhau i gefnogi, hyfforddi a chynghori cartrefi gofal mewn perthynas â phrofi a mesurau rheoli heintiau.

**Gwrthod** – Mae Byrddau Iechyd Lleol wedi darparu hyfforddiant ar gyfer gweinyddu profion gan ddefnyddio pecynnau profi gartref ac mae canllawiau helaeth ar gael yn llyw.cymru.  Mae dosbarthu pecynnau profi gartref i gartrefi gofal fel canolfannau profi ategol wedi darparu dull effeithiol a hyblyg sy'n diwallu anghenion penodol cartrefi gofal.

**Derbyn –** Mae capasiti digonol yn labordai Cymru ac yn labordai 'Lighthouse' y DU er mwyn gallu cynnal profion mewn cartrefi gofal yng Nghymru.  Caiff profion eildro eu cynnal drwy ddilyn model 'Lighthouse Labs' gan ddefnyddio pecynnau profi gartref. Lle bydd achosion lluosog (dau neu fwy o achosion positif) yna defnyddir labordai Iechyd Cyhoeddus Cymru, lle caiff samplau eu cymryd gan unigolion sydd wedi'u hyfforddi er mwyn helpu i reoli brigiad o achosion. Mae hyn yn golygu y gallwn ymateb i frigiadau o achosion mewn ffordd fwy hyblyg ac ymatebol gan gefnogi'r broses Profi, Olrhain a Diogelu.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim goblygiadau ariannol ychwanegol gan eu bod yn unol â pholisi presennol. Caiff goblygiadau ariannol profi yng Nghymru eu bodloni drwy gyfuniad o gyllid fel rhan o seilwaith uniongyrchol y DU a'r pecyn sefydlogi gwerth £800m a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 5 Awst i gefnogi GIG Cymru i barhau i ymateb i effaith argyfwng y coronafeirws, ac adfer ar ei ôl.

## Gwarchod Pobl Eithriadol o Agored i Niwed

**Argymhelliad 11**

Rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau i:

- sicrhau nad oes unrhyw achosion pellach o dorri data cleifion wrth symud ymlaen, a
- chyfathrebu'n well â phobl sydd wedi cael eu cynghori i warchod eu hunain. Mae angen dull clir, ymatebol, amserol a thryloyw sydd wedi'i strwythuro'n dda, a rhaid iddo fod yn rhan annatod o strategaeth y dyfodol o roi cymorth i'r grŵp agored iawn i niwed hwn o unigolion.

**Ymateb – Derbyn**
Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cau'r ymchwiliad i'r achos o dorri data a gododd heb gymryd unrhyw gamau rheoleiddio, gan gydnabod mai gwall dynol oedd hwn ac y cymerwyd camau unioni cyflym. Er bod y digwyddiad hwn yn annerbyniol, mae gwersi wedi'u dysgu, gan gynnwys pa mor bwysig yw sicrhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agosach gyda chydweithwyr yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru er mwyn gwneud yn siŵr y gall materion a chwestiynau mewn perthynas â data gael eu datrys yn gyflym. Yn ogystal â threfnu cyfres fwy strwythuredig o gyfarfodydd gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru er mwyn trafod y Rhestr o'r Cleifion a Warchodir, mae grŵp data wedi cael ei sefydlu yn Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Uned Cyflenwi'r GIG er mwyn sicrhau bod materion data priodol yn cael eu trafod a'u datrys yn brydlon, gan rannu data ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill.

Rydym wedi ymateb i adborth gan randdeiliaid drwy gydol y broses warchod, ond rydym yn cydnabod bod gwaith ymgysylltu gweithredol â phartïon â diddordeb wedi bod yn ddiffygiol. Ers mis Mehefin, mae aelod rhan-amser o staff wedi bod yn ymroddedig i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau lle mae rhanddeiliaid wedi gallu trafod trefniadau gwarchod a deunyddiau cyfathrebu cysylltiedig â'r tîm polisi. Mae hyn wedi dylanwadu ar gynnwys ein deunyddiau cyfathrebu ynghyd â'r ffordd y cânt eu dosbarthu. Mae Prif Swyddog Meddygol Cymru a'i Ddirprwy wedi cyfarfod â'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl ar dri achlysur dros y misoedd diwethaf er mwyn clywed yn uniongyrchol gan y Grŵp hwn ac ymateb i ymholiadau. Rydym yn ymrwymedig i barhau i wella yn y maes hwn.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol. Dyrennir cyllid ar gyfer prosesau cyfathrebu yn ymwneud â threfniadau gwarchod drwy gyllidebau rhaglenni ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Argymhelliad 12**
Rhaid i Lywodraeth Cymru ail-edrych ar y trefniadau gyda'r prif archfarchnadoedd i sicrhau y gall fodloni ei hun y bydd digon o wasanaethau siopa bwyd ar-lein a danfon i'r cartref yn gallu ateb y galw, yn enwedig yn ystod y gaeaf sydd i ddod.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r prif fanwerthwyr sy'n cynnig slotiau danfon â blaenoriaeth ar-lein i bobl sy'n gwarchod eu hunain ac maent wedi ein sicrhau y byddant yn parhau i ddarparu'r rhain.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda saith manwerthwr bwyd mawr, gan rannu data er mwyn eu galluogi i flaenoriaethu archebion ar-lein a gwasanaethau danfon i'r cartref i bobl sy'n gwarchod eu hunain. Rydym yn croesawu'r ymdrech y mae'r manwerthwyr hyn wedi'i gwneud i ehangu eu gwasanaethau archebu ar-lein a danfon i'r cartref, ac i flaenoriaethu pobl sy'n gwarchod eu hunain.

Mae dros 269,939 o archebion wedi cael eu gosod am wasanaethau danfon i'r cartref gan bobl sy'n gwarchod eu hunain yng Nghymru, gydag 249,419 ohonynt wedi'u danfon ar hyn o bryd (wythnos sy'n gorffen 24 Gorffennaf 2020). Gall siopa ar-lein gwmpasu ardal ddaearyddol helaeth, a chaiff y gwasanaeth ei gynnig gan ddau fanwerthwr ledled Cymru gyfan. Mae trydydd darparwr yn cynnig gwasanaeth ychwanegol i'r mwyafrif helaeth o Gymru ac mae un arall yn darparu gwasanaeth i 89% o boblogaeth Cymru.

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn cyfarfod yn rheolaidd â manwerthwr bwyd mawr ac mae ei swyddogion hefyd wedi cynnal trafodaethau â saith manwerthwr mawr sy'n cynnig gwasanaethau archebu ar-lein. Mae slotiau danfon ar-lein â blaenoriaeth yn gweithio'n dda ac mae manwerthwyr wedi cadarnhau y byddant yn parhau i sicrhau bod slotiau â blaenoriaeth ar gael i bobl sy'n gwarchod eu hunain ar ôl i gyngor gwarchod ddod i ben am y tro ar 16 Awst.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**Argymhelliad 13**

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod carfan o bobl nad ydynt ar y rhestr cleifion sydd i fod i warchod ond sydd fel arall yn agored i niwed neu fel arfer yn dibynnu ar wasanaethau siopa bwyd ar-lein a danfon i'r cartref. Rhaid i Lywodraeth Cymru edrych ar y ffordd orau o adnabod y bobl hyn a rhoi cymorth iddynt.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod pobl sy'n agored i niwed oherwydd eu hoedran, am eu bod yn feichiog neu oherwydd eu cyflwr iechyd ac sydd felly'n wynebu mwy o risg o COVID-19. Gall pobl eraill fod yn agored i niwed yn economaidd ac yn methu fforddio bwyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol sydd wedi bod yn cefnogi'r grwpiau hyn drwy ddarparu bwyd, cymorth a gwasanaethau cyfeillio ehangach. Mae hyn wedi cynnwys cysylltu pobl â gwirfoddolwyr sy'n gallu mynd i siopa ar eu rhan neu gynnig cymorth arall.

Ysgrifennodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at arweinydd pob awdurdod lleol ym mis Ebrill er mwyn canfod faint o gymorth a ddarparwyd i bobl agored i niwed nad oeddent yn gwarchod eu hunain, a chafodd ei sicrhau bod cymorth effeithiol ar waith. Mae Gweinidogion wedi cytuno y caiff llythyr pellach ei anfon at arweinwyr a phrif weithredwyr Cynghorau Gwirfoddol Sirol ym mis Awst er mwyn iddynt allu diweddaru'r wybodaeth a ddarparwyd ganddynt.

**Goblygiadau Ariannol:** O dan y cynllun Profi, Olrhain a Diogelu, cytunwyd ar £1m fel rhan o'r Gronfa Galedi Llywodraeth Leol i gefnogi awdurdodau lleol gydag elfen 'Diogelu' y cynllun er mwyn helpu'r bobl hynny y mae angen iddynt hunanynysu o

ganlyniad i fesurau olrhain cysylltiadau ac nad ydynt yn gallu cael cymorth gan deulu na ffrindiau. Caiff hyn ei gynnwys yn llinyn cyffredinol y gronfa a pharheir i adolygu'r swm sydd ar gael.

Mewn perthynas â'r trydydd sector:

- Mae bron £7m wedi'i ddosbarthu mewn grantiau a benthyciadau brys i 150 o sefydliadau drwy Gronfa Frys y Sector Gwirfoddol ers dechrau'r pandemig, gan fod o fudd i dros 730,000 o unigolion o bosibl.
- Rydym hefyd wedi rhoi £25,000 i bob Cyngor Gwirfoddol er mwyn cefnogi sefydliadau lleol i ymateb i anghenion eu cymuned; ar 31 Gorffennaf, roedd y gronfa hon wedi cefnogi dros 200 o sefydliadau.
- Mae'r cyllid hwn wedi galluogi'r sefydliadau i gefnogi'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gwarchod eu hunain.

**Argymhelliad 14**

Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad cyflym a phenodol o’r trefniadau cyfredol ar gyfer danfon meddyginiaethau i sicrhau eu bod yn gadarn, yn ddibynadwy, yn ddiogel ac yn gynaliadwy, ac yn gallu ateb y galw cyfredol a phwysau posibl yn y dyfodol, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau i ddosbarthu meddyginiaethau ar gyfer COVID-19 mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a chyfranogwyr. Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn llywio'r angen i ymateb i gynnydd pellach yn yr hydref neu i frigiadau lleol o drosglwyddo'r feirws yn y gymuned.

Sefydlwyd y Cynllun Cenedlaethol Cyflenwi Presgripsiynau gan Wirfoddolwyr (y Cynllun Gwirfoddolwyr) a Gwasanaeth 'Tracked 24 Click & Drop' y Post Brenhinol (Gwasanaeth y Post Brenhinol) er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau ar bresgripsiwn yn parhau i fod ar gael i'r rhai a oedd yn gwarchod eu hunain a'r rhai a oedd yn hunanynysu heb ffordd arall o gael cymorth yn ystod y cyfyngiadau symud. Rhoddwyd y Cynllun Gwirfoddolwyr ar waith yn llawn erbyn 5 Mai a daeth Gwasanaeth y Post Brenhinol yn weithredol ledled Cymru ar 1 Mehefin. Mae cytundebau ar waith i barhau â'r ddau, a'u hariannu, tan 30 Medi.

Cyflwynwyd y Cynllun Gwirfoddolwyr a Gwasanaeth y Post Brenhinol er mwyn cynyddu capasiti a gwydnwch trefniadau dosbarthu meddyginiaethau a oedd eisoes yn bodoli gan fferyllfeydd cymunedol a meddygon fferyllol, mewn ymateb i'r galw ychwanegol o ganlyniad i fesurau a gymerwyd i leihau lledaeniad COVID-19. Mae adroddiad y Pwyllgor yn cyfeirio at y trefniadau sydd eu hangen i ateb y galw presennol; gallwn gadarnhau bod nifer y gwirfoddolwyr a recriwtiwyd i gefnogi'r Cynllun Gwirfoddolwyr a chapasiti Gwasanaeth y Post Brenhinol yn rhagori ar y galw presennol gan fferyllfeydd a meddygon fferyllol ledled Cymru ac nad oedd angen cymorth ychwanegol ar lawer arnynt. Felly nid ydym o'r farn bod capasiti yn broblem o ran y trefniadau cyfredol.

| |
|---|
| Mae argymhelliad y Pwyllgor hefyd yn cyfeirio at bwysau posibl yn y dyfodol. Mae'r trefniadau cyfredol wedi'u cyfyngu i'r cyfnod gwarchod a ddaw i ben ar 16 Awst. Yn dilyn cyngor y Prif Swyddog Meddygol i ddod â threfniadau gwarchod i ben dros dro, bydd y Cynllun Dosbarthu gan Wirfoddolwyr a Gwasanaeth y Post Brenhinol yn parhau, fel y cynlluniwyd, i gefnogi'r cleifion hyn tan 30 Medi. Rydym bellach yn gweithio gyda'r Post Brenhinol, Pro Delivery Manager a sefydliadau'r trydydd sector, megis y Groes Goch Brydeinig ac Ambiwlans Sant Ioan, i drafod logisteg gallu ailddechrau model cymorth ar gyfer dosbarthu meddyginiaethau sydd wedi 'dod i ben dros dro' yn gyflym petai ail don yn ystod misoedd y gaeaf. Byddai hyn yn golygu y gellid ailddechrau trefniadau yn gyflym petai ail don sylweddol o achosion COVID-19.<br><br>Darperir gwasanaethau dosbarthu gan fferyllfeydd cymunedol ar sail fasnachol ac nid fel rhan o delerau gwasanaeth y GIG. Fodd bynnag, rydym wedi cael tawelwch meddwl bod gan bob fferyllfa gymunedol drefniadau ar waith i sicrhau bod y cleifion hynny sydd wedi'u blaenoriaethu yn cael eu meddyginiaeth ac wedi addasu £5.8m o fewn y Fframwaith Contractiol Fferylliaeth Gymunedol i gefnogi'r trefniadau hyn drwy gydol 2020-21 os bydd angen. Ar gyfer cleifion nad ydynt mewn grwpiau a gaiff eu blaenoriaethu, mae llawer o fferyllfeydd yn parhau i gynnig trefniadau dosbarthu preifat.<br><br>**Goblygiadau Ariannol –** Mae £5.8m o gyllid y Fframwaith Contractiol Fferylliaeth Gymunedol wedi cael ei haddasu i gefnogi trefniadau i ddosbarthu meddyginiaethau drwy gydol 2020-21. |
| **Argymhelliad 15**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i adolygu'r trefniadau cymorth presennol ar gyfer pobl sy'n gwarchod eu hunain, a gweithredu gwelliannau yn ôl yr angen. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Mae'r gydberthynas rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r tîm polisi gwarchod wedi'i sefydlu'n gadarn ac wedi bod yn ddull o drafod yn agored yr hyn a allai fod yn well. Yn ogystal â darparu ymatebion cyflym i ymholiadau a materion gan awdurdodau lleol, bydd y tîm gwarchod yn cysylltu'n uniongyrchol â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru sawl gwaith yr wythnos er mwyn sicrhau bod materion yn cael eu codi, eu trafod a'u datrys yn amserol. Wrth i'r gydberthynas ddatblygu a'r materion gweithredu leihau, mae'r gydberthynas hon wedi cefnogi dulliau cyfathrebu gwell, yn unol â rhanddeiliaid eraill, er mwyn gwella prosesau rhannu gwybodaeth mewn perthynas â chyhoeddiadau a newidiadau i ganllawiau ar gam cynharach.<br><br>Rydym yn cydnabod bod ein cydberthynas â'n partneriaid mewn awdurdodau lleol yn allweddol i gefnogi'r bobl hynny sydd wedi bod yn gwarchod eu hunain wrth i'r cyngor hwn ddod i ben dros dro, boed hyn oherwydd natur agored i niwed barhaus neu fel rhan o'u rôl wrth gefnogi rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu a chyfrannu at y gwaith o reoli brigiadau o achosion. |

| |
|---|
| Ar lefel Weinidogol, mae amrywiaeth o Weinidogion wedi bod yn cysylltu ag arweinwyr yn wythnosol fel y bo'n briodol. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gofal cymdeithasol wedi cymryd rhan mewn sgyrsiau ar warchod a'r system Profi, Olrhain a Diogelu.<br><br>Rydym yn bwriadu parhau i fuddsoddi yn y cydberthnasau pwysig hyn, gan ganolbwyntio ar wella'n barhaus, er mwyn cefnogi ein dinasyddion.<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Dim |
| **Argymhelliad 16**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau clir ar gael i'r rhai sy'n gwarchod ynghylch cyrchu gwasanaethau gofal iechyd arferol a sut i wneud hyn yn ddiogel. |
| **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**<br>Mae'r llythyrau gan y Prif Swyddog Meddygol yn cynnwys gwybodaeth i'r bobl hynny sy'n gwarchod ynghylch beth i'w wneud mewn perthynas â mynd i leoliadau iechyd ar gyfer gofal rheolaidd ac apwyntiadau sydd wedi'u cynllunio. Fodd bynnag, mae'n anodd gwneud hyn yn fwy penodol i'r lleoliad y mae'r unigolyn yn mynd iddo. Pan oedd y cyngor i warchod ar waith, y cyfarwyddyd oedd osgoi'r lleoliadau cymaint â phosibl ac os oedd hi'n gwbl angenrheidiol mynd i leoliad, roedd yn bwysig cyfathrebu'n uniongyrchol â'r lleoliad er mwyn rhoi gwybod eich bod yn gwarchod eich hun.<br><br>Pan newidiodd y cyngor mewn perthynas â gwisgo masgiau wyneb (13 Mehefin), nodwyd y dylai pobl a oedd wedi derbyn llythyr gwarchod gan y Prif Swyddog Meddygol (gan gynnwys gofalwr claf neu blentyn sydd ar y Rhestr o'r Cleifion a Warchodir yng Nghymru) wisgo masg meddygol pan nad oedd modd osgoi'r angen iddynt ymweld â lleoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol. Dylai masgiau gael eu darparu i bobl yn y categori hwn os oedd angen.<br><br>**Goblygiadau Ariannol:** Dim |
| **Argymhelliad 17**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau clir yn cael eu darparu ar gyfer teuluoedd a gofalwyr pobl sy'n gwarchod ynghylch dychwelyd i'r gwaith, a'r cymorth y gallant ei ddisgwyl. |
| **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**<br>Mae'n bwysig nodi bod ystod eang o bobl, sy'n wirioneddol agored i niwed neu y mae canfyddiad eu bod yn agored i niwed, sy'n bryderus am ddychwelyd i'r gwaith. Fel Llywodraeth, ein nod yw darparu canllawiau a fyddai'n cefnogi'r holl unigolion hynny o ran pa gamau priodol i'w cymryd.  Ym mhob achos, y sgwrs bwysicaf y dylid ei chael yw gyda'r cyflogwr, a dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl er mwyn gallu dychwelyd i'r gwaith yn ddiogel. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar gyflogwyr i leihau'r risg o ddod i |

Tudalen y pecyn 120

gysylltiad â COVID-19 yn y gweithle. Mae cyngor ar gael yn yr adran 'Gwaith, sgiliau a chefnogaeth ariannol' ar ein gwefan https://llyw.cymru/gwaith-sgiliau-chefnogaeth-ariannol ar sut i gadw'n ddiogel yn y gwaith a chael cymorth os oes gan bobl bryderon ynghylch arian neu sicrwydd cyflogaeth.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

## Y Strategaeth Profi, Olrhain a Diogelu

**Argymhelliad 18**
Rhaid i Lywodraeth Cymru achub ar y cyfle nawr i adolygu'r holl drefniadau i sicrhau bod graddfa'r isadeiledd, y gwaith o gyflwyno technoleg a'r ymarferion recriwtio angenrheidiol ar waith i sicrhau system olrhain cysylltiadau effeithlon sy'n gweithredu'n effeithiol. Rhaid i'r system beidio â dioddef yn sgil diffyg cynllunio, adnoddau neu dechnoleg, pan fu amser i baratoi a chyfleoedd pwysig ar gyfer dysgu.

**Ymateb: Derbyn**
Mae'r system Profi, Olrhain a Diogelu wedi cael ei dylunio i raddfa, fel sy'n ofynnol, gyda chynlluniau rhanbarthol i gefnogi hyn. Mae gwaith i gynllunio adnoddau, seilwaith a chapasiti wedi cael ei wneud yn seiliedig ar y modelau a'r cyngor gwyddonol diweddaraf.

Gan weithio mewn partneriaeth agos ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, rydym yn gwella ac yn mireinio'r system gyfan yn gyflym er mwyn sicrhau bod y gwaith o olrhain cysylltiadau yn parhau i gael ei wneud yn effeithlon ac yn effeithiol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim costau ychwanegol. Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i Fyrddau Iechyd ac awdurdodau lleol er mwyn cefnogi'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu.

**Argymhelliad 19**
Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, geisio sicrhau bod canlyniadau pob prawf yn cael eu dychwelyd o fewn 24 awr.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn gwybod bod cyflymder yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y system olrhain cysylltiadau yn effeithiol. Rydym yn gweithio'n gyflym gydag arweinwyr profi byrddau iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar nifer o welliannau. Mae £32 miliwn

ychwanegol mewn cyllid wedi'i gymeradwyo ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru i roi gwelliannau ar waith i sicrhau canlyniadau cyflymach i gefnogi'r broses olrhain cysylltiadau. Mae hyn yn cynnwys:

- gwella prosesau labordai er mwyn datblygu effeithlonrwydd a chyflymder
- Darparu staff ac offer ychwanegol ar gyfer labordai rhanbarthol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd, Ysbyty Singleton, Abertawe ac Ysbyty Glan Clwyd, y Rhyl fel y gallant weithredu 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.
- Creu chwe labordy mewn ysbytai acíwt ar draws Cymru, a fydd ag offer profi cyflym, mewn llai na 4 awr, ac offer profi newydd ar gyfer cyflyrau eraill i ryddhau staff i weithio ar brofion COVID-19. Bydd y labordai hyn ar gael rhwng 8:00am a 10:00pm, saith diwrnod yr wythnos.

Disgwylir y bydd y tri labordy rhanbarthol yn gallu gweithredu 24 awr y dydd o fis Hydref. Bydd y chwe labordy newydd yn gweithredu ym mis Tachwedd. Mae gwaith ar y gweill i roi'r newidiadau hyn ar waith gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bwriadu recriwtio hyd at 160 o staff i'r rolau newydd. Mae gweithgarwch ychwanegol hefyd wedi canolbwyntio ar wella trefniadau a phrosesau cludo.

Yn ogystal â'r gwelliannau yn y labordai rydym yn gweithio gyda phartneriaid i gyflymu'r broses cyn cyrraedd y labordai gan sicrhau eu bod ar eu gorau. Gwneir hyn drwy gynyddu safleoedd samplo, amlder casglu samplau, y cyflymder y bydd samplau yn cyrraedd y labordai a sicrhau amseroedd cyrraedd effeithiol.

Mae rhai llwybrau profi nad ydynt yn gallu dychwelyd canlyniadau o fewn 24 awr. Ni all profion yn y cartref, er enghraifft, weithredu o fewn yr amserlen hon. Yn yr un modd, mae gan Gartrefi Gofal beth hyblygrwydd o ran sut y bydd profion yn cael eu gweinyddu i adlewyrchu patrymau sifft ac oriau gwaith y staff. Byddwn bob amser yn ceisio cyflawni'r amser cyflymaf posibl yn unol â nodau a dibenion y profion.

Mae swyddogion hefyd yn gweithio i wella hygyrchedd i safleoedd profi yn lleol drwy gyflwyno safleoedd samplo galw heibio yn lleol a safleoedd symudol dros dro a fydd yn golygu y gall unigolion â symptomau gael prawf yn gyflym.

**Goblygiadau Ariannol –** Er bod gwaith yn parhau gyda GIG Cymru ar hyn, caiff cyllid ar gyfer gwelliannau ei ddarparu o'r pecyn sefydlogi gwerth £800m i gefnogi GIG Cymru. Cymeradwywyd cyllid o hyd at £32 miliwn i gyflymu amseroedd dychwelyd canlyniadau profion.

| |
|---|
| **Argymhelliad 20**<br>Dylai Llywodraeth Cymru symud ar unwaith i system lle mae olrhain cysylltiadau yn cychwyn naill ai ar ôl derbyn prawf positif, neu o fewn 24 awr. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br><br>Bydd y gwaith o olrhain cysylltiadau yn dechrau ar ôl cael prawf positif. Mae'r mwyafrif helaeth o'r bobl a gaiff eu profi yn cael canlyniad negatif (93.5% yn negatif ar 9 Awst). Gallai dechrau olrhain cysylltiadau cyn gwybod canlyniadau profion gael effaith negyddol sylweddol ar y cysylltiadau hynny y gofynnir iddynt hunanynysu'n ddiangen. Mae'r system Profi, Olrhain a Diogelu yn dibynnu ar bobl yn dilyn y cyngor a roddir ac mae angen inni fod yn ymwybodol iawn o hyd wrth ystyried effaith unrhyw ddull ar ymddygiad. Gallai gofyn i bobl hunanynysu heb dystiolaeth bod angen iddynt wneud hynny danseilio hyder yn y system. Byddai hefyd yn gofyn am gryn dipyn o adnoddau ychwanegol yn y timau olrhain cysylltiadau. Mae ein dull yn ystyried y cyngor meddygol diweddaraf ac effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach gofyn i gysylltiadau agos hunanynysu. Mae'r sefyllfa hon yn datblygu a chaiff ei hadolygu'n barhaus.<br><br>**Goblygiadau Ariannol –** Dim costau ychwanegol. Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i Fyrddau Iechyd ac awdurdodau lleol er mwyn cefnogi'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu. |
| **Argymhelliad 21**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod systemau ar waith i fonitro'r gyfradd negyddol ffug yn effeithiol, ac i sicrhau bod profion yn cael eu cyflwyno'n gyfrifol ac yn hyblyg er mwyn lleihau'r gyfradd negyddol ffug. |
| **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**<br>Mae'r strategaeth profi a gyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf yn amlinellu sut y byddwn yn cynnal profion yng Nghymru. Mae nifer isel yr achosion o'r clefyd yn debygol o gynhyrchu cyfradd uwch o ganlyniadau positif anghywir a chanlyniadau negatif anghywir. Oherwydd eu natur, mae'n anodd mesur canlyniadau negatif anghywir yn y system, ond mae gwaith yn mynd rhagddo i amcangyfrif cyfraddau negatif anghywir yn seiliedig ar sensitifrwydd clinigol profion.<br><br>**Goblygiadau Ariannol –** Dim costau ychwanegol. Cymerir cyllid o gyllidebau y cytunwyd arnynt ar gyfer profi, fel y disgrifir uchod. |
| **Argymhelliad 22**<br>Mewn ymgynghoriad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, dylai Llywodraeth Cymru: |

- gyhoeddi strategaeth i gynyddu nifer y bobl sy'n dod ymlaen i gael prawf er mwyn defnyddio'r capasiti profi sydd ar gael yn llawnach;
- cymryd camau yn awr i roi sicrwydd y bydd modd cyflawni 20,000 o brofion y dydd; sicrhau bod mesurau diogelwch ar waith i sicrhau bod capasiti o gyfleusterau y tu allan i Gymru yn addas i'r diben ac yn ddigonol i ateb y galw.
- sicrhau bod y system yn gallu ymateb i gynnydd yn y galw, ac ehangu i'w ddiwallu.

**Ymateb – Derbyn**

Mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Iechyd Lleol ac Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU, rydym wedi datblygu seilwaith profi cenedlaethol er mwyn sicrhau bod pawb sydd angen prawf yn gallu cael un yn gyflym ac yn hawdd. Mae ein strategaeth cyfathrebu yn canolbwyntio ar bwy ddylai gael prawf, sut a phryd, gan annog y rhai hynny sydd â symptomau i gael eu profi.

Mae ein Strategaeth Profi a gyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf yn amlinellu sut y byddwn yn defnyddio ein capasiti profi yn effeithiol er mwyn sicrhau bod y bobl hynny y mae angen prawf arnynt yn gallu cael un. Mae'r strategaeth hefyd yn amlinellu'r ffordd y caiff profion eu cyfeirio er mwyn sicrhau'r llwybrau a'r canlyniadau gorau. Defnyddir dull profi RT-PCR, a bydd yn parhau i gael ei ddefnyddio, o fewn lleoliadau neu garfanau penodol a dargedir yn unol â chyngor y Grŵp Cynghori Technegol. Mae gennym rwydwaith helaeth o gyfleusterau samplu a phrofi, gan gynnwys Canolfannau Profi Torfol drwy Ffenest y Car, Unedau Profi Symudol ac Unedau Profi am y Coronafeirws, ac mae pecynnau profi gartref ar gael i'r rhai na allant fynd i safleoedd profi.

Rydym wedi cymryd camau gweithredol i ddatblygu ein capasiti profi a byddwn yn parhau i wneud hynny. Gall ein labordai yng Nghymru gynnal dros 15,000 o brofion y dydd ac mae gennym fynediad i gapasiti ehangach y DU a ddefnyddir ar gyfer profi'r boblogaeth, profion mewn cartrefi gofal ac ar gyfer gweithwyr allweddol. Bydd llwybrau samplu newydd drwy Safleoedd Profi Lleol galw i mewn yn helpu i gynyddu capasiti ynghyd â darpariaeth fwy gan UK Lighthouse Labs.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y DU i sicrhau bod y ddarpariaeth a gynigir gan gyfleusterau y tu allan i Gymru yn addas at y diben ac yn ddigonol er mwyn ateb y galw. Mae ein strategaeth yn ein galluogi i gyfeirio profion yn unol â'r angen, er mwyn sicrhau ymateb effeithiol.

Mae gwaith modelu helaeth yn helpu i lywio gofynion ar gyfer cynllunio capasiti. Gellir defnyddio Unedau Profi Symudol Wrth Gefn yn hyblyg er mwyn helpu i ymateb i frigiadau o achosion gan sicrhau y cânt eu rheoli mewn ffordd ystwyth. Rydym eisoes wedi gweld y rhain yn cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn ymateb i frigiadau o achosion yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim costau ychwanegol. Caiff goblygiadau ariannol profi yng Nghymru eu bodloni drwy gyfuniad o gyllid fel rhan o seilwaith uniongyrchol y DU a'r pecyn sefydlogi gwerth £800m a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 5 Awst i gefnogi GIG Cymru i barhau i ymateb i effaith argyfwng y coronafeirws, ac adfer ar ei ôl.

**Argymhelliad 23**

Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o frys, adolygu ei phenderfyniadau ynghylch nifer y staff sydd eu hangen ar gyfer olrhain cysylltiadau er mwyn sicrhau ei hun a'r cyhoedd y gall y system yn gallu gweithredu'n effeithiol pan fydd y galw ar ei uchaf, ac y gall fod yn hyblyg ac ymateb yn ôl newidiadau yn y galw. Dylai gyhoeddi canlyniadau'r adolygiad.

**Ymateb – Derbyn**

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o ran nifer y staff sydd eu hangen i olrhain cysylltiadau.

Y polisi yw datblygu'r arbenigedd olrhain cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli yn ein hawdurdodau lleol a'n byrddau iechyd ac adeiladu arno er mwyn creu gweithlu y gellir ei gynyddu neu ei leihau yn gyflym gan ddibynnu ar amgylchiadau.
Mae'r dull partneriaeth hwn wedi ein galluogi i sefydlu gweithlu olrhain cysylltiadau o ryw 700 o swyddogion yn gyflym, sy'n fwy na digon i ymdopi â'r nifer isel o bobl sy'n cael canlyniadau prawf positif ar hyn o bryd. Roedd y dybiaeth gychwynnol y byddai angen gweithlu o 1,000 o swyddogion olrhain cysylltiadau erbyn 1 Mehefin yn seiliedig ar waith modelu cynharach mewn perthynas â lledaeniad y feirws.

Wrth symud ymlaen, mae pob rhanbarth wedi ymgymryd â gwaith cynllunio manwl o ran adnoddau'r gweithlu olrhain cysylltiadau yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd ail don sylweddol iawn o'r feirws yn yr hydref a allai, ar ei phenllanw, olygu y byddai angen olrhain cysylltiadau hyd at 11,000 o achosion positif newydd bob wythnos.

Pe byddem yn gweld ail don ar y raddfa hon, byddai angen gweithlu ag oddeutu 1,800 o swyddogion ac mae Llywodraeth Cymru felly wedi dyrannu gwerth £45m o gyllid i'r rhanbarthau er mwyn talu costau gweithlu o'r maint hwn yn llawn. Mae gofynion yn cael eu monitro'n barhaus ac mae adolygiad mawr wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi.

Mae'r holl fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol wrthi'n rhoi eu cynlluniau hyfforddi a recriwtio gweithlu ar waith ar hyn o bryd a chaiff y sefyllfa ei monitro'n agos ai hailasesu'n llawn ym mis Medi er mwyn sicrhau ei bod yn ddigonol o hyd.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Mae £45m wedi cael ei ddarparu ar gyfer 2020-21. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu hadolygu'n barhaus.

**Argymhelliad 24.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gadarnhau, fel mater o flaenoriaeth, y pecyn cymorth ariannol i awdurdodau lleol i gefnogi'r gwaith o gyflogi gweithwyr olrhain proffesiynol, yn hytrach na dibynnu ar adleoli staff presennol.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn ymwybodol iawn y bydd angen ein cefnogaeth lawn ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd ac y bydd goblygiadau uchel o ran adnoddau.

Rydym wedi sicrhau y bydd £45m ar gael y flwyddyn ariannol hon. Bydd hyn yn ddigon i gefnogi gweithlu olrhain cysylltiadau â chyfanswm o 1,800 o swyddogion gyda'r capasiti i olrhain cysylltiadau hyd at 11,000 o achosion positif newydd bob wythnos.

Caiff y sefyllfa ei hadolygu'n gyson wrth inni symud ymlaen.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Fel y nodwyd uchod, mae £45m wedi cael ei ddarparu ar gyfer 2020-21. Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i Fyrddau Iechyd ac awdurdodau lleol er mwyn cefnogi'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu. Caiff costau ychwanegol eu hadolygu'n barhaus.

**Argymhelliad 25**

Rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda'i phartneriaid, sicrhau system o negeseuon cyhoeddus clir ac ailadroddus - ar lefel genedlaethol a lleol - ynghylch cyfrifoldebau unigolion i hunanynysu os oes ganddynt symptomau, a phwysigrwydd hunanatgyfeirio ar frys i gael prawf.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn arwain ymgyrch barhaus i sicrhau ymwybyddiaeth y cyhoedd o COVID-19 ers dechrau'r argyfwng. Mae'r gwaith hwn wedi bod, ac yn parhau i fod, yn hanfodol wrth gyfleu'r cyngor iechyd diweddaraf i'r cyhoedd, gan sicrhau bod pawb yn deall sut i gael prawf cyn gynted ag y byddant yn dechrau dangos symptomau, ac yn rhoi sicrwydd iddynt ynghylch rôl olrhain cysylltiadau wrth gadw Cymru'n ddiogel rhag brigiadau o achosion yn y dyfodol.

Hyd yn hyn, mae'r ymgyrch wedi cynnwys deunyddiau digidol, sylw yn y cyfryngau, gwaith allgymorth cymunedol a hysbysebion mewn deunydd wedi'i argraffu, ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar y radio. Mae dros 450 o ddeunyddiau ymgyrchu wedi cael eu cynhyrchu mewn 34 o ieithoedd gwahanol. Mae partneriaid megis y GIG, awdurdodau lleol a thimau cyfathrebu gwasanaethau cyhoeddus ehangach wedi gallu defnyddio'r deunyddiau ymgyrchu ar eu sianeli cyfathrebu mewnol ac allanol.

Bydd yr ymgyrch yn parhau i ganolbwyntio ar bwy ddylai gael prawf, sut a phryd, ynghyd â rôl olrhain cysylltiadau wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim costau ychwanegol. Cymerir y costau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Argymhelliad 26**
Rhaid i Lywodraeth Cymru archwilio gyda Llywodraeth y DU y trefniadau ar gyfer tâl salwch statudol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n gorfod hunanynysu. Dylid gwneud hyn ar frys.

**Ymateb: Derbyn**
Mae pryderon yn parhau i gael eu codi gyda Gweinidogion y DU o ran effaith ariannol hunanynysu. Ni all tâl salwch statudol ei hun dalu costau byw ac mae'n peri risg i unigolion a theuluoedd yn ein cymunedau sy'n agored i niwed yn ariannol. Mae tâl salwch statudol yn fater sydd heb ei ddatganoli ac rydym yn annog Llywodraeth y DU yn gryf i gymryd camau i sicrhau bod cymorth ariannol briodol ar gael i'r rhai y disgwylir iddynt hunanynysu.

Mae gan weithwyr sy'n hunanynysu hawl i dâl salwch statudol ar gyfer pob diwrnod y byddant yn hunanynysu ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, gan gynnwys hunanynysu am o leiaf 4 diwrnod ar ôl ei gilydd (gan gynnwys diwrnodau nad ydynt yn ddiwrnodau gwaith).

Mae pobl a gaiff eu holrhain ac y mae'n rhaid iddynt hunanynysu am eu bod wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi cael canlyniad prawf coronafeirws positif hefyd wedi'u cynnwys o dan y rheoliadau a wnaed gan Lywodraeth y DU ar 27 Mai 2020, yn amodol ar feini prawf cymhwysedd.

Os na all pobl weithio gartref wrth iddynt hunanynysu, efallai y gallant hefyd gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sydd ar gael drwy gov.uk.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 27**
Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu mwy o wybodaeth am y protocol ar drefniadau trawsffiniol.

**Ymateb: Derbyn**
Mae'r prosesau angenrheidiol ar waith er mwyn gallu rhannu data a gwybodaeth rhwng Cymru a Lloegr i gefnogi'r gwaith o olrhain cysylltiadau.

Mae'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid yng Nghymru yn nodi achosion a chysylltiadau sy'n byw y tu allan i Gymru ac yn eu rhoi mewn ciw ar wahân i gysylltiadau eraill er mwyn eu rhannu â Public Health England. Caiff y wybodaeth a'r data hyn eu rhannu'n ddyddiol rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a Public Health England drwy system electronig ddiogel a chaiff y broses ei hategu gan gytundeb rhannu data rhwng y ddau sefydliad. Y system Profi, Olrhain a Diogelu neu 'Test and Trace' lle mae'r person yn byw fydd yn cysylltu â'r unigolyn.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli

## Goblygiadau ariannol i lywodraeth leol a chyllid ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion

**Argymhelliad 28.** Rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o frys, roi ar waith ymrwymiad cyllid gwarantedig byrdymor i gefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion i liniaru effaith ariannol Covid-19. Rhaid datblygu’r ymrwymiad hwn mewn ymgynghoriad â darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys llywodraeth leol.

**Ymateb: Derbyn**

Fel y mae'r Pwyllgor yn cydnabod, mae awdurdodau lleol wedi bod yn rhan hollbwysig o'r ymateb i'r pandemig gan ddarparu gwasanaethau a chymorth hanfodol yn eu cymunedau mewn amgylchiadau anodd. Er mwyn galluogi hyn, rydym wedi dyrannu dros £155 miliwn ychwanegol i dalu am y costau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth ymateb i COVID-19. Mae hyn yn cynnwys oddeutu £63 miliwn (fel yr amlinellir isod) i helpu i dalu'r costau ychwanegol y mae darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion yn mynd iddynt. Yn ogystal â hyn, rydym yn cydnabod y pwysau ariannol sydd ar awdurdodau lleol o ganlyniad i golli incwm, ac felly rydym wedi dyrannu £78m ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol gyda'r costau hyn. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Trysoryddion Cymru er mwyn deall effaith y pandemig ar lywodraeth leol ac yn gweithredu fel sydd angen i fynd i'r afael â hyn.

Mewn perthynas ag effaith ariannol COVID-19 ar ddarparwyr gofal cymdeithasol i oedolion, fel ymateb uniongyrchol i'r pandemig, darparodd Llywodraeth Cymru hyd at £40 miliwn i awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i dalu costau dyddiol ychwanegol darparwyr. Datblygwyd y pecyn cymorth hwn mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a'i ddiben oedd galluogi darparwyr i barhau i

weithredu yn ystod y cyfnod hwn a pharhau i ddarparu gofal. Roedd y cyllid hwn ar gyfer mis Ebrill a mis Mai yn wreiddiol, ond cafodd ei estyn i gynnwys mis Mehefin.

Er bod hyn wedi darparu cymorth mawr ei angen i'r sector, mae nifer o ddarparwyr yn wynebu pwysau ariannol o hyd, yn enwedig cartrefi gofal sy'n wynebu'r her ychwanegol o ganlyniad i golli incwm yn sgil cyfraddau defnydd gwelyau is na'r arfer. O ganlyniad, rydym eisoes wedi ymrwymo i ddarparu £22.7 miliwn o gyllid ychwanegol dros gyfnod hwy er mwyn i awdurdodau lleol allu parhau i gynorthwyo darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion gyda'r costau parhaus hyn. Eto, datblygwyd yr hwb ariannol pellach hwn mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a bydd ar gael tan ddiwedd mis Medi, pan gaiff y sefyllfa ei hadolygu. Mae'r ymrwymiad hwn yn rhoi tawelwch meddwl i ddarparwyr gofal cymdeithasol i oedolion ac awdurdodau lleol o ran sut y telir am gostau nas cynlluniwyd sy'n deillio o'r pandemig hwn yn y byrdymor wrth inni asesu effaith COVID-19 yn y tymor hwy.

**Goblygiadau Ariannol:** Darperir £155m i awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn cefnogi costau ychwanegol sy'n deillio o COVID-19.